

Adroddiad Cenedlaethol

Arolwg Profiad Cleifion Cancer Cymru 2016

5^{ed} Gorffennaf 2017

picker.org

Cynnwys

Rhagair	1
Crynodeb gweithredol	5
Rhagymadrodd	6
Canlyniadau allweddol	6
Dadansoddiad grŵp tiwmor	7
Effaith darpariaeth Nyrsys Clinigol Arbenigol (NGA)	8
Effaith darpariaeth Gweithiwr Allweddol	8
Cynnig cynllun gofal ysgrifenedig	8
Canlyniadau gan gleifion a lenwodd eu harolwg yn Gymraeg	9
Canlyniadau gan y rheiny a lenwodd eu harolwg ar-lein	9
Sylwadau ysgrifenedig gan ymatebwyr	10
Trosolwg o'r canlyniadau	11
Cyflwyniad	14
Cefndir Arolygon Profiad Cleifion Canser Cymru	15
Casgliadau allweddol arolwg 2013	15
Newidiadau ar gyfer arolwg 2016	16
Trosolwg o'r arolwg	17
Methodoleg yr arolwg	18
Proses samplo	18
Dosbarthu'r holiadur	18
Priodoli ymatebwyr i fwrdd/ymddiriedolaeth iechyd	18
Safoni (data wedi eu haddasu)	19
Sgôr cyfartaledd bwrdd a sgôr Cymru Gyfan	19
Grwpiau tiwmor	20
Deall eich canlyniadau	20
Sgoriau cadarnhaol	20
Cwestiynau wedi'u targedu	20
Dim ymatebion	20
Niferoedd isel o ymatebwyr	20
Meintiau sylfaen	21

Gwahaniaethau arwyddocaol	21
Cyfyngau hyder	21
Defnyddio'r adroddiad hwn	22
Gwybodaeth bellach	22
Ymatebwyr yr arolwg	23
Dyddiadau gwaith maes	24
Gweithgarwch yr arolwg	24
Demograffeg Ymatebwyr	25
Prif ganfyddiadau	26
Prif ganfyddiadau	27
Cyflwyniad	27
Darparu triniaeth a gofal cyflym, effeithiol	30
Diwallu anghenion pobl	32
Gwella gwybodaeth canser ar gyfer cleifion	39
Targedu ymchwil i ganser	41
Dadansoddiad grwpiau tiwmor	42
Cyflyrau hir sefydlog	46
Profiadau ymatebwyr a lenwodd fersiwn Gymraeg yr holiadur	50
Profiadau ymatebwyr a lenwodd yr arolwg ar-lein	52
Casgliadau	53
Canlyniadau	56
Crynodeb sgôr cadarnhaol	56
Siart sgoriau cadarnhaol: Cyn eich diagnosis	57
Siart sgoriau cadarnhaol: Darganfod bod gennych ganser	58
Siart sgoriau cadarnhaol: Penderfynu ar y driniaeth a'r/neu'r gofal gorau ar eich cyfer	58
Siart sgoriau cadarnhaol: Gweithiwr Allweddol	59
Siart sgoriau cadarnhaol: Nyrs Glinigol Arbenigol	59
Siart sgoriau cadarnhaol: Cefnogaeth i bobl sydd â chanser	60
Siart sgoriau cadarnhaol: Llawdriniaethau	60
Siart sgoriau cadarnhaol: Gofal ysbyty fel claf mewnol	61

Siart sgoriau cadarnhaol: Apwyntiadau cleifion allanol/achos dydd	62
Siart sgoriau cadarnhaol: Radiotherapi/cemotherapi	63
Siart sgoriau cadarnhaol: Trefnu cefnogaeth gartref	63
Siart sgoriau cadarnhaol: Eich gofal GIG cyffredinol	64
Dadansoddiad bwrdd iechyd	65
Ymddiriedolaeth GIG Felindre	69
Dadansoddiad grŵp tiwmor	71
Tabl grŵp tiwmor: Cyn eich diagnosis	72
Tabl grŵp tiwmor: Darganfod bod gennych ganسر	73
Tabl grŵp tiwmor: Penderfynu ar y driniaeth a'r/neu'r gofal gorau ar eich cyfer	74
Tabl grŵp tiwmor: Gweithiwr Allweddol	75
Tabl grŵp tiwmor: Nyrs Glinigol Arbenigol	76
Tabl grŵp tiwmor: Cefnogaeth i bobl sydd â chanser	77
Tabl grŵp tiwmor: Llawdriniaethau	78
Tabl grŵp tiwmor: Gofal ysbyty fel claf mewnol	79
Tabl grŵp tiwmor: Apwyntiadau cleifion allanol/achos dydd	81
Tabl grŵp tiwmor: Radiotherapi/cemotherapi	82
Tabl grŵp tiwmor: Trefnu cefnogaeth gartref	83
Tabl grŵp tiwmor: Eich gofal GIG cyffredinol	84
Cyfleoedd i wella	85
Canolbwyntio'r gwella	86
Sgoriau cadarnhaol wedi eu graddio	87
Deg sgôr mwyaf cadarnhaol	87
Deg sgôr lleiaf cadarnhaol	88
Cymariaethau hanesyddol	89
Siart sgoriau cadarnhaol ar gyfer cymhariaeth hanesyddol: C4, C5, C11, C12, C13+	89
Siart sgoriau cadarnhaol ar gyfer cymhariaeth hanesyddol: C15, C16+, C18+, C29+, C73	90
Themâu yn sylwadau'r ymatebwyr	91
Demograffeg yr ymatebwyr	92
Themâu allweddol	92

Themâu cadarnhaol	93
Themâu negyddol	99
Atodiadau	108
Atodiad un: Dadansoddiad o'r byrddau iechyd	109
Atodiad dau: Ymddiriedolaeth GIG Felindre	140
Atodiad tri: Effaith darpariaeth Nyrs Glinigol Arbenigol (NGA)	148
Atodiad pedwar: Effaith Darpariaeth Gweithiwr Allweddol	156
Atodiad pump: Sefydlu cynllun gofal	164
Atodiad chwech: Sgoriau cadarnhaol wedi eu graddio	177
Atodiad saith: Dull methodolegol	180
Atodiad wyth: Tablau amledd	182
Atodiad naw: Tablau amledd grwpiau tiwmor	257
Atodiad deg: Holiadur	317

Tablau a siartiau

Ffigur 1: Cymru Gyfan – Ffeithlun crynodeb gweithredol.....	12
Ffigur 2: Cymru Gyfan – Ffeithlun crynodeb llwybr claf	13
Ffigur 3: Gweithgarwch yr arolwg	24
Ffigur 4: Iaith ymateb	24
Ffigur 5: Dull ymateb	24
Ffigur 6: Demograffeg ymatebwyr	25
Ffigur 7: Siart sgoriau cadarnhaol ar gyfer profiad cyffredinol cleifion o ofal (C71 - C74+).....	28
Ffigur 8: Siart sgoriau cadarnhaol ar gyfer canlyniadau darganfod cancer yn gynnar	29
Ffigur 9: Siart sgoriau cadarnhaol ar gyfer hyder cleifion yn y staff (C15, C37, C43, C44, C55+, C73).....	32
Ffigur 10: Siart sgoriau cadarnhaol ar gyfer rhyngweithio claf mewnol gyda staff (C40+, C42+).....	32
Ffigur 11: Siart sgoriau cadarnhaol ar gyfer darpariaeth Gweithiwr Allweddol (C19 – C21+).....	34
Ffigur 12: Siart sgoriau cadarnhaol ar gyfer darpariaeth Nyrs Glinigol Arbenigol (C22 – C25).....	34
Ffigur 13: Siart sgoriau cadarnhaol ar gyfer cymorth gartref yn cael ei drefnu ar gyfer claf (C62+ – C66+)	35
Ffigur 14: Siart sgoriau cadarnhaol ar gyfer lefel y wybodaeth a dderbyniwyd gan gleifion (C27, C28, C29+)	37
Ffigur 15: Siart sgoriau cadarnhaol ar gyfer mynediad cleifion at gynllun gofal (C67, C68).....	37
Ffigur 16: Siart sgoriau cadarnhaol ar gyfer beth ddigwyddodd cyn triniaeth (C8+, C10+, C11, C12, C14+, C16+, C18+).....	41
Ffigur 17: Maint sylfaen ymatebwyr ar gyfer pob grŵp tiwmor.....	42
Ffigur 18: C74+ yr ymatebwyr a raddiodd eu profiad o ofal yn 7/10 neu fwy yn ôl grŵp tiwmor	43
Ffigur 19: Siart sgoriau cadarnhaol ar gyfer y sgoriau sarcoma isaf (C69, C68, C67, C13+, C28)	44
Ffigur 20: Siart sgoriau cadarnhaol ar gyfer y sgoriau wrolegol isaf (C69, C68, C67, C13+, C28)	45
Ffigur 21: Siart sgoriau cadarnhaol ar gyfer cyfle i gleifion oedd â chyflwr hirdymor i drafod pryderon (C67)	47
Ffigur 22: Siart sgoriau cadarnhaol ar gyfer cleifion oedd yn gallu trafod ofnau gyda staff yn ôl cyflwr hirdymor (C40+)	48
Ffigur 23: Siart sgoriau cadarnhaol ar gyfer mynediad cleifion at Nyrs Glinigol Arbenigol yn ôl cyflwr hirdymor (C22)	49

Ffigur 24: Siart sgoriau cadarnhaol ar gyfer gwybodaeth a roddwyd i deuluoedd yn ôl cyflwr hirdymor (C62+)	50
Ffigur 25: Siart sgoriau cadarnhaol ar gyfer beth ddigwyddodd cyn i gleifion ddarganfod bod ganddynt ganser (C3+ – C10+)	57
Ffigur 26: Siart sgoriau cadarnhaol ar gyfer beth ddigwyddodd pan wnaeth cleifion ddarganfod bod ganddynt ganser (C11 – C13+)	58
Ffigur 27: Siart sgoriau cadarnhaol ar gyfer penderfyniadau a wnaed ar gyfer y driniaeth neu'r gofal gorau (C14+ – C18+)	58
Ffigur 28: Siart sgoriau cadarnhaol ar gyfer Gweithwyr Allweddol (C19 – C21+)	59
Ffigur 29: Siart sgoriau cadarnhaol ar gyfer Nyrsys Clinigol Arbenigol (C22 – C25)	59
Ffigur 30: Siart sgoriau cadarnhaol ar gyfer pa gefnogaeth sydd ar gael i gleifion pan fyddant yn dechrau triniaeth (C26 – C29+).....	60
Ffigur 31: Siart sgoriau cadarnhaol ar gyfer llawdriniaethau y gallai claf fod wedi eu cael (C32+ – C34+)	60
Ffigur 32: Siart sgoriau cadarnhaol ar gyfer arhosiad claf mewnol yn yr ysbyty (C37 – C41+).....	61
Ffigur 33: Siart sgoriau cadarnhaol ar gyfer arhosiad claf mewnol yn yr ysbyty (C42+ – C46).....	61
Ffigur 34: Siart sgoriau cadarnhaol ar gyfer arhosiad claf mewnol yn yr ysbyty (C47 – C51).....	62
Ffigur 35: Siart sgoriau cadarnhaol ar gyfer apwyntiad claf mewnol neu achos dydd (C54+ – C55+).....	62
Ffigur 36: Siart sgoriau cadarnhaol ar gyfer radiotherapi/cemotherapi (C58+ – C61+)	63
Ffigur 37: Siart sgoriau cadarnhaol ar gyfer cefnogaeth gartref yn cael ei threfnu ar gyfer claf (C62+ – C66+)	63
Ffigur 38: Siart sgoriau cadarnhaol ar gyfer profiad cyffredinol cleifion o ofal (C67 – C70).....	64
Ffigur 39: Siart sgoriau cadarnhaol ar gyfer profiad cyffredinol cleifion o ofal (C71 – C74+).....	64
Ffigur 40: C58 – Gwnaeth staff yn bendant bopeth i reoli sgil-ffeithiau radiotherapi yn ôl safle ysbyty	68
Ffigur 41: Tabl grŵp tiwmor ar gyfer beth ddigwyddodd cyn i gleifion ddarganfod bod ganddynt ganser (C3+ - C10+)	72
Ffigur 42: Tabl grŵp tiwmor ar gyfer beth ddigwyddodd pan wnaeth cleifion ddarganfod bod ganddynt ganser (C11 - C13+)	73
Ffigur 43: Tabl grŵp tiwmor ar gyfer penderfyniadau a wnaed am y driniaeth neu'r gofal gorau (C14+ - C18+).....	74
Ffigur 44: Tabl grŵp tiwmor ar gyfer Gweithwyr Allweddol (C19 - C21+)	75
Ffigur 45: Tabl grŵp tiwmor ar gyfer Nyrsys Clinigol Arbenigol (C22 - C25).....	76
Ffigur 46: Tabl grŵp tiwmor ar gyfer pa gefnogaeth sydd ar gael i gleifion pan fyddant yn dechrau triniaeth canser (C26 - C29+).....	77

Ffigur 47: Tabl grŵp tiwmor ar gyfer llawdriniaethau y gallai cleifion fod wedi eu cael (C32+ - C34+).....	78
Ffigur 48: Tabl grŵp tiwmor ar gyfer arhosiad claf mewnol yn yr ysbyty (C37 – C43)	79
Ffigur 49: Tabl grŵp tiwmor ar gyfer arhosiad claf mewnol yn yr ysbyty (C44 – C51)	80
Ffigur 50: Tabl grŵp tiwmor ar gyfer apwyntiad claf allanol neu achos dydd (C54+ - C55+).....	81
Ffigur 51: Tabl grŵp tiwmor ar gyfer radiotherapi/cemotherapi (C58+ - C61+).....	82
Ffigur 52: Tabl grŵp tiwmor ar gyfer cefnogaeth gartref yn cael ei threfnu ar gyfer claf (C62+ - C66+).....	83
Ffigur 53: Tabl grŵp tiwmor ar gyfer profiad cyffredinol o ofal (C67+ - C74+)	84
Ffigur 54: Deg sgôr mwyaf cadarnhaol	87
Ffigur 55: Deg sgôr lleiaf cadarnhaol.....	88
Ffigur 56: Siart sgoriau cadarnhaol ar gyfer cymhariaeth hanesyddol (C4, C5, C11, C12, C13+)	89
Ffigur 57: Siart sgoriau cadarnhaol ar gyfer cymhariaeth hanesyddol (C15, C16+, C18+, C29+, C73)	90
Ffigur 58: Rhaniad rhyw testun rhydd	92
Ffigur 59: Rhaniad oedran testun rhydd	92

Adran un:

Rhagair



Rhagair

Vaughan Gething, Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon

Susan Morris, Pennaeth Gwasanaethau ar gyfer Cymru, Cymorth Cancer Macmillan

Mae Llywodraeth Cymru a Chymorth Cancer Macmillan yn falch o gael rhannu gwybodaeth am ganlyniadau'r ail Arolwg Profiad Cleifion Cancer Cymru. Diolch o galon i'r miloedd o bobl a gymerodd ran yn yr arolwg am roi adborth mor fanwl ar eu profiadau o gael diagnosis o ganser, triniaeth cancer a gofal cancer.

Mae'r Cynllun Cyflawni Cancer yn cydnabod pwysigrwydd gofyn am farn pobl ynglŷn â'u triniaeth a'u gofal. Mae canlyniadau arolwg eleni yn dangos bod profiadau pobl o ofal cancer yng Nghymru'n rhai cadarnhaol, ac mae lle i ddathlu llwyddiant mewn sawl maes. Mae profiad cyffredinol pobl yn gadarnhaol iawn. Roedd 93% yn rhoi saith neu fwy allan o ddeg i'r gofal cyffredinol a gawsant, dim ond 1% yn dweud bod y gofal ar y cyfan yn wael – rhwng dim a thri allan o ddeg - ac 89% yn dweud eu bod bob amser wedi cael eu trin ag urddas a pharch tra'r oeddent yn yr ysbty.

Cafwyd nifer fawr o sylwadau ar ddiwedd yr arolwg a oedd yn tystio i waith caled ac ymroddiad y gweithwyr iechyd proffesiynol sy'n gofalu am bobl sydd â chanser. Mae'n amlwg bod y gofal a'r cymorth a ddarperir gan weithlu mor fedrus yn gwneud gwahaniaeth go iawn i brofiad pobl o gael cancer.

Mae canlyniadau'r arolwg yn cadarnhau bod cael Nyrs Glinigol Arbenigol (NGA) benodol, sef y Gweithiwr Allweddol yn aml, yn rhoi profiad mwy cadarnhaol i gleifion a'u teuluoedd yn ystod ac ar ôl triniaeth. Mae'r Cynllun Cyflawni Cancer yn gosod gofyniad clir ar fyrddau/ymddiriedolaethau iechyd i gynnig gwybodaeth amserol, hygyrch ac o ansawdd uchel i bobl ynglŷn â'u cancer a'u thriniaethau. Bydd rhaid rhoi pwyslais ar wella mynediad at y cymorth hwn yn y dyfodol. I rai cleifion, bu'n anodd cysylltu â'r NGA a'r Gweithiwr Allweddol, a dywedodd un allan o bob saith o bobl na chawsant Weithiwr Allweddol penodol o gwbl. Roedd cynnig cyfle i gleifion drafod eu hanghenion er mwyn llunio cynllun gofal personol hefyd yn cael effaith gadarnhaol arwyddocaol ar eu profiad cyffredinol. Fe gafodd lai na hanner y bobl a gymerodd ran yn yr arolwg gynnig trafodaeth o'r fath a dim ond un o bob pump o bobl a gafodd gynnig cynllun gofal ysgrifenedig, felly mae'n rhaid gwella ar hyn.

Mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod pobl yn cael diagnosis o ganser yn brydlon ac mewn modd sensitif ar y cyfan, a bod y mwyafrif helaeth yn mynd i weld eu meddyg teulu ynglŷn â'u symptomau neu bryderon cychwynnol. Fodd bynnag, mae'r canlyniadau'n dangos bod angen gwneud rhagor o waith, gan fod mwy nag un o bob

pump o gleifion (21%) yn teimlo nad oedd y meddyg teulu wedi cymryd eu symptomau cychwynnol “yn llwyr” o ddifrif. Mae sylwadau cleifion yn dangos y pryder y mae hyn yn gallu ei achosi a'r effaith niweidiol y mae'n gallu ei chael ar ganlyniadau iechyd. Mae'r canlyniadau hyn yn dangos yn glir bod angen i weithwyr proffesiynol yn y sector gofal sylfaenol gael y gefnogaeth angenrheidiol i adnabod arwyddion cynnar a symptomau cancer, er mwyn sicrhau diagnosis cynharach a gwell canlyniad a phrofiad cyffredinol.

Mae gwybodaeth yn allweddol er mwyn gwella profiad cleifion. Er bod yr opsiynau o ran triniaeth yn cael eu hesbonio'n dda, mae'r arolwg yn amlygu bod angen gwneud rhagor o waith i ddarparu gwybodaeth ysgrifenedig i bob claf ynghylch eu math penodol o ganser, mewn fformat sy'n hawdd ei ddeall. Yn aml, bydd unigolion yn gorfod wynebu costau uwch a lleihad yn eu hincwm o ganlyniad i'w diagnosis o ganser, ac nid yw llawer ohonynt yn ymwybodol o'r budd-daliadau y mae ganddynt hawl iddynt. I gydnabod hyn, mae angen i ni sicrhau bod yr ymrwymiad yn y Cynllun Cyflawni Cancer i sicrhau mynediad at gyngor ar fudd-daliadau lles yn cael ei wireddu. O blith y cleifion hynny a nododd y byddai gwybodaeth am gymorth ariannol neu'r budd-daliadau yn fuddiol iddynt, dywedodd dros hanner ohonynt nad oeddent wedi derbyn digon o wybodaeth o'r fath.

Yn ôl yr atebion, mae profiadau pobl yn amrywio yn ôl y math o ganser sydd ganddynt. Mae'r Cynllun Cyflawni Cancer yn cadarnhau ei bod yn hollbwysig mynd i'r afael ag amrywiadau er mwyn gwella ansawdd gwasanaethau¹. O ystyried bod yr arolwg blaenorol yn dangos mai cleifion â chanser yr ysgyfaint oedd yn teimlo'r lleiaf cadarnhaol ynglŷn â'u gofal, mae'n galonogol gallu dweud nad dyna'r sefyllfa yn 2016: mae cleifion sydd â chanser yr ysgyfaint nawr yr un mor debygol o sôn am brofiadau cadarnhaol â chleifion sydd â chanserau o'r grwpiau tiwmor eraill. Fodd bynnag, mae profiadau pobl yn dal i amrywio yn ôl y math o ganser sydd ganddynt. Roedd profiad y rhai oedd â chanser y fron, cancer y pen a'r gwddf, cancer y prostad a chanser y croen yn fwy cadarnhaol ar gyfartaledd na phrofiad y rhai oedd â chanserau mwy prin megis sarcoma, cancer wrolegol neu ganser yr ymennydd. Mae'r canlyniadau'n dangos bod pobl sydd ag anghenion iechyd hirdymor eraill neu gyflyrau iechyd meddwl hefyd yn parhau i weld amrywiadau o ran eu profiadau o ofal.

Mae canlyniadau'r arolwg yn cadarnhau bod rhaid i ni barhau i wella'r integreiddio rhwng gwasanaethau y tu hwnt i'r ysbyty. Dim ond dwy ran o dair o'r bobl oedd yn teimlo eu bod wedi cael digon o ofal a chymorth gan wasanaethau iechyd neu wasanaethau cymdeithasol ar ôl gadael yr ysbyty.

¹ Rhwydwaith Cancer GIG Cymru, *Cynllun Cyflawni Cancer ar gyfer Cymru 2016-2020*, Tachwedd 2016, tud.1

Yn gyffredinol, mae barn y 6,714 o bobl â chanser a gymerodd ran yn yr arolwg yn dangos bod llawer i'w ddathlu ynglŷn â gofal canser yng Nghymru. Fodd bynnag, rhagwelir y bydd un o bob dau o bobl yn cael diagnosis o ganser² ac mae dros 19,000³ o bobl yn cael diagnosis o ganser yng Nghymru bob blwyddyn. Mae angen, felly, i ni wrando ar gleifion. Nhw yw'r arbenigwyr ar eu gofal a sut y gellir ei wella, ac mae angen i ni ganolbwyntio arnyn nhw wrth wneud penderfyniadau, er mwyn cael y canlyniadau gorau posibl. Nid rhywbeth ychwanegol, opsiynol yw gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae'n hollbwysig er mwyn darparu gwasanaethau diogel, effeithiol, o ansawdd uchel. Mae sicrhau bod y claf yn cael Nyrs Glinigol Arbenigol a Gweithiwr Allweddol penodol, hwyluso trafodaethau rheolaidd a chyfannol ynghylch anghenion, a chynnig cynllun gofal ysgrifenedig yn rhai o'r pethau a fydd yn helpu i leihau'r amrywiadau sy'n bodoli yng Nghymru a lleihau'r anghydraddoldebau o ran profiadau cleifion sydd â gwahanol fathau o ganserau.

Credwn fod yr adborth a gawn, yn uniongyrchol gan gleifion ar bob cam o'r llwybr canser, o ymweld â'r meddyg a chael diagnosis i'r gofal a gawsant yn ystod ac ar ôl triniaeth, yn ffordd bwysig i ni ddeall beth sy'n gweithio'n dda, ac y dylid manteisio ar yr adborth i helpu i wella gwasanaethau lle bo angen. Nid yw pobl Cymru'n haeddu dim llai na hynny.

² Ahmad, A, S. Ormiston-Smith, N. a Sasieni, P, D (2015) Trends in the lifetime risk of developing cancer in Great Britain: comparison of risk for those born from 1930 to 1960. British Journal of Cancer. 112, tud 943–947 <http://www.nature.com/bjc/journal/v112/n5/full/bjc2014606a.html>

³ WCISU, Canser yng Nghymru Adroddiad cryno ar fynychder, marwolaethau a goroesi canser yn y boblogaeth, Chwefror 2015 (<http://www.wcisuwales.nhs.uk/sitesplus/documents/1111/WCISU%20Official%20Stats%20Report%20Final%20English.pdf>)

Adran dau:

Crynodeb gweithredol



Rhagymadrodd

Canlyniadau ail Arolwg Profiad Cleifion Cancer Cymru (APCCC) a gyflwynir yma. Cynhaliwyd yr arolwg gan Picker yn 2016 ar ran y Grŵp Gweithredu Cancer GIG Cymru a Chymorth Cancer Macmillan.

Bwriad yr arolwg hwn oedd mesur a deall profiad cleifion o ofal a thriniaeth cancer yng Nghymru er mwyn cynorthwyo i hybu gwelliant yn genedlaethol a lleol. Bydd canfyddiadau'r adroddiad cenedlaethol hwn, a'r adroddiadau byrddau iechyd lleol ac ymddiriedolaeth GIG a gyhoeddir gydag ef, yn cynorthwyo i ddathlu'r hyn sy'n gweithio'n dda a hybu gwelliannau parhaus mewn gofal cancer ledled Cymru. Gwneir hyn drwy amlygu meysydd pwysig, a fynegwyd gan gleifion ledled Cymru, a'r canfyddiadau sy'n gysylltiedig â hwy.

Canlyniadau allweddol

Gwahoddwyd 11,000 o gleifion cancer i gymryd rhan yn yr arolwg hwn. Ymatebodd dros 6,700 ohonynt, sef cyfradd ymateb o 65%³. Dangosir nifer yr ymatebwyr a atebodd y gwahanol gwestiynau yn Atodiad wyth: Tablau amledd.

Mae'r arolwg hwn wedi amlygu nifer o agweddau cadarnhaol ar ofal cancer yng Nghymru. Mae'r rhain yn cynnwys:

- graddiodd 93% o'r ymatebwyr eu profiad cyffredinol yn saith neu fwy allan o ddeg.
- dywedodd 97% o'r ymatebwyr oedd â dewis o driniaethau fod yr opsiynau o ran triniaeth wedi cael eu hesbonio iddynt.
- graddiodd 90% o'r ymatebwyr weinyddiad cyffredinol eu gofal yn "dda" neu'n "dda iawn".

O'r cleifion a oedd wedi cael llawdriniaeth neu wedi aros dros nos yn yr ysbyty ar gyfer gofal cancer yn y 12 mis diwethaf:

- dywedodd 95% ohonynt eu bod "bob amser" wedi cael digon o breifatrwydd pan oeddent yn cael eu harchwilio neu'n derbyn triniaeth, a
- dywedodd 89% o gleifion mewnol eu bod "bob amser" wedi cael eu trin â pharch ac urddas pan oeddent yn yr ysbyty.

³ I gael manylion llawn y cyfrifiadau ar gyfer y gyfradd ymateb a'r fethodoleg gwblhau gweler Adran pump: Ymatebwyr yr arolwg

Fodd bynnag, mae rhai meysydd lle gellid gwella gofal canser yng Nghymru, megis:

- roedd 48% o'r ymatebwyr wedi cael "cynnig y cyfle i drafod" eu hanghenion a'u pryderon fel rhan o ddatblygiad cynllun gofal.
- dywedodd 18% o'r ymatebwyr eu bod wedi cael "cynnig cynllun gofal ysgrifenedig".
- dywedodd 44% o'r ymatebwyr fod staff ysbyty wedi trafod "yn llwyr" gyda hwy neu wedi rhoi gwybodaeth iddynt am yr effaith y gallai canser ei chael ar eu gweithgareddau o ddydd i ddydd.
- dywedodd 52% o'r ymatebwyr a oedd eisiau gwybodaeth am y cymorth ariannol a'r budd-daliadau y gallent fod â hawl iddynt y byddent wedi hoffi cael rhywfaint o wybodaeth neu fwy o wybodaeth.
- teimlai 57% o'r ymatebwyr eu bod "yn bendant" wedi cael digon o ofal a chymorth gan eu meddyg teulu ar ôl gadael yr ysbyty os oeddent angen hynny.

Ar y cyfan, dywedodd cleifion eu bod wedi cael profiad cadarnhaol o ofal canser yng Nghymru. Defnyddiodd yr ymatebwyr y cyfle i ganmol staff gan awgrymu eu bod wedi cael gofal a thriniaeth o safon uchel iawn, yn arbennig mewn ysbytai. Fodd bynnag, mae canlyniadau'r arolwg hwn yn awgrymu bod lle i wella, yn arbennig o ran cefnogaeth gartref a datblygiad a darpariaeth cynlluniau gofal.

Dadansoddiad grŵp tiwmor

Roedd lefel yr amrywiad ym mhrofiadau cleifion oedd â gwahanol grwpiau tiwmor yn amrywio'n sylweddol rhwng cwestiynau. Ar gyfer rhai eitemau, roedd y gwahaniaethau'n fach iawn: er enghraifft, dywedodd rhwng 92% a 97% o gleifion sydd â chanserau o bob grŵp tiwmor eu bod "bob amser" wedi cael digon o breifatrwydd pan fyddent yn cael eu harchwilio neu eu trin yn yr ysbyty. Mewn achosion eraill, roedd y profiadau a adroddwyd gan gleifion gyda grwpiau tiwmor gwahanol yn amrywio'n fawr. Er enghraifft, dywedodd 73% o gleifion oedd â chanser yr ysgyfaint y cawsant wybod am gefnogaeth wirfoddol neu elusennol, o gymharu â dim ond 27% o gleifion oedd â chanserau wrolegol.

Lle roedd y gwahaniaethau'n amlwg, cleifion oedd â chanser y fron, y pen a'r gwddf, y prostad a chanser y croen oedd yn nodweddiadol yn sôn am brofiadau gofal a chefnogaeth mwyaf ffafriol. Mae lle i wella ym mhrofiadau cleifion sydd â chanserau mwy prin, er enghraifft canserau sarcoma ac wrolegol, gan fod y cleifion hyn yn sôn am brofiadau is na'r cyfartaledd ar gyfer y mwyafrif o eitemau ar hyd y llwybr gofal. Roedd cleifion â chanserau'r gwaed hefyd yn sôn am brofiadau gwaeth mewn rhai meysydd. Er enghraifft, roeddent yn sylweddol llai tebygol na'r rhan fwyaf o grwpiau eraill i ddweud eu bod yn deall "yn llwyr" yr esboniad a roddwyd iddynt ynglŷn â'r hyn oedd o'i le pan gafodd eu canser ei ddiagnosisio: dywedwyd hyn gan 56% o'r cleifion oedd â chanserau'r gwaed, o gymharu â rhwng 69% ac 82% yn yr holl grwpiau eraill.

Roedd cleifion sydd â chanser yr ysgyfaint yr un mor debygol o sôn am brofiadau cadarnhaol ag yr oedd cleifion sydd â chanserau o grwpiau tiwmor eraill: mae hyn mewn cyferbyniad â chanfyddiadau arolwg 2013 a ddangosodd fod cleifion oedd â chanser yr ysgyfaint ymhlith y rhai oedd yn lleiaf tebygol o sôn am brofiadau da o ofal.

Effaith darpariaeth Nyrsys Clinigol Arbenigol (NGA)

Ar y cyfan, dywedodd 81% o'r ymatebwyr bod eu gofal wedi cynnwys mynediad at Nyrs Glinigol Arbenigol (NGA). Yn y rhan fwyaf o achosion – 69% o'r holl gleifion, neu 84% o'r rheiny oedd â mynediad at NGA – yr NGA oedd Gweithiwr Allweddol y claf.

Ar hyd y llwybr gofal cyfan, soniodd y cleifion oedd â mynediad at NGA eu bod wedi cael profiad arwyddocaol well. Roedd hyn yn wir ar gyfer 73 allan o 74 cwestiwn, hyd yn oed mewn meysydd gofal lle na fyddai disgwyl i'r NGA yn draddodiadol fod wedi chwarae rhan: er enghraifft, yn y cam diagnostig cynnar iawn neu mewn gofal cymunedol. Gallai hyn awgrymu y gall darpariaeth NGA wella canfyddiad claf o'i ofal cyffredinol, neu ei bod hi'n fwy tebygol bod NGA ar gael mewn meysydd lle mae safon gofal yn gyffredinol uchel.

Roedd hi'n ymddangos bod mynediad at NGA yn arbennig o bwysig wrth ddarparu cefnogaeth a gwybodaeth ar gyfer pobl â chanser: o blith y cleifion oedd â mynediad at NGA, derbyniodd 67% ohonynt wybodaeth am gefnogaeth wirfoddol neu elusennol o gymharu â dim ond 29% o'r rheiny oedd heb NGA, a gwnaeth 52% drafod "yn llwyr" effaith bosibl canser ar eu gweithgareddau o ddydd i ddydd o gymharu â 23% o'r lleill.

Effaith darpariaeth Gweithiwr Allweddol

Dywedodd 86% o'r ymatebwyr eu bod wedi cael enw a manylion cyswllt eu Gweithiwr Allweddol. Fel y nodir uchod, NGA fyddai'r person hwn gan amlaf. Fel gyda mynediad at NGA, dywedodd y cleifion oedd wedi cael enw a manylion cyswllt eu Gweithiwr Allweddol eu bod wedi cael profiad gofal arwyddocaol fwy ffafriol na'r rheiny na chafodd fynediad at un - unwaith eto, roedd hyn yn wir ar draws y llwybr gofal, yn cynnwys mewn meysydd gofal a chefnogaeth lle nad oedd Gweithiwr Allweddol yn chwarae rhan uniongyrchol. Fel gyda darpariaeth NGA, mae hyn yn awgrymu y cysylltir cael enw a manylion cyswllt Gweithiwr Allweddol â phrofiadau mwy cadarnhaol o ofal; efallai bod hyn oherwydd bod darpariaeth Gweithiwr Allweddol yn cynorthwyo i wella canfyddiad pobl o'u gofal canser, neu oherwydd bod Gweithwyr Allweddol yn fwy tebygol o fod ar gael pan fo gofal o safon uchel ac wedi'i drefnu'n dda.

Cynnig cynllun gofal ysgrifenedig

Yn yr un modd, dywedodd cleifion oedd wedi cael y "cyfle i drafod eu hanghenion a'u pryderon personol, er mwyn llunio cynllun gofal", eu bod wedi cael profiad

arwyddocaol well na'r rheiny na chafodd y cyfle hwn. Unwaith eto, roedd gwahaniaethau yn amlwg ar draws y llwybr gofal, er bod y gwahaniaethau mwyaf i'w gweld mewn cwestiynau oedd yn ymwneud â derbyn gwybodaeth a chefnogaeth, yn cynnwys cefnogaeth gartref.

Roedd cleifion a gafodd gynnig cynllun gofal ysgrifenedig hefyd yn fwy cadarnhaol ynglŷn â'u profiadau o gymharu â'r rheiny na chafodd gynnig cynllun o'r fath, ond nid oeddent yn arwyddocaol fwy cadarnhaol na'r rheiny oedd wedi cael y cyfle i drafod eu hanghenion a'u pryderon personol. Mae hyn yn dangos mai'r cyfle i drafod cynllun gofal yw'r ffactor hollbwysig mewn creu profiad mwy cadarnhaol, yn hytrach nag a yw wedi cael ei ysgrifennu'n ffurfiol ai peidio. Fodd bynnag, dim ond 48% o'r ymatebwyr gafodd y cyfle i drafod eu hanghenion a'u pryderon er mwyn llunio cynllun gofal, felly mae hwn yn faes sydd angen ei wella.

Canlyniadau gan gleifion a lenwodd eu harolwg yn Gymraeg

Rhoddwyd y cyfle i'r ymatebwyr lenwi'r arolwg naill ai yn Saesneg neu'n Gymraeg, a dewisodd 2% ohonynt lenwi'r fersiwn Gymraeg. Roedd yr ymatebwyr a oedd yn llenwi'r arolwg yn Gymraeg yn arwyddocaol fwy tebygol i fod yn 60 oed neu'n hŷn o gymharu â'r rheiny a oedd yn llenwi'r arolwg yn Saesneg (88% o gymharu â 77%) ac roeddent yn arwyddocaol fwy tebygol o ddweud nad oedd ganddynt unrhyw gyflyrau hir sefydlog (71% o gymharu â 60%). Mae'r nifer fechan o bobl (126) a ymatebodd yn Gymraeg, ynghyd â'r amrywiad yn nodweddion demograffig y grŵp hwn, yn golygu y dylid bod yn ofalus wrth ddehongli cymariaethau pellach o brofiadau'r grwpiau hyn - mae nodweddion cefndir eraill yn debygol o ddylanwadu ar y gwahaniaethau a welwyd. Fodd bynnag, roedd ymatebwyr a wnaeth ateb fersiwn Gymraeg yr holiadur ar y cyfan yn fwy cadarnhaol, lle gwelwyd gwahaniaethau arwyddocaol. Un eithriad yw eu bod yn arwyddocaol llai tebygol o ddweud eu bod wedi derbyn y wybodaeth oedd ei hangen arnynt am eu gofal "yn llwyr" yn eu dewis iaith - 44% o gymharu â 97% ar gyfer cleifion a lenwodd yr holiadur yn Saesneg. Er gwaethaf hyn, roeddent yn gyson fwy tebygol o ddweud eu bod wedi derbyn gwybodaeth ysgrifenedig a'i bod yn hawdd ei deall. Mae hyn yn awgrymu na wnaeth diffyg gwybodaeth yn newis iaith y cleifion hyn o angenrheidrwydd leihau eu dealltwriaeth o'r wybodaeth a roddwyd iddynt.

Canlyniadau gan y rheiny a lenwodd eu harolwg ar-lein

Gwahoddwyd yr ymatebwyr i gyfranogi yn yr arolwg drwy lythyr a holiadur a bostiwyd i'w cyfeiriad cartref. Roedd hyn yn cynnwys cyfarwyddiadau ar sut i lenwi'r arolwg ar-lein pe bai'n well gan unigolion wneud hynny, a dewisodd 3% o'r ymatebwyr lenwi'r holiadur yn y modd hwn. Roedd ymatebwyr ar-lein yn arwyddocaol fwy tebygol o fod yn ddynion (59% o gymharu â 48%); dan 60 oed (35% o gymharu â 22%); ac mewn cyflogaeth lawn-amser (20% o gymharu â 14%). Fel y nodir uchod, mae nifer fechan yr ymatebwyr ar-lein (200) a'r gwahaniaethau demograffig rhwng grwpiau yn golygu bod angen bod yn ofalus wrth ddehongli unrhyw gymariaethau pellach. Ychydig bach

o wahaniaethau arwyddocaol a welwyd, ond roedd ymatebwyr ar-lein yn teimlo bod gwybodaeth ysgrifenedig yn haws ei deall ac roeddent yn llai tebygol o deimlo eu bod wedi'u cynnwys cymaint ag y dymunent mewn penderfyniadau am eu gofal a'u triniaeth. Gellid dehongli hyn fel awgrymu bod galw mwy am gael eu cynnwys o fewn y grŵp hwn, ond efallai bod nodweddion demograffig ac economaidd gymdeithasol yn ddylanwadau pwysig. Mae angen rhagor o ymchwil er mwyn archwilio hyn ymhellach.

Sylwadau ysgrifenedig gan ymatebwyr

Roedd pob holiadur yn cynnwys gofod i'r ymatebwyr ysgrifennu sylwadau ychwanegol yn eu geiriau eu hunain o dan dri chwestiwn: "A oedd unrhyw beth yn arbennig o dda am eich gofal?", "A oedd unrhyw beth y gellid ei wella?" ac "Unrhyw sylwadau eraill?". Mae'r sylwadau testun rhydd hyn yn rhoi golwg bellach, ac weithiau dyfnach, i ni ar brofiadau personol cleifion o ofal.

Roedd gadael sylwadau yn ddewisol. Roedd ymatebwyr a ddewisodd ysgrifennu sylwadau ychwanegol yn dueddol o fod yn hŷn na'r cyfartaledd, gyda mwy na hanner y sylwadau (51%) gan bobl dros 70 oed. Gwnaed ychydig mwy o sylwadau gan fenywod na dynion. Mae hyn yn debyg i broffil cyffredinol ymatebwyr yr arolwg.

Roedd mwyafrif y sylwadau a dderbyniwyd (61%) yn gadarnhaol. Ar y cyfan roedd sylwadau cadarnhaol yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal a'r driniaeth a ddarparwyd gan staff, yn benodol eu dull tosturiol, eu proffesiynoldeb a'u hymrwymiad, a hynny weithiau mewn amgylchiadau a oedd yn cael eu cydnabod fel rhai heriol oherwydd pwysau llwyth gwaith. Cydnabuwyd trefniant gwasanaethau, yn arbennig cyflymder ac effeithlonrwydd gwneud diagnosis a dechrau triniaeth. Dywedodd y cleifion weithiau eu bod yn teimlo bod gofal gan wahanol wasanaethau wedi'i gydgyssylltu'n dda. Pan mai felly yr oedd hi, roedd hyn yn rhoi hyder y byddai canlyniadau'r gofal mor dda â phosibl. Roedd nifer fawr o'r sylwadau cadarnhaol hefyd yn cyfeirio at agweddau penodol ar y driniaeth, neu'n mynegi diolch a gwerthfawrogiad am y gofal roeddent wedi'i dderbyn.

Roedd tua dau o bob pum sylw (38%) yn negyddol ac yn tynnu sylw at broblemau o ran gofal neu gefnogaeth. Roedd themâu yn y sylwadau negyddol yn cynnwys anawsterau i gael mynediad at ofal sylfaenol pan ddaeth ymatebwyr yn ymwybodol gyntaf o arwyddion a symptomau oherwydd amseroedd aros hir a systemau apwyntiadau anhyblyg. Gwnaethant hefyd gyfeirio at brofiadau o staff mewn gofal sylfaenol ddim yn cymryd eu symptomau ddigon o ddifrif: mewn rhai achosion dywedodd cleifion eu bod yn teimlo bod hyn wedi arwain at oedi mewn diagnosis a thriniaeth. Thema gysylltiedig oedd yr amser y mae weithiau'n ei gymryd i gael atgyfeiriad at wasanaethau arbenigol. Achosodd yr oedi hyn bryder a straen. Thema negyddol arall oedd darpariaeth gwybodaeth. Soniwyd yn fwyaf aml am wybodaeth am y clefyd ei hun, triniaeth a phrognosis. Argaeledd ac ansawdd gwybodaeth oedd yn peri'r pryder mwyaf. Roedd rhai am gael gwell gwybodaeth ynglŷn â beth i'w

ddisgwyl wedi'r driniaeth, yn arbennig beth sy'n "arferol" a beth fyddai'n rheswm i bryderu yn ei gylch a cheisio gofal pellach. Roedd pedwerydd pwnc mwyaf cyffredin y sylwadau yn ymwneud â chefnogaeth a ddarparwyd gartref. Roedd hyn yn cynnwys cefnogaeth gorfforol ac emosiynol.

Trosolwg o'r canlyniadau

Mae'r canlyniadau yn ffordd ddefnyddiol o ddangos sut mae gofal cancer yng Nghymru yn cyfateb i'r dyheadau a nodir yn y Cynllun Cyflawni Cancer 2016/20 newydd. Mae'r Cynllun yn nodi nifer o feysydd i ganolbwyntio arnynt ar gyfer atal cancer; darganfod cancer yn gynt; darparu triniaeth a gofal cyflym ac effeithiol; diwallu anghenion pobl sydd â chanser; gwelliant mewn gwybodaeth cancer; gofalu am bobl sydd â chanser ar ddiwedd oes; a thargedu ymchwil i ganser. Mae'n pwysleisio'r angen am ofal wedi'i ganoli ar yr unigolyn a chreu perthynas fwy cyfartal rhwng cleifion a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol.


Dengys y canlyniadau, er bod mwyafrif y cleifion yn teimlo bod y pontio rhwng gofal sylfaenol ac eilaidd yn dda, ei bod hi'n werth nodi y cafodd y gofal a ddarparwyd gan feddygon teulu wedi i bobl adael yr ysbyty ei amlygu fel maes posibl ar gyfer ei wella. Caiff effeithlonrwydd symud o ddiagnosis i driniaeth ei ganmol yn y canlyniadau meintiol ac yn y sylwadau ysgrifenedig a ddarparwyd gan gleifion. Mae cleifion yn sôn am berthynas gref â gweithwyr gofal iechyd proffesiynol, yn benodol Nyrsys Clinigol Arbenigol a Gweithwyr Allweddol, sy'n dangos ymrwymiad i ofal wedi'i ganoli ar yr unigolyn.

Mae canlyniadau'r arolwg hefyd yn amlygu rhai meysydd y gellir o bosibl eu gwella pan edrychir arnynt yng nghyd-destun y Cynllun Cyflawni Cancer. Mae'r defnydd o gynllun gofal yn amlwg yn bwysig iawn mewn hwyluso gofal wedi'i ganoli ar yr unigolyn, ond dywed mwyafrif y cleifion na chawsant gynnig cynllun gofal ysgrifenedig. Mae hi hefyd yn glir bod rhai anghysonderau yn narpariaeth y gofal, gyda'r rheiny oedd â chanser sarcoma, wrolegol a chanser yr ymennydd yn sôn am brofiadau gofal mwy negyddol.

Yn olaf, mae'r canlyniadau hefyd yn amlygu pwysigrwydd gwybodaeth, yn arbennig ar ffurf ysgrifenedig, drwy gydol siwrnai'r claf. Dengys y canlyniadau bod darpariaeth gwybodaeth ysgrifenedig hygyrch a phriodol yn faes allweddol ar gyfer gwelliant wedi'i dargedu ledled Cymru.

Cymryd rhan


Cynllun gofal



Dywedodd **48%** eu bod wedi cael cynnig y cyfle i drafod eu hanghenion a'u pryderon er mwyn llunio cynllun gofal.




Dywedodd **82%** nad oeddent wedi cael cynnig cynllun gofal ysgrifenedig.



Dywedodd **78%** eu bod yn bendant wedi cael cymaint o ran ag y dymunent mewn penderfyniadau am eu gofal a thriniaeth.

Graddio gofal

Dywedodd **93%** y byddent yn graddio eu gofal yn 7 allan o 10 neu well.



Cydlynu


Dywedodd **71%** fod gwahanol weithwyr iechyd proffesiynol wedi gweithio'n dda gyda'i gilydd i roi y gofal gorau posibl iddynt.

Set o symptomau



Dywedodd **81%** eu bod yn teimlo iddynt gael eu trin fel person yn hytrach na "set o symptomau cancer".

Meddygon a nyrsys



Roedd gan **81%** hyder/ymddiriedaeth yn yr holl nyrsys ward a oedd yn eu trin.

Roedd gan **89%** hyder/ymddiriedaeth yn yr holl feddygon a oedd yn eu trin.


Gweithwyr allweddol

Dywedodd **86%** eu bod wedi cael enw a manylion cyswllt eu gweithiwr allweddol.




Dywedodd **87%** fod eu gweithiwr allweddol wedi eu helpu i gael atebion i gwestiynau pwysig trwy gydol yr amser neu'r rhan fwyaf o'r amser.

Nyrs Glinigol Arbenigol (NGA)



Dywedodd **81%** fod eu gofal wedi cynnwys mynediad at NGA.



Dywedodd **80%** fod eu NGA wedi darparu gwybodaeth er mwyn gwneud penderfyniadau gwybodus am driniaeth a gofal.

Lleoliad cymunedol



Dywedodd **59%** wedi gadael yr ysbyty, eu bod wedi cael digon o ofal a chymorth gan wasanaethau iechyd neu gymdeithasol.

Dywedodd **56%** eu bod wedi cael digon o ofal gan eu meddyg teulu a'r gymhorthfa meddyg teulu.

Diagnosis

Dywedodd **55%** y gwelsant feddyg teulu neu feddyg arall o fewn tri mis o feddwl yn gyntaf y gallai rhywbeth fod o'i le.

Dywedodd **26%** nad oeddent yn ymwybodol y gallai rhywbeth fod o'i le.



O flaen llaw dywedodd **90%** fod staff wedi esbonio'n llwyr beth fyddai'n cael ei wneud yn ystod y prawf/profion.

Dywedodd **82%** fod canlyniadau'r prawf wedi cael eu hesbonio iddynt mewn ffordd y gallent ddeall.

Sgîl-ffeithiau

Cyn iddynt ddechrau eu triniaeth, dywedodd **56%** eu bod wedi cael eu hysbysu am unrhyw sgîl-ffeithiau a allai eu heffeithio yn y dyfodol yn hytrach nag yn syth.

Urddas a pharch

Dywedodd **89%** eu bod wedi cael eu trin ag urddas a pharch tra roeddent yn yr ysbyty.




Wedi triniaeth

Dywedodd **92%** fod staff yr ysbyty wedi dweud wrthynt â phwy i gysylltu pe byddent yn bryderus am eu cyflwr neu driniaeth wedi iddynt adael yr ysbyty.



Gofal yn y cartref

Dywedodd **61%** y rhoddodd meddygon a nyrsys yr holl wybodaeth yr oedd ei hangen arnynt i'w teulu neu rywun agos atynt i'w helpu i ofalu amdanynt gartref.



Cyfathrebu

Dywedodd **84%** eu bod wedi cael eu hysbysu'n sensitif am ganser.


Dywedodd **77%** eu bod yn deall yr esboniad am yr hyn oedd o'i le arnynt.




Rheoli poen

Dywedodd **87%** y gwnaeth staff yr ysbyty bopeth a allent i helpu i reoli eu poen.

Dywedodd **86%** y gwnaeth staff yr ysbyty bopeth a allent i helpu i reoli'r poen tra roeddent yn derbyn triniaeth fel claf allanol/dydd.



Cymorth ariannol



Dywedodd **48%** fod staff yr ysbyty wedi rhoi gwybodaeth am sut i gael cymorth ariannol neu unrhyw fudd-daliadau y gallent fod â hawl iddynt.

Adran tri:

Cyflwyniad



Cefndir Arolygon Profiad Cleifion Cancer Cymru

Ym mis Tachwedd 2016 diweddarodd Llywodraeth Cymru y ddogfen Law yn Llaw at Iechyd - Cynllun Cyflawni Cancer, gan adlewyrchu'r cynnydd a wnaed a hefyd ymrwymiad parhaus Llywodraeth Cymru i ddarparu'r "gofal a'r cymorth gorau posibl i bawb y mae cancer yn effeithio arnynt". Mae'n nodi gweledigaeth y Llywodraeth ar gyfer gwasanaethau a chanlyniadau i gleifion a fydd yn cyfateb i'r gorau yn Ewrop ac yn pwysleisio ymrwymiad i ddarparu'r gofal o'r safon uchaf i bawb sydd â chanser.

Amlinellodd y cynllun strategaeth ar gyfer hybu gwelliant mewn gwasanaethau cancer ledled Cymru. Un o ganlyniadau hollbwysig y cynllun hwn oedd addewid i roi "pobl wrth galon gofal cancer" ac yng Nghynllun Cyflawni ar gyfer Cancer 2012 rhoddwyd ymrwymiad i ddatblygu a chynnal rhaglen arolwg profiad cleifion cenedlaethol. Lansiwyd yr arolwg cyntaf o'r math hwn yng Nghymru yn 2013.

Casgliadau allweddol arolwg 2013

Ymatebodd 7,352 o gleifion i'r Arolwg Profiad Cleifion Cancer Cymru cyntaf, sef cyfradd ymateb o 69%. Ar y cyfan, dangosodd y canfyddiadau fod gan gleifion ledled Cymru barch at wasanaethau cancer.

Canfu'r adroddiad cenedlaethol a gyhoeddwyd yn 2014 y canlynol:

- Roedd cleifion gyda mathau mwy prin o ganser yn llai tebygol o ymateb yn gadarnhaol na'r rheiny oedd â chanserau mwy cyffredin. Adroddwyd ar y profiadau lleiaf cadarnhaol gan grwpiau tiwmor yr ysgyfaint, wrolegol a sarcoma.
- Roedd amrywiaeth sylweddol yn narpariaeth Gweithwyr Allweddol a Nyrsys Clinigol Arbenigol ledled Cymru. Cysylltwyd darpariaeth yr adnoddau hyn yn gryf â gwell canfyddiadau ac adrodd am ofal o ansawdd.
- Cafodd darpariaeth NGA effaith benodol ar y grŵp dros 75 oed.
- Adroddwyd am brofiad cleifion gwaeth ynghylch gwybodaeth am gyflwr, triniaeth a gofal.
- Drwy Gymru gyfan dim ond lleiafrif (un o bob pump) o gleifion oedd yn cael cynnig cynlluniau gofal ysgrifenedig.
- Soniodd rhai cleifion am ofal yn dirywio yn ystod y pontio rhwng yr ysbyty a gwasanaethau iechyd lleol/gwasanaethau cymdeithasol.

I weld canlyniadau llawn a dadansoddiad o arolwg 2013, ewch i:

<http://gov.wales/topics/health/publications/health/reports/report13/?skip=1&lang=en>

<http://gov.wales/topics/health/publications/health/reports/report13/?skip=1&lang=cy>

Newidiadau ar gyfer arolwg 2016

Cyn cynnal ail Arolwg Profiad Clefion Canser Cymru adolygwyd methodoleg yr arolwg cyntaf a gofynnwyd am adborth gan ystod eang o randdeiliaid, yn cynnwys trwy weithdy ymgysylltu â'r GIG. Yn dilyn y broses hon gwnaed nifer o newidiadau i'r fethodoleg.

Y newid cyntaf oedd sut y priodolir clefion i fwrdd/ymddiriedolaeth iechyd pan adroddir y canlyniadau. Wedi ystyried yn ofalus fanteision ac anfanteision y dulliau oedd ar gael cymeradwywyd adroddiadau seiliedig ar breswyliaeth gan y Grŵp Llywio a oedd yn goruchwyllo'r rhaglen. Yn hytrach na chael eu priodoli ar sail rhyddhau - dull adrodd a olygodd fod gan nifer o fyrddau adroddiadau mewn rhai achosion yn seiliedig ar ychydig iawn o ymatebion – penderfynwyd y byddai canlyniadau clefion yn cael eu priodoli i'r Bwrdd Iechyd lle roeddent yn byw.

Am y tro cyntaf, roedd hi hefyd yn bosibl llenwi'r arolwg ar-lein, drwy ddefnyddio rhif adnabod unigryw oedd i'w weld ar glawr yr holiadur. Roedd yr arolwg ar-lein yn debyg o ran 'golwg a theimlad' i'r fersiwn papur ac, fel y fersiwn papur, gellid ei lenwi yn Gymraeg neu Saesneg.

Er bod yr holiadur ei hun wedi'i seilio ar arolwg 2013, gwnaed diwygiadau sylweddol gyda'r bwriad o wneud y data a gynhyrchir ganddo yn fwy defnyddiol i staff a gwneuthurwyr polisi byrddau/ymddiriedolaeth iechyd. Cafodd cwestiynau eu cynnwys neu eu hepgor ar sail yr adborth gan y GIG, sefydliadau trydydd sector a chleifion. Profwyd y newidiadau gyda chyfranogwyr ledled Cymru, yn Gymraeg a Saesneg, er mwyn sicrhau dilysrwydd.

Ar ôl adolygu'r fethodoleg penderfynwyd, er mwyn gwneud cymariaethau rhwng byrddau iechyd mor deg â phosibl, y byddai'r data'n cael eu safoni. Mae safoni'r data yn sicrhau, pan fo byrddau iechyd yn cael eu cymharu, nad yw cyfraneddau rhai mathau o glefion yn y Byrddau Iechyd hyn yn cael gormod o ddylanwad ar y gymhariaeth. Ymdrinnir â hyn mewn rhagor o fanylder yn yr adran ganlynol.

Adran pedwar:

Trosolwg o'r arolwg



Methodoleg yr arolwg

Proses sampl

Cyfranogodd pob un o'r saith bwrdd iechyd ac un ymddiriedolaeth GIG yn yr arolwg, gan gwmpasu gofal canser aciwt ac arbenigol ledled Cymru. Darparodd pob canolfan restrau llawn o'r holl gleifion cymwys oedd wedi cael eu derbyn fel cleifion mewnol neu achosion dydd. Diffiniwyd cleifion cymwys fel oedolion (16 oed neu drosodd ar adeg rhyddhau) oedd â diagnosis sylfaenol o ganser wedi'i gadarnhau, gyda chod Dosbarthiad Clefydau Rhyngwladol (ICD-10) o C00-99 (ac eithrio C44 a 84) neu D05.

Cyfunwyd y rhestrau, a ddilyswyd gan staff Picker, i greu sampl cenedlaethol, a ddad-ddyblygwyd er mwyn sicrhau mai dim ond y cofnod claf diweddaraf oedd yn weddill. Yn dilyn y broses hon cymerwyd yr 11,000 cofnod mwyaf diweddar, a oedd yn cynnwys cleifion a ryddhawyd rhwng mis Mehefin a mis Rhagfyr 2015.

Dosbarthu'r holiadur

Anogwyd cyfranogiad gan ddefnyddio dull postio deirgwaith. Gallai ymatebwyr naill ai ddychwelyd yr holiadur papur (Rhadbost), ateb dros y ffôn ar y llinell gymorth Rhadffôn neu lenwi'r arolwg ar-lein gan ddefnyddio cod mewngofnodi unigryw.

Argraffwyd holl ddeunyddiau'r arolwg yn Gymraeg a Saesneg. I ddechrau anfonwyd pecyn arolwg llawn at y cleifion, a oedd yn cynnwys holiadur, llythyr eglurhaol yn eu gwahodd i gymryd rhan, dalen aml iaith (yn cynnig cymorth gyda'r arolwg ar gyfer y rheiny a oedd yn teimlo'n fwy cyfforddus yn ymateb mewn iaith arall) ac amlen Rhadbost er mwyn dychwelyd yr holiaduron. Anfonwyd hyd at ddau nodyn atgoffa at rai nad oedd yn ymateb; y cyntaf yn llythyr atgoffa a'r ail yn becyn arolwg llawn.

Priodoli ymatebwyr i fwrdd/ymddiriedolaeth iechyd

Yn 2013, cynhyrchwyd sgoriau bwrdd /ymddiriedolaeth iechyd unigol drwy briodoli cleifion i'r bwrdd/ymddiriedolaeth iechyd yr oeddent wedi ei fynychu ddiwethaf. Mewn ymateb i adborth a'r hyn a ddysgwyd ganddo, ar gyfer 2016 cafodd cleifion eu priodoli i'r bwrdd iechyd lle maent yn byw waeth lle y cawsant eu trin (yn cynnwys cleifion a fynychodd Ymddiriedolaeth GIG Felindre am ran o'u gofal neu eu holl ofal). Cymeradwywyd y dull hwn gan y grŵp llywio a oedd yn goruchwylio'r rhaglen. Yr unig eithriad i hyn yw Ymddiriedolaeth GIG Felindre, canolfan ganser a gwaed arbenigol, lle nad oes cleifion yn byw. Mae'r adrodd ar gyfer yr ymddiriedolaeth hon wedi'i seilio ar gleifion a ryddhawyd oddi yno yn fwyaf diweddar - fel ag y gwnaed yn arolwg 2013.

Oherwydd hyn, a hefyd y ffaith ei bod yn ganolfan ganser arbenigol o fewn ymddiriedolaeth, caiff ymddiriedolaeth GIG Felindre ei thrin ar wahân yn yr adroddiad hwn. Ni chaiff ei chymharu â'r saith bwrdd iechyd yng Nghymru.

Safoni (data wedi eu haddasu)

Yn draddodiadol, adroddwyd ar arolygon profiad cleifion cancer gan ddefnyddio data heb eu haddasu, neu ddata sydd heb eu safoni. Newidiodd hyn yn 2016 pan gyflwynwyd safoni (addasiad amryfal achosion) ar gyfer Arolwg Profiad Cleifion Cancer Cenedlaethol 2015 yn Lloegr.

Defnyddir dull safoni mewn nifer o arolygon cleifion cenedlaethol pan gymherir darparwyr gofal iechyd. Nid dim ond mewn mesuriadau profiad cleifion sefydledig yn y DU - megis y rhaglen arolwg cleifion cenedlaethol - y bydd hyn yn digwydd ond hefyd ledled y byd gan gynnwys, er enghraifft, yr Hospital Consumer Assessment of Healthcare Providers and Systems (HCAHPS) yn yr Unol Daleithiau. Diben safoni yw gwneud cymhariaeth data yn decach. Wrth addasu ar gyfer ffactorau sydd ddim o fewn rheolaeth y bwrdd iechyd ond a allai gael effaith ar berfformiad canfyddedig y bwrdd hwnnw, megis cefndir demograffig, statws economaidd, neu gyflwr meddygol ymatebydd, mae safoni yn rhoi darlun cywirach o unrhyw wahaniaethau mewn ansawdd ar draws darparwyr.

Yn dilyn dadansoddiad eang, penderfynwyd y byddai data APCCC 2016 yn cael eu haddasu yn ôl oed, ethnigrwydd, amddifadedd a grŵp tiwmor pan gymherir perfformiad byrddau iechyd.

Pan nad yw byrddau iechyd yn cael eu cymharu defnyddir data heb eu haddasu.

Sgôr cyfartaledd bwrdd a sgôr Cymru Gyfan

Mae'r adroddiad hwn yn defnyddio data wedi eu haddasu a data heb eu haddasu. Data wedi eu haddasu yw data sydd wedi eu safoni er mwyn gwneud cymariaethau rhwng byrddau iechyd yn decach, gan ystyried ffactorau demograffig sydd y tu hwnt i reolaeth y bwrdd iechyd. Nid yw data heb eu haddasu wedi cael eu newid o gwbl - mae'n adlewyrchiad union gywir o'r ymatebion a roddwyd gan gleifion ar ôl eu dienwi.

Pan gyflwynir data heb eu haddasu, cyfanswm y sgôr fydd y Sgôr Cymru Gyfan. Cyfanswm sgôr cadarnhaol yr holl gleifion yn y sampl yw hwn. Yn wahanol i sgôr cyfartaledd bwrdd, nid yw'r sgôr hwn yn ystyried y gwahaniaeth yn y niferoedd o bob bwrdd, a chynrychiolir pob claf yn y sampl yn gydradd.

Dim ond pan fydd byrddau iechyd yn cael eu cymharu y defnyddir data wedi eu haddasu yn yr adroddiad hwn. Ym mhob achos arall defnyddir data heb eu haddasu. Pan gymherir byrddau, yma ac yn yr adroddiadau byrddau iechyd unigol, fe'u cymherir yn erbyn y sgôr cyfartaledd bwrdd. Cyfartaledd (cymedr) yw hwn o holl sgoriau unigol y byrddau. Mae cyfrifo'r cyfartaledd yn ôl bwrdd yn atal byrddau mwy rhag cael eu gorgynrychioli pan osodir y safon yr asesir ef a byrddau eraill yn ei erbyn.

Grwpiau tiwmor

Arddangosir data yn yr adroddiad hwn yn ôl math grŵp tiwmor. Mae cod ICD-10 pob claf o'i faes diagnosis sylfaenol wedi cael eu grwpio i un o'r 13 math grŵp tiwmor hwn.

Noder, pan gyfeirir at Wroleg nid yw hyn yn cynnwys grwpiau tiwmor y Prostad, a adroddir ar wahân.

Deall eich canlyniadau

Rydym wedi mabwysiadu rhai arferion yn Picker er budd cywirdeb ac er mwyn cynorthwyo i dynnu sylw at y canlyniadau mwyaf ystyrlon. Yn ogystal â'r polisïau troswaol isod mae pob adran ddadansoddi yn agor gydag esboniad byr ynglŷn â sut i ddehongli'r canlyniadau sydd ynddi.

Sgoriau cadarnhaol

Trwy'r adroddiad hwn i gyd defnyddir sgoriau cadarnhaol fel mesur cryno ac offeryn cymharu. Mae sgôr cadarnhaol yn dangos canran yr ymatebwyr ar gyfer pob cwestiwn sydd wedi rhoi'r ymateb gorau posibl. Felly, mae sgôr cadarnhaol uwch yn golygu gwell perfformiad.

Er mwyn gweld pa ddewisiadau ymateb sydd wedi'u cynnwys mewn cyfrifiadau sgôr cadarnhaol, gweler Atodiad wyth: Tablau amledd.

Cwestiynau wedi'u targedu

Mae rhai cwestiynau'n cynnwys dewisiadau ymateb sy'n caniatáu i ymatebwyr nodi nad yw cwestiwn yn berthnasol iddynt hwy, er enghraifft 'Nid wyf wedi cael unrhyw sgil-ffeithiau', neu 'Nid oedd angen esboniad arnaf'. Er mwyn gwneud y canlyniadau mor hawdd â phosibl i'w dehongli, rydym yn defnyddio cwestiynau deilliedig, sy'n eithrio unrhyw ddewisiadau ymateb lle mae'r ymatebydd wedi nodi nad yw'r cwestiwn yn berthnasol iddynt hwy. Dangosir y cyfrifiad newydd mewn cwestiwn '+' ychwanegol (e.e. C10+).

Dim ymatebion

Er mwyn cael mwy o gywirdeb yn y sgoriau cadarnhaol, caiff pawb sydd ddim yn ymateb i bob cwestiwn eu tynnu o'r cyfrifiad. Mae hyn yn sicrhau bod pob dangosydd perfformiad wedi cael ei ddarparu gan ymatebwyr i'r arolwg yn unig.

Gellir gweld y tablau amledd llawn ar gyfer sampl Cymru Gyfan yn Atodiad wyth. Ar gyfer canlyniadau bwrdd iechyd ac ymddiriedolaeth, gweler yr adroddiadau unigol.

Niferoedd isel o ymatebwyr

Roedd yr holiadur yn cynnwys rhai cwestiynau hidlo er mwyn gwneud yn siŵr mai dim ond cwestiynau perthnasol a ofynnir i ymatebwyr. Er enghraifft, ni ofynnir

cwestiynau dilynol ynglŷn â phrofiadau triniaeth cemotherapi i ymatebwyr sy'n nodi nad ydynt wedi cael cemotherapi. Golyga hyn y bydd llai o bobl yn ateb rhai cwestiynau, a lle bo nifer yr ymatebwyr yn llai na 50 dylid trin y canlyniadau yn ofalus. Pan fo llai nag 20 o ymatebwyr mae'r canlyniadau wedi cael eu cuddio.

Meintiau sylfaen

Fel y disgrifir uchod, nid yw pob ymatebydd yn ateb pob cwestiwn, naill ai oherwydd cyfarwyddyd yr holiadur neu o ddewis. Golyga hyn y bydd gan lawer o gwestiynau nifer gwahanol o ymatebwyr, neu faint sylfaen. Cyfeiriwch at Atodiad wyth i gael manylion am feintiau sylfaen.

Gwahaniaethau arwyddocaol

Trwy'r adroddiad hwn i gyd, rydym wedi nodi cwestiynau lle mae gwahaniaethau arwyddocaol rhwng sgoriau. Yr hyn a olygwn gan wahaniaeth 'arwyddocaol' yw bod y casgliad yn ystadegol ddibynadwy a bod y gwahaniaeth yn 'real' ac nid o ganlyniad i siawns. Y dull cyfrifo a ddefnyddir i brofi arwyddocâd ystadegol yw prawf Z i lefel arwyddocaol o $p < 0.05^4$.

Cyfyngau hyder

Dim ond sampl o gleifion oedd yn rhan o'r arolwg hwn. Gan nad oedd yr arolwg yn cynnwys yr holl gleifion efallai na fydd y canlyniadau yn gwbl gywir. Fodd bynnag, gallwn amcangyfrif lefel yr hyder y dylem ei gael yn y canlyniadau fel y dangosir yn y tabl isod.

<u>Nifer yr ymatebwyr</u>	<u>Cyfwng hyder (+/-)</u>
50	12.0%
100	8.5%
200	6.0%
300	4.9%
400	4.2%
500	3.8%
600	3.5%

Enghraifft: Ar gyfer cwestiwn penodol, ymatebodd 300 o gleifion, ac atebodd 25% ohonynt "ydw". O'r tabl uchod, gallwn weld mai'r cyfwng hyder ar gyfer 300 o ymatebwyr fyddai +/- 4.9%. Byddem felly'n amcangyfrif y gallai'r canlyniad gwirioneddol fod rhwng 20.1% a 29.9%. Fodd bynnag, os dim ond 50 o gleifion

⁴ Ystyr $p=0.05$ yw bod siawns 1 mewn 20 o weld gwahaniaeth o'r maint hwn mewn sampl lle nad oes unrhyw wahaniaeth yn y boblogaeth.

fyddai wedi ymateb, a bod 25% wedi ateb “ydw”, y cyfyngau hyder fyddai +/- 12% felly gallai'r canlyniad gwirioneddol fod rhwng 13% a 37%.

Defnyddio'r adroddiad hwn

Yn yr adroddiad hwn rydym wedi ystyried y llwybr gofal claf nodweddiadol, gan amlygu amrywiad mewn profiad cleifion ar draws Cymru, dangos meysydd o arfer da a lle gellir gwella. Dylid cydnabod yr adroddiad hwn fel trosolwg cryno o ganfyddiad cleifion o wasanaethau cancer yng Nghymru.

Er mwyn cael mewnwelediad i wasanaethau cancer ar lefel leol, darllenwch yr adroddiadau bwrdd/ymddiriedolaeth iechyd unigol.

Gwybodaeth bellach

Mae'r adroddiad Cymru Gyfan hwn, ochr yn ochr â'r adroddiadau byrddau iechyd lleol ac ymddiriedolaeth GIG, yn cyflwyno canlyniadau canfyddiad cleifion o ofal cancer yng Nghymru mewn nifer o ffyrdd er mwyn rhoi dadansoddiad yr ydym ni yn Picker yn teimlo sydd mor ddiddorol ac mor hygyrch â phosibl. Os hoffech ragor o wybodaeth neu gymorth i ddeall eich canlyniadau, cysylltwch â Thîm Adborth Cleifion Picker yn:

PatientFeedbackTeam@PickerEurope.ac.uk

Adran pump:

Ymatebwyr yr arolwg



Dyddiadau gwaith maes

Cynhaliwyd gwaith maes rhwng 27 Gorffennaf 2016 a 26 Hydref 2016, gyda dau lythyr atgoffa yn cael eu hanfon yn ystod y cyfnod hwn.


Gweithgarwch yr arolwg

Y gyfradd ymateb ar gyfer APCCC oedd 65%. Ar draws yr holl fyrddau/ymddiriedolaeth iechyd roedd y gyfradd ymateb yn amrywio rhwng 64% a 71%.


	Cymru Gyfan
Postiad gwreiddiol	11,000
Cyfanswm cleifion cymwys	10,383
Cyfanswm wedi'u cwblhau	6,714
Copi caled	6,514
Ar-lein	200
Cyfradd ymateb	65%

Ffigur 3: Gweithgarwch yr arolwg

Arolwg mewn dwy iaith oedd hwn a gallai ymatebwyr ateb drwy ddychwelyd holiadur papur, ar-lein neu dros y ffôn. Roedd yr opsiwn ffôn hefyd yn cynnwys gwasanaeth llinell iaith.



Ffigur 4: Iaith ymateb




Ffigur 5: Dull ymateb


Demograffeg ymatebwyr

Cymru Gyfan

Rhywedd



Cyfeiriadedd rhywiol




Wedi derbyn gwybodaeth yn eu dewis iaith




Grŵp ethnig




Beth yw eich prif statws cyflogaeth?




Oedran




Sut mae eich cancer wedi ymateb i driniaeth?



Grwpiau tiwmor



Oes gennych chi un o'r cyflyrau tymor hir canlynol?



* canrannau yn cynnwys ymatebion lluosog

Gallai canrannau beidio ag adio i 100% oherwydd talgrynnu

Adran chwech:

Prif ganfyddiadau



Prif ganfyddiadau

Cyflwyniad

Mae Cynllun Cyflawni Cancer ar gyfer Cymru 2016–2020⁵ yn cydnabod yr heriau sydd o'n blaenau. Ymhen amser bydd y galw am wasanaethau gofal ac iechyd yn debygol o gynyddu, gan y rhagwelir y bydd hanner y rheiny sydd ar hyn o bryd o dan 65 oed yn datblygu cancer⁶. Mae'r Cynllun Cyflawni Cancer wedi'i ddiweddarau yn nodi sawl maes pwysig i ganolbwyntio arnynt wrth atal cancer; darganfod cancer yn gynharach; darparu triniaeth a gofal cyflym ac effeithiol; diwallu anghenion pobl sydd â chanser; gwella gwybodaeth cancer; gofalu am bobl sydd â chanser ar ddiwedd oes; a thargedu ymchwil i ganser. Yn ganolog i'r cynllun mae gofal wedi'i ganoli ar yr unigolyn a chreu perthynas fwy cydradd rhwng cleifion a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol, lle caiff triniaeth a gofal eu cydgynhyrchu.

Comisiynwyd APCCC 2016 er mwyn parhau i fonitro profiadau cleifion o'u triniaeth a gofal cancer. Mae deall y profiadau hyn yn hollbwysig er mwyn gwella a chyfoethogi'r gwaith cynllunio, darpariaeth ac ansawdd gwasanaethau cancer yng Nghymru.


Fel gyda chanlyniadau APCCC 2013⁷, roedd canlyniadau arolwg 2016 yn gadarnhaol ar y cyfan. Rhoddodd mwyafrif y cleifion raddiad uchel i'w gofal cyffredinol - rhoddodd 93% raddiad o saith neu fwy allan o ddeg - a dywedodd 90% (naw o bob deg) fod gweinyddiad cyffredinol eu gofal (yn cynnwys derbyn llythyrau ar yr adeg gywir, meddygon yn derbyn y nodiadau a'r canlyniadau cywir, ac yn y blaen) yn “dda iawn”. Hefyd, roedd llawer o adborth cadarnhaol ynglŷn â llawer o eitemau penodol ar draws y llwybr gofal.

⁵ Rhwydwaith Cancer Cymru (2016) Cynllun Cyflawni Cancer ar gyfer Cymru 2016-2020. Gofal o'r safon uchaf i bawb sydd â chanser. Adferwyd ar 18 Chwefror 17 o:
<http://gov.wales/docs/dhss/publications/161114cancerplanen.pdf>

⁶ Ahmad, A, S. Ormiston-Smith, N. a Sasieni, P, D (2015) Trends in the lifetime risk of developing cancer in Great Britain: comparison of risk for those born from 1930 to 1960. British Journal of Cancer. 112, 943–947.

⁷ Quality Health (2013) Arolwg o Brofiad Cleifion Cancer yng Nghymru.

Siart sgoriau cadarnhaol ar gyfer profiad cyffredinol cleifion o ofal




Figur 7: Siart sgoriau cadarnhaol ar gyfer profiad cyffredinol cleifion o ofal (C71 - C74+)

Mae cwmpas eang yr arolwg yn rhoi'r cyfle i nodi gwahaniaethau o ran gofal ac yn amlygu meysydd ar gyfer gwelliannau wedi'u targedu. Roedd yr holiadur yn cwmpasu profiadau pobl gydag ystod o leoliadau gwasanaethau iechyd, gan ofyn i'r cleifion ateb cwestiynau ar bob agwedd ar eu gofal canser o fewn gofal sylfaenol ac eilaidd.

O fewn cyd-destun Cynllun Cyflawni Canser ar gyfer Cymru 2016-2020 rydym yn rhoi trosolwg o ganlyniadau'r arolwg mewn perthynas â phump o'r saith maes ffocws allweddol – darganfod canser yn gynt; darparu triniaeth a gofal cyflym ac effeithiol; bodloni anghenion pobl; gwella gwybodaeth; a thargeddu ymchwil⁸.

⁸ Nid yw 'Atal canser' a 'Diwedd oes' wedi eu cynnwys yma gan na chasglwyd unrhyw ddata am yr elfennau hyn yn arolwg profiad cleifion 2016.

Siart sgoriau cadarnhaol ar gyfer darganfod cancer yn gynnar



Ffigur 8: Siart sgoriau cadarnhaol ar gyfer canlyniadau darganfod cancer yn gynnar

Roedd ychydig o gwestiynau uniongyrchol ynglŷn â darganfod cynnar wedi eu cynnwys yn arolwg 2016. Fodd bynnag, mae nifer o gwestiynau yn rhoi rhyw arwydd o'r amser a gymerodd i gleifion ganfod unrhyw arwyddion neu symptomau, a beth ddigwyddodd nesaf. Cymerodd ychydig dan un o bob pump (19%) o'r cleifion o leiaf dri mis cyn sylweddoli bod rhywbeth o'i le a gweld meddyg am y tro cyntaf; ac roedd chwarter (25%) yn gwbl anymwybodol o'u canser hyd nes y dywedwyd wrthynt amdano gan weithiwr iechyd proffesiynol. Bydd angen parhau i wella ymwybyddiaeth o symptomau ac annog pobl i fynychu rhaglenni sgrinio fel y nodir yn y Cynllun Cyflawni Canser presennol.

Mae'n galonogol mai dim ond lleiafrif o'r cleifion (4%) aeth yn syth i'r ysbyty drwy'r Adran Damweiniau ac Achosion Brys i geisio triniaeth am broblem iechyd a achoswyd gan eu canser. Gwelodd y rhan fwyaf o'r cleifion (61%) eu meddyg teulu unwaith neu ddwy cyn mynd i'r ysbyty gan ddangos bod gofal sylfaenol yn parhau'n borth pwysig i wasanaethau canser eilaidd, ac mae'n ymddangos ei fod yn gwneud hyn mewn modd amserol. Atgyfeiriwyd dros un o bob chwech (18%) i'r ysbyty yn dilyn apwyntiad sgrinio am ganser. O'u hystyried gyda'i gilydd, mae'r canlyniadau hyn yn awgrymu bod y broses atgyfeirio o ofal sylfaenol i wasanaethau canser eilaidd yn gweithio'n dda.

Er gwaethaf hyn, dywedodd lleiafrif o'r cleifion (6%) eu bod wedi gweld eu meddyg teulu bum gwaith neu fwy cyn cael eu hatgyfeirio i'r ysbyty. Roedd rhai ymatebwyr hefyd yn teimlo nad oedd eu meddyg teulu wedi cymryd eu symptomau o ddifrif: o'r rheiny a aeth at eu meddyg teulu gyda symptomau, dywedodd 9% ohonynt na wnaeth eu meddyg gymryd eu symptomau o ddifrif a dywedodd 12% eu bod wedi eu cymryd o ddifrif dim ond "i ryw raddau". Amlygwyd pwysigrwydd atgyfeirio o ofal sylfaenol yn y sylwadau ysgrifenedig gan gleifion; hefyd nodwyd oedi mewn atgyfeirio

o ofal sylfaenol fel thema ymhlith y lleiafrif o sylwadau negyddol. Mewn rhai achosion teimlai cleifion fod hyn wedi'i briodoli i feddygon teulu ddim yn rhoi digon o bwysigrwydd i'w symptomau. Bydd gwella cydgynhyrchu rhwng meddygon teulu a chleifion, fel yr amlygir yn y cynllun gwasanaeth gofal sylfaenol presennol, yn fuddiol⁹. Gall timau amlddisgyblaeth hefyd fod yn ddefnyddiol i gefnogi meddygon teulu gyda hyn, tra'n ceisio ymgysylltu'n well â gofal sylfaenol fel yr argymhellir yn y Cynllun Cyflawni Cancer presennol¹⁰.

“Roedd meddygon teulu yn aml yn rhy amharod ac yn rhy araf i atgyfeirio cleifion ar gyfer profion cancer er eu bod yn dangos symptomau tebygol. Mae angen gwella hyn ac mae angen i feddygon teulu atgyfeirio cleifion i'r ystyby am wiriadau os ydynt yn dangos unrhyw symptomau tebyg i ganser. Yn fy achos i, dywedodd fy meddyg teulu wrthyf nad oedd fy nhiwmor yn falaen er bod gen i lwmp caled, a oedd yn y pen draw yn ganser y fron.” – Menyw, 76 oed¹¹

“Ni fyddai fy meddyg teulu wedi fy atgyfeirio at yr arbenigwr pe na bawn wedi pwyso arno i wneud hynny. Hyd yn oed yn yr adegau anoddaf bu'n rhaid i mi aros am ddyddiau i weld y meddyg teulu.” – Menyw, 49 oed

Darparu triniaeth a gofal cyflym, effeithiol

Mae'r Cynllun Cyflawni Cancer presennol yn nodi bod safon gwasanaeth rhagorol yn rhywbeth pwysig iawn. Mae amseroedd atgyfeirio hyd at driniaeth yn rhan o hyn. Dywed y cynllun diweddaraf na ddylai unrhyw glaf aros mwy na 62 diwrnod o'r adeg y caiff cancer ei amau gyntaf hyd ddechrau triniaeth.

Datgelodd ganlyniadau'r arolwg brofiadau cadarnhaol ar y cyfan ynglŷn ag atgyfeirio prydlon a hefyd cleifion yn derbyn eu hapwyntiad ysbyty cyntaf. Teimlai mwyafrif y cleifion (81%) eu bod wedi cael eu gweld “cyn gynted ag yr oeddent yn teimlo oedd yn angenrheidiol”, dim ond 8% o'r cleifion oedd yn teimlo y dylent fod wedi cael eu gweld “llawer yn gynt” ar gyfer eu hapwyntiad ysbyty cyntaf.

⁹ Ein cynllun ar gyfer gwasanaeth gofal sylfaenol i Gymru hyd fis Mawrth 2018. Chwefror 2015.

¹⁰ Rhwydwaith Cancer Cymru (2016) Cynllun Cyflawni Cancer ar gyfer Cymru 2016-2020. Gofal o'r safon uchaf i bawb sydd â chanser. Adferwyd ar 18 Chwefror 17 o:
<http://gov.wales/docs/dhss/publications/161114cancerplanen.pdf>, tud 10

¹¹ Cyflwynir yr holl ddyfyniadau yn yr adran hon air am air.

Un o egwyddorion sylfaenol gofal wedi'i ganoli ar yr unigolyn yw bod cleifion yn cael y cyfle i gael eu cynnwys mewn penderfyniadau ynglŷn â'u gofal a thriniaeth¹². Dywedodd llawer o'r cleifion (78%) eu bod "yn sicr" wedi eu cynnwys mewn penderfyniadau ynglŷn â'u triniaeth a gofal - ond nododd mwy nag un o bob pump (22%) nad oeddent wedi eu cynnwys cymaint ag y dymunent. Dengys hyn bod gofal wedi'i ganoli ar yr unigolyn yn digwydd ar gyfer llawer o bobl sydd â chanser, ond nid i bawb.


Yn yr un modd, soniodd y mwyafrif o gleifion am berthynas gadarnhaol iawn â gweithwyr iechyd proffesiynol. O blith y cleifion oedd wedi cael llawdriniaeth neu wedi cael eu trin dros nos yn yr ysbyty yn ystod y 12 mis diwethaf, dywedodd 89% ohonynt fod ganddynt hyder ac ymddiriedaeth ym "mhob un" o'r meddygon oedd yn gofalu amdanynt, a dywedodd 81% fod ganddynt hyder ac ymddiriedaeth ym "mhob un" o'r nyrsys ward. Mae hyn yn bwysig oherwydd caiff ymddiriedaeth mewn gweithwyr gofal iechyd proffesiynol ei hystyried yn hynod bwysig i gleifion a chaiff ei chydabod yn gyffredinol i fod yn elfen sylfaenol o'r berthynas rhwng cleifion a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol¹³. Fodd bynnag, mae lle i wella: o blith y bobl a gafodd driniaeth yn yr ysbyty, dywedodd tua un o bob pump (22%) na wnaethant dderbyn digon o gefnogaeth emosiynol a dim ond dau o bob tri (67%) a ddywedodd eu bod wedi gallu trafod eu pryderon neu ofnau gyda staff cymaint ag y dymunent. Yn yr un modd, dywedodd bron i un o bob pump o'r holl ymatebwyr (19%) eu bod yn teimlo eu bod "weithiau" neu'n "aml" wedi cael eu "trin fel 'set o symptomau canser', yn hytrach na pherson cyflawn", sy'n awgrymu y gellid gwneud mwy i ddarparu gofal ymatebol, personol yn unol â'r Cynllun Cyflawni Canser¹⁴.

¹² ee Gerteis, M., Edgman-Levitan, S., Daley, J., & Delbanco, T. L. (Eds.). (1993). *Through the Patient's Eyes: Understanding and Promoting Patient-Centred Care*. San Francisco: Jossey-Bass.

¹³ ee Rolfe, A., Cash-Gibson, L., Car, J., Sheikh, A., & McKinsty, B. (2014). *Interventions for improving patients' trust in doctors and groups of doctors*. In Cochrane Database of Systematic Reviews. John Wiley & Sons, Ltd. <https://doi.org/10.1002/14651858.CD004134.pub3>

¹⁴ *Op cit*, tud 13-14


Siart sgoriau cadarnhaol ar gyfer hyder cleifion yn y staff



Ffigur 9: Siart sgoriau cadarnhaol ar gyfer hyder cleifion yn y staff (C15, C37, C43, C44, C55+, C73)

Maes arall ar gyfer gwella gofal ysbyty oedd galluedd teuluoedd cleifion i siarad â gweithiwr ieuchyd proffesiynol. Dim ond dau o bob tri (66%) o'r ymatebwyr a ddywedodd fod eu teulu neu rywun agos atynt "yn bendant" wedi cael digon o gyfle i siarad â gweithiwr gofal ieuchyd proffesiynol.

Siart sgoriau cadarnhaol ar gyfer rhyngweithio claf mewnol â staff



Ffigur 10: Siart sgoriau cadarnhaol ar gyfer rhyngweithio claf mewnol gyda staff (C40+, C42+)

Diwallu anghenion pobl

Mae bod â Gweithiwr Allweddol penodol, y Nyrs Glinigol Arbenigol (NGA) fel arfer, yn ffordd bwysig o gyfoethogi profiad claf o wasanaethau cancer. Dywed y canllawiau ar gyfer Gweithwyr Allweddol cleifion sydd â chanser "mae'n rhaid neilltuo Gweithiwr Allweddol i bob claf cancer ... a rhaid bod yn hawdd cysylltu ag ef ac yn barod i

ymateb bob amser”¹⁵. Mae rôl Gweithwyr Allweddol, ymhlith llawer o bethau eraill, yn cynnwys darparu gwybodaeth i gleifion a’u cyfeirio at grwpiau cefnogi lleol.

Dywedodd y mwyafrif o’r cleifion (81%) eu bod wedi derbyn enw a manylion cyswllt Gweithiwr Allweddol. Yn yr un modd, dywedodd 81% o’r ymatebwyr fod ganddynt fynediad at NGA fel rhan o’u gofal – yn cynnwys 69% a ddywedodd mai’r person hwn oedd eu Gweithiwr Allweddol.


“Mae’r gofal a dderbyniais gan y nyrsys NGA yn [Ysbyty], a gan y nyrsys NGA o [Ysbyty] wedi bod yn rhagorol. Ni allaf weld unrhyw fai arnynt.” – Oed, rhyw yn anhysbys

“Rydw i wedi bod yn arbennig o ffodus i gael "gweithiwr allweddol" sydd wedi egluro’n fanwl bopeth rydw i wedi holi yn ei gylch.” – Menyw, 86 oed

Er bod hyn yn gadarnhaol, mae’n brin o’r dyhead 100% sydd yng nghanllawiau’r Gweithwyr Allweddol. Soniodd y cleifion hefyd eu bod weithiau’n cael trafferth i gysylltu â’u Gweithiwr Allweddol ac NGA; o’r rheiny oedd wedi ceisio cysylltu, dywedwyd bod hyn “weithiau” neu’n gyffredinol anodd ar gyfer 26% o gleifion mewn perthynas â Gweithwyr Allweddol a 36% mewn perthynas ag NGA. Pan wnaethant lwyddo i gysylltu, derbyniodd y mwyafrif helaeth o’r cleifion atebion dealladwy i unrhyw gwestiynau pwysig bob amser neu gan amlaf gan eu NGA (91%) a theimlwyd bod eu Gweithiwr Allweddol yn eu helpu i gael atebion (87%). Dywedodd pedwar o bob pump (80%) bod eu NGA wedi rhoi’r wybodaeth oedd ei hangen arnynt i wneud penderfyniadau gwybodus am driniaeth a gofal.


¹⁵ Llywodraeth Cymru. (2014 Medi). *Egwyddorion a Chanllawiau – Gweithwyr Allweddol ar gyfer Cleifion Cancer*. <http://gov.wales/docs/dhss/publications/141120whc001en.pdf> tud1-2.

Siart sgoriau cadarnhaol ar gyfer darpariaeth Gweithiwr Allweddol



Figur 11: Siart sgoriau cadarnhaol ar gyfer darpariaeth Gweithiwr Allweddol (C19 – C21+)

Siart sgoriau cadarnhaol ar gyfer darpariaeth Nyrs Glinigol Arbenigol




Figur 12: Siart sgoriau cadarnhaol ar gyfer darpariaeth Nyrs Glinigol Arbenigol (C22 – C25)

Roedd effaith gadarnhaol Gweithiwr Allweddol/NGA yn sicr yn glir. Wrth gymharu â'r rheiny oedd heb y gefnogaeth hon, soniodd y cleifion oedd â mynediad at Weithiwr Allweddol a/neu NGA am brofiadau mwy ffafriol i'r *holl* gwestiynau perthnasol ynglŷn â gwybodaeth, triniaeth a gofal, trefnu cefnogaeth gartref a'u gofal GIG cyffredinol.

Roedd pwysigrwydd cefnogaeth wedi triniaeth ac atal cleifion rhag teimlo'n ddigefnogaeth ar ôl i'w triniaeth ddod i ben yn bwyntiau dysgu allweddol o APCCC 2013. Fodd bynnag, yn arolwg 2016 roedd profiad pobl o drefnu cefnogaeth gartref yn parhau'n llai cadarnhaol ar y cyfan o gymharu â'r profiad o fod yn yr ysbyty. Rhoddodd staff ysbyty rif cyswllt i'r mwyafrif o gleifion (89%) i'w ddefnyddio pe byddent yn poeni am eu cyflwr neu driniaeth wedi iddynt gael eu rhyddhau o'r ysbyty, ond teimlai dau o bob pump o'r cleifion (41%) na chawsant ddigon o gyngor a chefnogaeth ymarferol er mwyn delio â sgil-ffeithiau triniaeth pan oeddent gartref - yn cynnwys 15% na chafodd gynnig unrhyw gyngor na chefnogaeth ymarferol.

Gall trosglwyddo o'r ysbyty i'r cartref fod yn gam arbennig o fregus i gleifion, fel y cydnabyddir yn y Cynllun Cyflawni Cancer presennol. Fel y nodwyd uchod, roedd y Gweithiwr Allweddol/NGA fel arfer yn gallu cynorthwyo i hwyluso a threfnu cefnogaeth gartref ac maent hwy mewn sefyllfa ddelfrydol i sicrhau bod hyn yn cael ei wneud yn effeithiol. Roedd integreiddio llwybrau gofal, er enghraifft, rhwng gwasanaethau cancer eilaidd a gofal sylfaenol ar y cam rhyddhau/cefnogaeth gartref hwn fel petai'n dda iawn, i'r graddau bod y mwyafrif o'r ymatebwyr (91%) yn teimlo bod eu meddyg teulu wedi'i hysbysu'n dda ynglŷn â'r driniaeth a'r gofal a ddarparwyd. Fodd bynnag, o blith y cleifion hynny oedd angen cymorth neu ofal gan y meddyg teulu a meddygfa'r meddyg teulu ar ôl gadael yr ysbyty, dim ond 56% a ddywedodd eu bod "yn bendant" wedi cael hyn.

Siart sgoriau cadarnhaol ar gyfer cymorth gartref yn cael ei drefnu ar gyfer claf




Ffigur 13: Siart sgoriau cadarnhaol ar gyfer cymorth gartref yn cael ei drefnu ar gyfer claf (C62+ – C66+)

Fodd bynnag, er bod profiadau cleifion ar y cyfan yn gadarnhaol, dim ond tri o bob pump o gleifion (61%), oedd â theulu neu ffrindiau'n rhan o'u gofal, a ddywedodd fod

y bobl hyn “yn bendant” wedi cael digon o wybodaeth i gynorthwyo gyda gofal gartref. Dywedodd un o bob pump (19%) na roddwyd y wybodaeth hon iddynt o gwbl.

Yn ogystal â'r gefnogaeth a gynigiwyd gan aelodau teulu a ffrindiau agos, mae llawer o bobl sydd â chanser yn teimlo bod cymorth gan grwpiau hunangymorth, sefydliadau'r sector gwirfoddol ac elusennau yn fuddiol iawn. Dywedodd dau o bob tri o'r ymatebwyr (65%) fod staff yr ysbyty wedi rhoi'r “swm cywir” o wybodaeth iddynt am grwpiau cefnogi a hunangymorth, a dywedodd 58% eu bod wedi cael gwybod am gefnogaeth wirfoddol neu elusennol. Fodd bynnag, ar gyfer llawer o bobl eraill nid oedd y wybodaeth hon ar gael: ni chafodd dros un o bob pump (21%) unrhyw wybodaeth am grwpiau cefnogi neu hunangymorth, ac ni soniwyd wrth 42% am gefnogaeth wirfoddol neu elusennol. Mae hyn yn bwysig o ran cefnogi hunanreoli gofal ac annog cydgynhyrchu. O blith y cleifion hynny oedd yn teimlo bod gwybodaeth am gymorth ariannol neu fudd-daliadau yn angenrheidiol, dywedodd dros hanner ohonynt (52%) y byddent wedi dymuno cael mwy o wybodaeth gan staff ysbyty: mae hyn yn cynnwys 41% na chafodd unrhyw wybodaeth yn ogystal â 10% a gafodd rywfaint ond y byddent “wedi hoffi cael mwy”. Ar y cyfan dywedodd 23% o'r holl ymatebwyr (yn cynnwys y rheiny a ddywedodd nad oedd angen y math hwn o wybodaeth arnynt, nad oedd yn gwybod, neu'n methu cofio) na chawsant unrhyw wybodaeth am gymorth ariannol na budd-daliadau gan staff yr ysbyty ond byddent wedi hoffi cael rhywfaint. Mae hyn yn destun pryder oherwydd gallai'r ymatebwyr hyn fod wedi bod yn cael rhyw fath o anawsterau ariannol o ganlyniad i'w canser. Mae'r Cynllun Cyflawni Canser diwygiedig yn ymrwymo i sicrhau bod pawb yn derbyn gwybodaeth am sut i gyrchu cyngor am fudd-daliadau lles yn dilyn diagnosis canser. Er ei bod hi'n bosibl y gallai rhai cleifion gyrchu'r wybodaeth hon o ffynonellau eraill, mae'r ffaith bod bron i un o bob pedwar o'r holl ymatebwyr (23%) wedi dweud eu bod eisiau mwy o wybodaeth gan staff ysbyty yn rhywbeth i bryderu yn ei gylch.


Siart sgoriau cadarnhaol ar gyfer lefel y wybodaeth a dderbyniwyd gan gleifion



Figur 14: Siart sgoriau cadarnhaol ar gyfer lefel y wybodaeth a dderbyniwyd gan gleifion (C27, C28, C29+)

Maes pwysig ar gyfer gwelliant wedi'i dargedu yw cynllun gofal personol claf. Mae cynlluniau gofal yn ffordd hollbwysig i nodi, trafod a chofnodi anghenion cleifion, opsiynau a dulliau a ffefrir ar gyfer triniaeth a gofal. Maent hefyd yn cyfeirio cleifion a'u hanwyliaid at gefnogaeth sy'n briodol ar gyfer eu hanghenion. Mae'n elfen sylfaenol o ofal wedi'i ganoli ar yr unigolyn ac mae'n golygu y gellir creu perthynas fwy cydradd rhwng cleifion a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol.

Siart sgoriau cadarnhaol ar gyfer mynediad cleifion at gynllun gofal



Figur 15: Siart sgoriau cadarnhaol ar gyfer mynediad cleifion at gynllun gofal (C67, C68)

Dywedodd ychydig dan hanner (48%) y cleifion eu bod wedi cael y cyfle i drafod eu hanghenion ac i ddatblygu cynllun gofal, mae hyn yn golygu na chafodd y mwyafrif

ohonynt y cyfle hwn. Cafodd cyfran hyd yn oed llai o gleifion gynnig cynllun gofal ysgrifenedig - dim ond 18% a ddywedodd eu bod wedi cael cynnig o'r fath.

Mae peidio â chael eu cynnwys yn y broses o ddatblygu cynlluniau gofal yn rhywbeth sy'n peri pryder i'r rhan fwyaf o gleifion, nid dim ond oherwydd pwysigrwydd cael eu cynnwys ar gyfer gofal wedi'i ganoli ar yr unigolyn, ond hefyd oherwydd y gwahaniaethau ym mhrofiadau ehangach pobl a gafodd ac na chafodd y cyfle hwn. Soniodd cleifion a gafodd y cyfle i drafod eu hanghenion a'u pryderon er mwyn llunio cynllun gofal am brofiadau mwy cadarnhaol o'u triniaeth a gofal ar draws pob cam o siwrnai'r claf o gymharu â'r rheiny oedd heb gael y cyfle hwn. Felly, mae cynllun gofal nid yn unig yn hyrwyddo'r cyfle i gael eu cynnwys yn well a rhannu yn y broses o wneud penderfyniadau ynglŷn â darpariaeth triniaeth a gofal, fe'i cysylltir hefyd â gwell profiad cleifion ohono. Efallai bod hyn oherwydd bod cael y cyfle i fod â rhan mewn datblygu cynlluniau gofal yn cael effaith gadarnhaol ar brofiadau cyffredinol pobl, neu efallai bod pobl sy'n cael gwell profiadau ar y cyfan yn fwy tebygol o gael cynnig y cyfle hwn – er enghraifft, oherwydd y gall gwell profiadau a chael y cynnig i fod yn rhan o'r broses ddeillio o drefniadaeth dda o ofal.

Unwaith eto mae'r Gweithiwr Allweddol/NGA mewn sefyllfa dda iawn i ddatblygu a chynnig cynllun gofal ysgrifenedig i bob claf sy'n derbyn gwasanaethau cancer eilaidd. Mae'n hollbwysig bod pob claf yn cael y cyfle i fod yn rhan o ddatblygu cynllun gofal ac yn cael cynnig y dewis o dderbyn copi ysgrifenedig os ydynt yn dymuno hynny. Yn wir, mae sicrhau bod cynllun gofal priodol yn cael ei gytuno gyda chlaf yn bendant o fewn cylch gwaith y Gweithwyr Allweddol, fel y disgrifir yn egwyddorion a chanllawiau Gweithwyr Allweddol cleifion cancer¹⁶. Yn yr un modd, mae ymrwymiad yn y Cynllun Cyflawni Cancer fod pob claf sy'n cael diagnosis o ganser yn cael ei anghenion wedi'u hasesu ac yn cael cynnig cynllun gofal - mae'r ffaith bod llai nac un o bob pump o'r ymatebwyr i'r arolwg hwn wedi dweud eu bod wedi derbyn cynnig o'r fath yn dangos bod angen gwella hyn ar frys er mwyn bodloni'r ymrwymiad hwn.

“Roedd fy ngweithiwr allweddol/nyrs arbenigol yn wych, roedd hi wastad yno i mi ac yn rhoi atebion i bob un o'm cwestiynau.” – Dyn, 68 oed

¹⁶ *Ibid.*

“Roedd y cynllun gofal yn esbonio’n glir, felly nid oedd gen i unrhyw amheuaeth ynglŷn â pha driniaeth y byddwn yn ei chael a phryd.” – Menyw, 54 oed

Gwella gwybodaeth cancer ar gyfer cleifion

Yn ôl y Cynllun Cyflawni Cancer, mae darparu gwybodaeth glir a hygyrch i gleifion yn sylfaenol ar gyfer darpariaeth gwasanaeth a phrofiad cleifion o ansawdd uchel.

Roedd nifer o gwestiynau yn yr arolwg yn gofyn am y wybodaeth a roddwyd i bobl oedd wedi cael profion diagnostig yn y 12 mis blaenorol. Cafodd cyfathrebu ar lafar gan staff, er mwyn esbonio unrhyw brofion neu weithdrefnau y byddai'r cleifion yn eu cael, dderbyniad cadarnhaol ar y cyfan gan y rhan fwyaf o gleifion: dywedodd 90% ohonynt eu bod wedi derbyn esboniadau llawn o'r hyn fyddai'n cael ei wneud yn ystod profion diagnostig. Felly hefyd esboniadau am ganlyniadau profion: dywedodd 82% fod y rhain wedi cael eu hesbonio'n "llwyr" mewn modd dealladwy. Dywedodd llai na 2% eu bod heb dderbyn neu ddeall esboniad, er ei fod wrth gwrs yn parhau i beri pryder i unrhyw glaf beidio â derbyn esboniad am ganlyniadau ymchwiliad diagnostig pwysig.

Gall darganfod bod ganddynt ganser ynddo'i hun fod yn ddigwyddiad mawr ym mywyd cleifion, a gall yn naturiol fod yn adeg anodd a phryderus. Mae darparu gwybodaeth a chefnogaeth dda ar yr adeg hon - a'u darparu mewn modd sensitif - yn hollbwysig ar gyfer gofal o ansawdd uchel. Dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr (84%) y cawsant wybod bod ganddynt ganser mewn modd sensitif, ond dywedodd 6% y dylai'r wybodaeth hon fod wedi cael ei rhoi "yn llawer mwy sensitif". Hefyd, dywedodd mwy nac un o bob pum claf (23%) na wnaethant ddeall o gwbl, neu dim ond yn rhannol, yr esboniad ynglŷn â beth oedd yn bod arnynt.

“Dim sensitifrwydd yn y diagnosis: roedd y meddyg yn tybio fy mod eisoes wedi cael gwybod ac roedd yn amlwg wedi'i synnu nad oeddwn, felly camwybodaeth. Roedd meddyg dan hyfforddiant gydag ef ar y pryd a gwnaeth hyn beri embaras i bawb.” – Dyn, 55 oed

Mae'n galonogol iawn fod bron pob un (97%) o'r holl gleifion a gafodd ddewisiadau ynglŷn â'u triniaeth wedi dweud bod y dewisiadau wedi eu hesbonio iddynt, ond dim ond tri chwarter (75%) y cleifion a ddywedodd fod sgil-efeithiau posibl "yn bendant" wedi cael eu hesbonio iddynt. Yn yr un modd, dywedodd llai na thri o bob pum claf (56%) eu bod "yn bendant" wedi cael gwybod am sgil-efeithiau posibl a allai ddigwydd yn y dyfodol.

Mae rhoi gwybodaeth glir am sgil-ffeithiau posibl yn bwysig er mwyn caniatáu i gleifion wneud penderfyniadau gwybodus ynglŷn â'u gofal, ac mae tystiolaeth yn dangos y gallai hyn gael effaith hirdymor ar ymddygiadau - er enghraifft, dangoswyd bod adlyniad hirdymor at feddyginiaethau yn uwch ymhlith cleifion canser y fron a gafodd wybodaeth am sgil-ffeithiau meddyginiaethau cyn dechrau triniaeth¹⁷.


“Byddwn wedi gwerthfawrogi cael mwy o esboniad ynglŷn â gwahanol ddewisiadau triniaeth...” – Dyn, 72 oed

“Roeddwn i'n teimlo, er fy mod wedi fy nghynnwys yn y trafodaethau ynglŷn â fy newisiadau triniaeth, bod y llawfeddyg eisoes wedi penderfynu beth oedd e'n mynd i'w wneud ac roedd naill ai heb wrando neu wedi anwybyddu rhai o fy nymuniadau.” – Dyn, 60 oed

“Byddai sgil-ffeithiau triniaeth wedi gallu cael eu hesbonio'n well.” – Dyn, 56 oed

¹⁷ ee Kahn, K. L., Schneider, E. C., Malin, J. L., Adams, J. L., & Epstein, A. M. (2007). Patient Centered Experiences in Breast Cancer. *Medical Care*, 45(5), 431–439. <https://doi.org/10.1097/01.mlr.0000257193.10760.7f>

Siart sgoriau cadarnhaol ar gyfer beth ddigwyddodd cyn triniaeth



Figur 16: Siart sgoriau cadarnhaol ar gyfer beth ddigwyddodd cyn triniaeth (C8+, C10+, C11, C12, C14+, C16+, C18+)

Mae darpariaeth gwybodaeth ysgrifenedig hygyrch a phriodol yn faes allweddol ar gyfer gwelliant wedi'i dargedu. Ac eithrio'r cleifion hynny a ddywedodd nad oedd angen gwybodaeth ysgrifenedig arnynt, dywedodd dau o bob tri (66%) claf eu bod wedi derbyn gwybodaeth ysgrifenedig am y math o ganser oedd ganddynt a'i bod yn hawdd ei deall. Fodd bynnag, ni wnaeth dros chwarter y cleifion (27%) dderbyn gwybodaeth ysgrifenedig o'r fath.

Targedu ymchwil i ganser

Mae ymchwil i wasanaethau clinigol ac iechyd yn hollbwysig er mwyn gwella ansawdd gofal cleifion yn y dyfodol – er enghraifft drwy ddatblygiad dulliau, ymyriadau a meddyginiaethau newydd a gwell. Nid yw ymchwil i ganser yn wahanol, ond dim ond nifer gymharol fach o gleifion (23%) oedd wedi cael trafodaethau ynglŷn â chymryd rhan mewn ymchwil i ganser.

Mae hyn efallai'n gyfle a gollwyd i wasanaethau canser ac i gleifion ddatblygu triniaethau mwy cost effeithiol a nodi arfer gorau. Dyma, fodd bynnag, yw'r sefyllfa bresennol.


Dadansoddiad grwpiau tiwmor

Roedd lefel yr amrywiad ym mhrofiadau cleifion gyda gwahanol grwpiau tiwmor yn amrywio'n sylweddol rhwng cwestiynau. Ar gyfer rhai cwestiynau roedd y gwahaniaethau'n fach iawn. Ar gyfer cwestiynau eraill roedd gwahaniaethau eang mewn profiadau a adroddwyd gan wahanol grwpiau. Roedd cysylltiad cryf, fel y gellir disgwyl, rhwng pa mor gadarnhaol yr oedd ymatebwyr ar gyfartaledd ar gyfer cwestiwn a'r amrediad mewn canlyniadau rhwng gwahanol grwpiau tiwmor: hynny yw, yn gyffredinol roedd llai o amrywiad mewn cwestiynau lle rhoddodd y rhan fwyaf o'r cleifion ymateb ffafriol. Er enghraifft, dywedodd 95% o'r holl gleifion a rhwng 92% a 97% o gleifion o fewn pob grŵp tiwmor eu bod "bob amser" yn cael digon o breifatrwydd pan fyddent yn cael eu harchwilio neu eu trin yn yr ysbyty. Mewn cyferbyniad, dywedodd 51% o'r holl ymatebwyr eu bod wedi cael gwybod am gefnogaeth wirfoddol neu elusennol: o fewn grwpiau tiwmor, roedd y ffigur hwn yn amrywio o 73% ar gyfer cleifion sydd â chanser yr ysgyfaint i ddim ond 27% ar gyfer cleifion sydd â chanserau wrolegol.

Grŵp tiwmor	Nifer yr ymatebwyr
Ymennydd / SNG	37
Bro	1546
Colorefrol/Gastrogoluddol Isaf	823
Gynaecolegol	348
Haematolegol	611
Pen a Gwddf	230
Ysgyfaint	318
Prostad	959
Sarcoma	60
Croen	142
Gastrogoluddol Uchaf	242
Wrolegol	678
Arall	720

Ffigur 17: Maint sylfaen ymatebwyr ar gyfer pob grŵp tiwmor

Siart sgoriau cadarnhaol ar gyfer yr ymatebwyr hynny a raddiodd eu profiad o ofal yn 7/10 neu fwy yn ôl grŵp tiwmor



Ffigur 18: C74+ yr ymatebwyr a raddiodd eu profiad o ofal yn 7/10 neu fwy yn ôl grŵp tiwmor


Ar gyfer cwestiynau lle roedd gwahaniaethau'n fwy amlwg, roedd rhai patrymau clir. Cafodd sawl grŵp brofiadau arbennig o gadarnhaol ar draws nifer o gwestiynau: er enghraifft cleifion sydd â chanser y fron, y pen a'r gwddf, y prostatid a chanser y croen. Soniodd cleifion oedd â chanser y fron a chanser y prostatid yn arbennig am brofiadau cadarnhaol ar draws pob cam o'u gofal canser.

Mae'n ymddangos bod rhai grwpiau tiwmor wedi cael profiadau llai cadarnhaol parthed eu triniaeth a'u gofal. Mae tri grŵp tiwmor yn amlwg yn hyn o beth – cleifion sydd â chanserau sarcoma, wrolegol a chanser yr ymennydd/system nerfol ganolog¹⁸. Soniodd cleifion sydd â chanser y gwaed hefyd am brofiadau gwaeth mewn rhai meysydd.

¹⁸ Nodwyd cyfyngau hyder cymharol eang ar y rhan fwyaf o gwestiynau i gleifion sydd â chanser yr ymennydd/system nerfol ganolog. Mae hyn yn golygu bod maint y sampl ar gyfer pob un o'r grwpiau tiwmor hyn yn gymharol fach, felly mae angen bod yn ofalus wrth ddechongli'r canfyddiadau hyn a'r

Cleifion sydd â sarcoma oedd â'r profiad lleiaf cadarnhaol o'r holl grwpiau tiwmor a archwiliwyd: hwy roddodd yr ymatebion cyfanredol lleiaf ffafriol o unrhyw grŵp tiwmor ar gyfer bron i hanner holl gwestiynau'r arolwg. Roedd hyn i'w weld ar draws holl gamau eu triniaeth a gofal ac mae angen gweithredu ar frys i ddeall beth yw'r rheswm gwaelodol am hyn a sut y gellir gwella'r sefyllfa. Mae nifer cymharol fechan ymatebwyr yr arolwg sydd â sarcoma yn golygu bod posibilrwydd y gallai rhai gwahaniaethau yr arsylwyd arnynt fod yn fater o siawns - fodd bynnag, mae'r cysondeb y gwnaeth y grŵp hwn adrodd am brofiadau llai ffafriol yn bendant yn haeddu ymchwiliad pellach. Er enghraifft, dim ond 83% o'r cleifion oedd â sarcoma wnaeth raddio eu gofal yn saith neu fwy allan o ddeg, o gymharu â rhwng 88% (ymennydd a system nerfol ganolog) a 95% (y fron, gynaecolegol, pen a'r gwddf, a'r prostad) ymhlith grwpiau tiwmor eraill.

Siart sgoriau cadarnhaol ar gyfer y sgoriau sarcoma isaf




Ffigur 19: Siart sgoriau cadarnhaol ar gyfer y sgoriau sarcoma isaf (C69, C68, C67, C13+, C28)

Cafodd cleifion sydd â chanser wrolegol hefyd brofiadau llai cadarnhaol o driniaeth a gofal. Roedd hyn, fodd bynnag, yn tueddu i fod wedi'i ganolbwyntio fwy ar gefnogaeth, megis cael y swm cywir o wybodaeth ynglŷn â grwpiau hunangymorth, cefnogaeth wirfoddol ac elusennol, trafod effaith cancer ar weithgareddau o ddydd i

casgliadau a dynnir ohonynt. Fodd bynnag, gan fod gan y grwpiau tiwmor hyn brofiadau llai cadarnhaol yn gyson ar draws nifer o feysydd a archwiliwyd maent yn haeddu sylw.

ddydd, a derbyn gwybodaeth ynglŷn â chymorth ariannol. Er enghraifft, dim ond 27% o'r cleifion oedd â chanserau wrolegol gafodd glywed am gefnogaeth wirfoddol ac elusennol, o gymharu â rhwng 36% (croen) a 73% (ysgyfaint) mewn grwpiau eraill.

Siart sgoriau cadarnhaol ar gyfer y sgoriau wrolegol isaf



Figur 20: Siart sgoriau cadarnhaol ar gyfer y sgoriau wrolegol isaf (C69, C68, C67, C13+, C28)

Er nad mor amlwg, roedd gan gleifion sydd â chanser yr ymennydd/system nerfol ganolog brofiadau llai cadarnhaol o'u gofal. Roedd hyn fwyaf amlwg mewn perthynas â chysylltu â'u Gweithiwr Allweddol a chael digon o ofal a chymorth gan eu meddyg teulu wedi iddynt gael eu rhyddhau o'r ysbyty.

Fel y nodwyd uchod, fe wnaeth cleifion sydd â chanserau'r gwaed hefyd sôn am brofiadau gwaeth mewn rhai meysydd. Er enghraifft, roeddent yn llawer llai tebygol na'r rhan fwyaf o'r grwpiau eraill i ddweud eu bod wedi deall "yn llwyr" yr esboniad a roddwyd iddynt ynglŷn â beth oedd yn bod pan gafodd eu cancer ei ddiagnosio: dywedwyd hyn gan 56% o'r cleifion â chanserau'r gwaed, o gymharu â rhwng 69% ac 82% ym mhob grŵp arall.

Yn yr arolwg blaenorol a gynhaliwyd yn 2013, adroddwyd bod cleifion oedd â chanser yr ysgyfaint ymhlith y rhai lleiaf tebygol o sôn yn gadarnhaol am eu profiadau. Ni chafodd y canfyddiad hwn ei ailadrodd yn 2016, lle roedd y cleifion hyn yr un mor debygol â chyfartaledd yr holl gleifion i sôn am brofiadau cadarnhaol. Cleifion â chanser yr ysgyfaint oedd yn dal y lleiaf tebygol i ddweud nad oeddent yn cael eu trin fel "set o symptomau cancer", gyda 76% yn dweud hyn o gymharu ag 81% ar gyfartaledd: ond hwn oedd yr unig gwestiwn lle mai cleifion cancer yr

ysgyfaint oedd y grŵp lleiaf tebygol i sôn am brofiadau da. Ar gyfer y rhan fwyaf o gwestiynau, roedd pobl â chanser yr ysgyfaint yr un mor debygol â'r rheiny mewn grwpiau tiwmor eraill i sôn am brofiadau cadarnhaol, ac ar gyfer pedwar o'r cwestiynau hwy oedd y mwyaf cadarnhaol. Er enghraifft, cleifion â chanser yr ysgyfaint oedd y mwyaf tebygol i ddweud eu bod wedi cael eu gweld mor fuan ac oedd angen gan feddyg ysbyty cyn eu diagnosis (88% o gymharu â chyfartaledd o 81%) ac i ddweud eu bod wedi cael gwybod am gefnogaeth elusennol a gwirfoddol (73% o gymharu â chyfartaledd o 58%).

Cyflyrau hir sefydlog


Cydnabyddir bod llawer o gleifion sydd â chanser hefyd yn byw gydag o leiaf dau gyflwr hir sefydlog arall neu fwy¹⁹. Datgelodd dau o bob pump (40%) o'r cleifion a holwyd fod ganddynt o leiaf un cyflwr hir sefydlog, yn bennaf cyflwr iechyd corfforol hir sefydlog (19%).

Roedd profiad gofal yr ymatebwyr hyn yn gadarnhaol ar gyfer y mwyafrif. Mewn rhai meysydd roedd y profiadau cadarnhaol a adroddwyd gan ymatebwyr oedd â chyflyrau hir sefydlog yn well na'r rhai a adroddwyd gan gleifion oedd heb gyflwr o'r fath; ac mewn eraill roedd ychydig bach yn is.

Roedd nifer cymharol lai o brofiadau cadarnhaol i bobl a ddywedodd fod ganddynt gyflwr hir sefydlog i drafod eu hanghenion a'u pryderon er mwyn datblygu cynllun gofal o gymharu â'r rheiny heb gyflwr o'r fath, ac eithrio ymatebwyr oedd ag anabledd dysgu.

¹⁹ Llywodraeth Cymru. (2014 Medi). *Egwyddorion a Chanllawiau – Gweithwyr Allweddol ar gyfer Cleifion Canser*. <http://gov.wales/docs/dhss/publications/141120whc001en.pdf> tud1-2.

Siart sgoriau cadarnhaol ar gyfer cleifion oedd wedi cael cynnig y cyfle i drafod anghenion a phryderon yn ôl cyflyrau hirdymor



Ffigur 21: Siart sgoriau cadarnhaol ar gyfer cyfle i gleifion oedd â chyflwr hirdymor i drafod pryderon (C67)

Profiadau'r rheiny sydd ag anabledd dysgu

Soniodd ymatebwyr oedd ag anabledd dysgu am brofiadau cadarnhaol iawn mewn ystod o feysydd. Roedd eu profiadau cadarnhaol yn rhagori ar brofiad y rheiny a ddywedodd fod ganddynt gyflyrau hir sefydlog eraill a rhai heb gyflyrau o'r fath, er enghraifft, wrth fynd at eu meddyg teulu gyda'u symptomau, esboniadau ynglŷn â pha brofion fyddai'n cael eu cynnal a sut yr oedd eu llawdriniaeth wedi mynd.


Soniodd y cleifion oedd ag anabledd dysgu am brofiad cadarnhaol parthed sut y cafodd eu canser ei esbonio, naill ai ar lafar neu drwy wybodaeth ysgrifenedig a oedd yn hawdd ei deall. Roedd hyn yn cynnwys deall ymatebion gan y Nyrs Glinigol Arbenigol (NGA) i unrhyw gwestiynau a ofynnwyd.

Er hynny, mae angen bod yn ofalus wrth ddehongli'r canfyddiadau hyn gan mai dim ond nifer fechan o ymatebwyr - llai na 50 - a ddywedodd fod ganddynt anabledd dysgu. Golyga hyn fod posibilrwydd camgymeriad cymharol eang ar gyfer amcangyfrifon ynglŷn â phrofiadau'r grŵp hwn. Yn ogystal, gall holiadur a hunanlenwir arwain at dangynrychioliad pobl sydd ag anawsterau dysgu difrifol, felly argymhellir cynnal mwy o waith ymchwil sy'n canolbwyntio ar brofiadau pobl sydd ag anawsterau dysgu a chanser er mwyn deall y maes hwn yn well.

Profiadau'r rheiny sydd â chyflyrau iechyd meddwl

Y gyfran isaf o ymatebwyr a nododd brofiadau cadarnhaol ar gyfer nifer o agweddau ar eu gofal cancer oedd y rheiny oedd â phroblem iechyd meddwl. Roedd hyn yn ymwneud yn bennaf â'u profiad o ofal fel claf mewnol, er enghraifft gallu trafod eu pryderon gyda staff cymaint ag y byddent wedi ei hoffi (56% o gymharu â chyfartaledd o 67%, a 70% ar gyfer y rheiny a ddywedodd nad oedd ganddynt gyflwr hir sefydlog).

Siart sgoriau cadarnhaol ar gyfer cleifion oedd yn gallu trafod pryderon/ofnau yn ôl cyflyrau hirdymor



Figur 22: Siart sgoriau cadarnhaol ar gyfer cleifion oedd yn gallu trafod ofnau gyda staff yn ôl cyflwr hirdymor (C40+)


Nododd ymatebwyr oedd â phroblem iechyd meddwl y profiadau mwyaf cadarnhaol o ran cael gwybod am gefnogaeth wirfoddol ac elusennol (61% o gymharu â chyfartaledd o 58%, a 61% o'r rheiny a ddywedodd nad oedd ganddynt gyflwr hir sefydlog) ond nid o ran derbyn digon o ofal a chymorth gan wasanaethau iechyd neu gymdeithasol (48% o gymharu â chyfartaledd o 59%, a 63% o'r rheiny heb gyflwr hir sefydlog).

Fel gyda'r grŵp anawsterau dysgu, roedd nifer y bobl a hunanadroddodd gyflyrau iechyd meddwl yn gymharol isel – llai na 250 o ymatebwyr. Unwaith eto, golyga hyn y dylid bod yn ofalus wrth ddehongli'r canfyddiadau.

Profiadau'r rheiny oedd â chyflyrau hir sefydlog eraill

Roedd mynediad at NGA yn gymharol is ar gyfer ymatebwyr oedd â nam ar eu golwg (73%), a rhoddodd hwythau hefyd lai o ymatebion cadarnhaol parthed eu NGA yn darparu gwybodaeth er mwyn gwneud penderfyniadau gwybodus ynglŷn â'u triniaeth a gofal (75%), grwpiau cefnogi a hunangymorth, cefnogaeth sector gwirfoddol/elusennol (42%) a chefnogaeth ariannol (36%).


Siart sgoriau cadarnhaol ar gyfer cleifion oedd â mynediad at Nyrs Glinigol Arbenigol yn ôl cyflwr hirdymor



Ffigur 23: Siart sgoriau cadarnhaol ar gyfer mynediad cleifion at Nyrs Glinigol Arbenigol yn ôl cyflwr hirdymor (C22)

Ar gyfer cleifion oedd â salwch hir sefydlog (er enghraifft HIV neu glefyd siwgr) roedd cefnogaeth gartref a chael digon o wybodaeth er mwyn i'w teuluoedd ofalu amdanynt gartref yn gymharol isel o ran profiad cadarnhaol (56% o gymharu â chyfartaledd o rhwng 61% a 62% o'r rheiny a ddywedodd nad oedd ganddynt gyflwr hir sefydlog); ac ar gyfer y rheiny oedd â chyflwr corfforol hir sefydlog (57%).

Siart sgoriau cadarnhaol ar gyfer teuluoedd y rhoddwyd digon o wybodaeth iddynt i ofalu gartref yn ôl cyflwr hirdymor



Figur 24: Siart sgoriau cadarnhaol ar gyfer gwybodaeth a roddwyd i deuluoedd yn ôl cyflwr hirdymor (C62+)

Profiadau ymatebwyr a lenwodd fersiwn Gymraeg yr holiadur

Rhoddwyd y cyfle i'r ymatebwyr lenwi'r arolwg naill ai yn Saesneg neu'n Gymraeg, a dewisodd 2% ohonynt lenwi'r fersiwn Gymraeg. Mae hyn yn cyfateb i nifer cymharol fechan o ymatebwyr - llai na 150 - ond eto mae'n rhoi'r cyfle i edrych ar brofiadau pobl oedd yn well ganddynt lenwi'r arolwg yn Gymraeg. Yn realistig, dim ond ar sail genedlaethol y gellir gwneud y dadansoddiad hwn, gan fod nifer y bobl a ymatebodd yn Gymraeg yn rhy fach i ganiatáu ar gyfer unrhyw ddadansoddiad o is-grwpiau.

Roedd rhai gwahaniaethau demograffig rhwng pobl a ddewisodd lenwi'r arolwg yn Saesneg ac yn Gymraeg. Roedd ymatebwyr a lenwodd yr arolwg yn Gymraeg yn llawer mwy tebygol i fod yn 60 oed neu hŷn o gymharu'r â'r rheiny a oedd yn llenwi'r fersiwn Saesneg (88% o gymharu â 77%) ac roeddent yn llawer mwy tebygol o ddweud nad oedd ganddynt unrhyw gyflyrau hir sefydlog (71% o gymharu â 60%). Roeddent hefyd yn llawer mwy tebygol o fod yn byw yng ngogledd a gorllewin Cymru - gyda'r mwyafrif helaeth yn byw yn ardal dalgylch Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr neu Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda. Roedd llai nag 20 ymatebydd yn dod o'r pum bwrdd iechyd arall gyda'i gilydd.

Mae hyn yn bwysig wrth ystyried ystyr unrhyw wahaniaethau eraill a welir rhwng y grwpiau, gan y gall y nodweddion eraill hyn ddrysu neu ddylanwadu ar y rhain. Gall fod yn bosibl i'r gwahaniaethau a welir rhwng pobl sy'n llenwi fersiwn Gymraeg a Saesneg yr arolwg gael eu priodoli'n rhannol neu'n llwyr i'r ffaith bod pobl yn yr arolwg yn tueddu i fod yn hŷn a bod llai ohonynt yn adrodd am gyflyrau hir sefydlog.

Er hynny, wrth adolygu'r sylwadau gan bobl a lenwodd yr arolwg yn Gymraeg a Saesneg gwelir rhai amrywiannau diddorol. Lle roedd gwahaniaethau i'w gweld, yn nodweddiadol soniodd y bobl a lenwodd yn Gymraeg am brofiadau mwy ffafriol. Er enghraifft, roedd pobl a lenwodd yr holiadur yn Gymraeg yn arwyddocaol fwy tebygol o ddweud bod eu meddyg teulu neu feddyg ysbyty wedi cymryd eu symptomau "yn llwyr" o ddifrif pan wnaethant eu trafod am y tro cyntaf - dywedodd 92% o'r bobl a ymatebodd i'r fersiwn Gymraeg hyn o gymharu â 79% o'r lleill. Roeddent hefyd yn fwy tebygol o ddweud eu bod wedi cael eu hapwyntiad cyntaf gyda meddyg ysbyty "cyn gynted ag ... oedd yn angenrheidiol": 88% o gymharu ag 81%. O blith y rhieni a gafodd driniaeth yn yr ysbyty, roedd pobl a ymatebodd yn Gymraeg yn arwyddocaol fwy tebygol o ddweud bod ganddynt hyder ac ymddiriedaeth "ym mhob un" nyrs ward (90% o gymharu ag 80%) a bod meddygon a nyrsys yn cyfathrebu'n effeithiol (hefyd yn 90% o gymharu ag 80%).

Mae un canfyddiad diddorol iawn yn ymwneud â gwybodaeth ysgrifenedig. Roedd pobl a ymatebodd yn Gymraeg yn llawer llai tebygol o ddweud eu bod wedi derbyn y wybodaeth oedd ei hangen arnynt am eu gofal "yn llwyr" yn eu dewis iaith - dywedodd 44% o'r rhai a ymatebodd yn Gymraeg hyn, o gymharu â 97% o'r rheiny a ymatebodd yn Saesneg. Er gwaethaf hyn, roedd pobl a ymatebodd yn Gymraeg yn gyson fwy tebygol o ddweud eu bod wedi teimlo bod gwybodaeth ysgrifenedig yn hawdd ei deall. Er enghraifft, dywedodd 79% eu bod wedi derbyn gwybodaeth ysgrifenedig ynglŷn â'r math o ganser oedd ganddynt a oedd yn hawdd ei deall, o gymharu â 66% o'r bobl a ymatebodd yn Saesneg. Mae hyn yn awgrymu na wnaeth diffyg gwybodaeth yn newis iaith y cleifion hyn o reidrwydd danseilio eu dealltwriaeth o'r wybodaeth a roddwyd iddynt.

Fel y nodwyd uchod, mae angen bod yn ofalus wrth ddehongli'r canfyddiadau hyn. Mae nifer fechan yr ymatebwyr a ymatebodd yn Gymraeg a gwahaniaeth mewn nodweddion demograffig y ddau grŵp yn faterion pwysig i'w hystyried. Yn ogystal, mae'n bwysig cydnabod nad yw dewis unigolyn i ymateb yn Gymraeg neu'n Saesneg yn ddigon i ddod i unrhyw gasgliad pellach ynglŷn â'r iaith y mae'r ymatebwyr yn ei siarad. Bydd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr Cymraeg yn ddwyieithog, felly efallai y bydd nifer o siaradwyr Cymraeg ymhlith y boblogaeth o bobl yn ymateb i'r arolwg yn Saesneg. Efallai hefyd y bydd gan bobl wahanol ffafriaeth o ran iaith wrth lenwi holiadur cleifion - sy'n fwiadol yn defnyddio iaith syml iawn lle bynnag y bo hynny'n bosibl - o gymharu â phan roddir gwybodaeth iddynt am eu cancer neu eu triniaeth, a fydd o bosibl yn anochel yn fwy cymhleth. Er gwaethaf hyn, mae'n rhesymol i ddamcaniaethu bod y canlyniadau yn dangos lle i wella o ran darparu gwybodaeth am ganser yn Gymraeg.

Profiadau ymatebwyr a lenwodd yr arolwg ar-lein

Gwahoddwyd ymatebwyr i gyfranogi yn yr arolwg drwy lythyr a holiadur a bostiwyd i'w cyfeiriad cartref. Roedd hyn yn cynnwys cyfarwyddiadau ar sut i lenwi'r arolwg ar-lein pe bai'n well gan yr ymatebwyr wneud hynny, a dewisodd 3% ohonynt lenwi'r holiadur yn y modd hwn. Fel gyda'r ymatebwyr a lenwodd yr holiadur yn Gymraeg, mae hyn yn cyfateb i nifer cymharol isel o ymatebion - 200 - ond mae'n bosibl gwneud rhywfaint o gymharu rhwng y grwpiau a wnaeth ymateb ar-lein a thrwy'r post.

Fel gyda'r dewis iaith, roedd gwahaniaethau demograffig rhwng y grwpiau a ymatebodd ar-lein a thrwy'r post. Roedd ymatebwyr ar-lein yn arwyddocaol fwy tebygol i fod yn ddynion (59% o gymharu â 48%); dan 60 oed (35% o gymharu â 22%); ac mewn cyflogaeth lawn amser (20% o gymharu â 14%). Unwaith eto, gall y gwahaniaethau hyn beri dryswch.

Ar gyfer y rhan fwyaf o gwestiynau, nid oedd gwahaniaethau arwyddocaol yn y profiad a adroddwyd gan bobl a ymatebodd drwy'r post neu ar-lein. Fodd bynnag, roedd ymatebwyr ar-lein yn fwy tebygol o adrodd eu bod wedi derbyn gwybodaeth neu atebion i gwestiynau a oedd yn ddealladwy.

Er enghraifft, dywedodd 88% o'r ymatebwyr ar-lein (o gymharu ag 81% o bobl a ymatebodd drwy'r post) eu bod wedi derbyn gwybodaeth ysgrifenedig am sgil-ffeithiau posibl triniaeth a bod hon yn "hawdd ei deal". Yn yr un modd dywedodd 95% o ymatebwyr ar-lein, o gymharu ag 87% o ymatebwyr drwy'r post, fod eu Gweithiwr Allweddol wedi eu cynorthwyo i gael atebion i gwestiynau pwysig "bob tro neu'r rhan fwyaf o'r amser". Fodd bynnag, roeddent hefyd yn arwyddocaol llai tebygol o ddweud eu bod "yn bendant" wedi cael eu cynnwys cymaint ag y dymunent mewn penderfyniadau am eu gofal a'u triniaeth (71% o gymharu â 79%), ac yn llai tebygol o ddweud ei bod hi'n hawdd cysylltu â'u Gweithiwr Allweddol os oeddent wedi ceisio gwneud hyn (66% o gymharu â 74%). O blith cleifion oedd wedi cael llawdriniaeth, roeddent hwy hefyd yn fwy tebygol o ddweud nad oeddent wedi derbyn esboniad o sut yr oedd pethau wedi mynd, ond byddent wedi hoffi cael un (8% o gymharu â 4%).

Un dehongliad posibl o'r canfyddiadau hyn yw'r hyn a elwir weithiau'n 'ysgogiad claf'. Roedd ymatebwyr ar-lein yn ymddangos yn hyderus eu bod yn deall y wybodaeth a roddwyd iddynt a hefyd wrth geisio gwybodaeth gan y gweithwyr gofal iechyd proffesiynol oedd yn rhan o'u gofal, ond gwnaethant hefyd fynegi problemau mwy gyda chael eu cynnwys a mynediad hawdd at Weithwyr Allweddol. Gellid damcaniaethu bod gan y cleifion hyn efallai ddisgwyliadau cyffredinol uwch ynglŷn â chael eu cynnwys yn eu gofal. Fodd bynnag, gallai hyn fod yr un mor gysylltiedig ag oedran cleifion (roedd ymatebwyr ar-lein ar y cyfan yn iau) a statws economaidd gymdeithasol. Mae angen rhagor o ymchwil er mwyn archwilio hyn mewn rhagor o fanylder.

Casgliadau

Roedd y canlyniadau a ddeilliodd o APCCC 2016 yn gadarnhaol iawn ar y cyfan. Soniodd y cleifion yn gadarnhaol am eu gofal a'u triniaeth, gyda'r mwyafrif helaeth yn graddio eu profiad cyffredinol yn saith neu fwy allan o ddeg. Yn yr un modd, teimlai mwyafrif yr ymatebwyr fod gweithwyr iechyd proffesiynol ar y cyfan yn cydweithio'n dda a bod y gofal wedi'i weinyddu'n dda. Mae hyn yn adlewyrchu'n fras brofiadau cadarnhaol o'r adeg y gwnaeth y cleifion geisio cymorth am y tro cyntaf hyd eu diagnosis, triniaeth a gofal yn eu cartref. Fodd bynnag, roedd yna agweddau ar ofal y gellid eu gwella ar bob cam.

Atgyfeiriwyd mwyafrif ymatebwyr yr arolwg i ysbyty ar ôl gweld eu meddyg teulu ynglŷn â symptomau a achoswyd gan eu cancer ar un neu ddau achlysur. Roedd atgyfeirio o raglenni sgrinio cancer hefyd yn llwybr cyffredin i ofal eilaidd. Roedd hi'n ymddangos bod atgyfeiriad o ofal sylfaenol i wasanaethau cancer eilaidd yn esmwyth ar gyfer mwyafrif y cleifion, ac roedd y gefnogaeth a dderbyniodd pobl ynglŷn â diagnosis ac atgyfeirio ar y cyfan o safon uchel. Fodd bynnag, cafodd rhai cleifion brofiadau llai cadarnhaol - gwelodd tua un o bob ugain (5%) eu meddyg teulu bump neu ragor o weithiau cyn cael eu hatgyfeirio, ac roedd un o bob pump (21%) o'r rhai oedd â symptomau yn teimlo na wnaeth eu meddyg teulu na'r ysbyty eu cymryd "yn llwyr" o ddifrif.

Mae perthynas dda â gweithwyr iechyd proffesiynol yr ymddiriedir ynddynt yn rhan bwysig o brofiadau pobl o ofal wedi'i ganoli ar yr unigolyn. Roedd tystiolaeth yn yr arolwg fod gan gleifion berthynas gref â gweithwyr iechyd proffesiynol, gan gynnwys eu Gweithiwr Allweddol/NGA. Roeddent yn ymddiried ynddynt i ddarparu eu triniaeth cancer a'u gofal. Yn wir, cysylltwyd mynediad at Weithiwr Allweddol/NGA â phrofiadau arwyddocaol fwy cadarnhaol ar draws yr arolwg. Gallai hyn ddangos y gall mynediad at Weithwyr Allweddol neu NGA wella profiadau pobl o'u gofal, neu efallai bod darpariaeth mynediad at y gweithwyr proffesiynol hyn yn nodwedd o ofal da yn gyffredinol. P'un bynnag sy'n wir, mae'n peri peth pryder nad oes gan leiafrif o gleifion fynediad at y gweithwyr proffesiynol hyn - dywedodd 14% nad oeddent wedi cael enw a manylion cyswllt Gweithiwr Allweddol ac nid oedd gan 19% (bron i un o bob pump) fynediad at NGA. Ar sail tystiolaeth yr arolwg, ac yn unol â chydabyddiaeth y Cynllun Cyflawni Cancer o bwysigrwydd y rolau hyn, byddai cynyddu darpariaeth Gweithwyr Allweddol a Nyrsys Clinigol Arbenigol yn gam pwysig mewn gwella profiadau pobl o ofal cancer yng Nghymru yn y dyfodol.

Cafodd gofal ysbyty, ar gyfer triniaeth fel cleifion mewnol a chleifion allanol, hefyd ei ddisgrifio'n ffafriol gan fwyaf yr ymatebwyr. Dywedodd 89% (naw o bob deg) eu bod "bob amser" wedi cael eu trin â pharch ac urddas yn yr ysbyty, a dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion eu bod yn gallu cael atebion dealladwy gan staff pan fyddai ganddynt gwestiynau pwysig. Fodd bynnag, gwelsom fod lle i wella o ran y gefnogaeth emosiynol a gynigir i bobl yn yr ysbyty: byddai 33% (un o bob tri) wedi

hoffi cael mwy o gyfle i drafod eu pryderon neu eu hofnau gyda staff ysbyty, ac, o blith y rheiny oedd ei angen, nododd 22% (un o bob pump) eu bod “yn bendant” heb gael digon o gefnogaeth emosiynol.

Mae canlyniadau o'r arolwg hefyd yn rhoi cyfeiriad ar gyfer gwelliannau wedi'u targedu ar gyfer gofal ehangach yn y dyfodol. Efallai mai'r mwyaf nodedig yw'r cyfle i ddatblygu a derbyn cynllun gofal ysgrifenedig. Mae ymrwymiad yn y Cynllun Cyflawni Canser i bob claf canser yng Nghymru gael cynnig copi o'u cynllun gofal, a dengys tystiolaeth o'r arolwg hwn fod pobl sydd wedi'u cynnwys mewn trafodaethau ynglŷn â'u cynllun gofal yn sôn am brofiadau mwy cadarnhaol o'u gofal. Mae angen gwella'r gyfradd ar gyfer darparu'r cyfle i fod yn rhan o benderfyniadau a'r cynnig o gynlluniau gofal: yn 2016, dywedodd 48% (llai na hanner) y cleifion eu bod wedi cael y cyfle i drafod eu hanghenion a'u pryderon fel rhan o ddatblygiad cynllun gofal, a chynigiwyd cynllun gofal ysgrifenedig i lai na 18% (un o bob pump).

Maes arall y mae darpariaeth ar y cyfan yn isel yw'r un sy'n ymwneud â'r cyfle i gael gwahoddiad i fod yn rhan mewn ymchwil i ganser lle bo hynny'n briodol. Dywedodd llai nag un o bob pedwar iddynt gael gwahoddiad o'r fath, sy'n dynodi cyfleoedd a gollwyd i gynnwys cleifion mewn ymchwil pwysig i ganser. Hefyd mae angen gwelliant wedi'i dargedu ar ddarparu gwybodaeth ychwanegol, gan gynnwys gwybodaeth ysgrifenedig am eu canser, triniaeth a gofal, a grwpiau cefnogi ar ôl rhyddhau o'r ysbyty. Er enghraifft, dim ond 48% o'r bobl oedd yn teimlo bod angen gwybodaeth arnynt am gymorth ariannol neu fudd-daliadau a ddywedodd eu bod wedi cael hyn. Mae dadansoddiad o wahaniaethau ym mhrofiadau pobl sydd â gwahanol grwpiau tiwmor yn dangos bod angen gwaith pellach i ddeall a gwella profiad cleifion sydd â chanser sarcoma, wrolegol ac ymennydd/system nerfol ganolog. Fodd bynnag, efallai y bydd angen ymchwil ychwanegol er mwyn deall yn llawn eu profiadau a sut y gellir gwella'r rhain. Er bod yr arolwg presennol yn rhoi mewnwelediad gwerthfawr i'r gwahaniaethau rhwng grwpiau, mae maint y grwpiau a dibynadwyedd data yn golygu bod angen bod yn ofalus wrth ddehongli rhai gwahaniaethau. Mae posibilrwydd hefyd i ganlyniadau gael eu drysu gan ffactorau eraill, yn cynnwys demograffeg a statws economaidd gymdeithasol, a allai ddylanwadu ar brofiadau pobl o ofal. Yn yr un modd, dylid cydnabod bod 'canser' mewn gwirionedd yn ystod eang o lawer o glefydau cysylltiedig - ni ellir o reidrwydd dybio mai'r elfennau gofal sy'n bwysig i bobl sydd â, dyweder, canser y prostad hefyd yw'r rhai mwyaf pwysig i bobl sydd â, dyweder, canser yr ymennydd neu'r system nerfol ganolog.

Roedd profiad cleifion oedd â chyflyrau hir sefydlog eraill hefyd yn gadarnhaol iawn. Bydd bod â mwy o ymwybyddiaeth o anghenion y cleifion hyn, a thrwy ddarparu cefnogaeth ychwanegol lle bo angen, yn sicrhau bod eu profiad cystal ag y gall fod.

Ar y cyfan, dengys canlyniadau'r arolwg gymysgedd o ganfyddiadau, sy'n amlygu lle mae arfer da a lle mae pethau'n gweithio'n dda ond hefyd y meysydd y mae angen

eu gwella. Ar y cyfan mae pobl a gaiff driniaeth am ganser yng Nghymru yn sôn am brofiadau cadarnhaol, ac nid oes amheuaeth bod llawer o nodweddion cadarnhaol y dylid eu dathlu. Fodd bynnag, mae yna hefyd feysydd y mae angen eu gwella yn y dyfodol. Dylai'r canfyddiadau roi gwybodaeth i weithwyr proffesiynol a llunwyr polisïau fel ei gilydd wrth iddynt adolygu cyflwr presennol y gofal ar gyfer pobl sydd â chanser yng Nghymru ac er mwyn cynllunio newidiadau yn y dyfodol, boed yn genedlaethol neu'n lleol, a allai arwain at well gwasanaethau iechyd i bawb.

Adran saith:

Canlyniadau



Crynodeb sgôr cadarnhaol

Mae'r adran hon yn amlinellu'r sgoriau cadarnhaol cenedlaethol, sef rhai Cymru Gyfan. Mae'r sgoriau hyn yn dangos canran yr ymatebwyr a roddodd yr ymatebion mwyaf cadarnhaol i bob cwestiwn, gan ddangos canfyddiad o brofiad claf rhagorol. Dangosir cwestiynau sydd wedi'u targedu gyda'r arwydd '+' ac mae hyn yn golygu bod ymatebwyr anghymwys wedi cael eu tynnu o'r cyfrifiad sgôr cadarnhaol.

I gael esboniad o'r sgôr Cymru Gyfan a rhagor o wybodaeth am gyfrifiad sgoriau cadarnhaol a chwestiynau wedi'u targedu, gweler rhannau perthnasol Adran pedwar: Trosolwg o'r arolwg.


I weld rhestr lawn o'r canlyniadau, gan gynnwys meintiau sylfaen, canrannau a dadansoddiadau sgôr cadarnhaol, gweler Atodiad wyth.

Siart sgoriau cadarnhaol: Cyn eich diagnosis

Mae'r cwestiynau hyn yn ymwneud â beth ddigwyddodd cyn i gleifion ddarganfod bod ganddynt ganser.

C3+ - 5: Pob ymatebydd

C8+ - 10+: Ymatebwyr oedd wedi cael prawf diagnostig




Figur 25: Siart sgoriau cadarnhaol ar gyfer beth ddigwyddodd cyn i gleifion ddarganfod bod ganddynt ganser (C3+ – C10+)

Siart sgoriau cadarnhaol: Darganfod bod gennych ganser

Mae'r cwestiynau hyn yn ymwneud â beth ddigwyddodd pan wnaeth cleifion ddarganfod bod ganddynt ganser.

Pob ymatebydd




Ffigur 26: Siart sgoriau cadarnhaol ar gyfer beth ddigwyddodd pan wnaeth cleifion ddarganfod bod ganddynt ganser (C11 – C13+)

Siart sgoriau cadarnhaol: Penderfynu ar y driniaeth a/neu'r gofal gorau ar eich cyfer

Mae'r cwestiynau hyn yn ymwneud â'r penderfyniadau a wnaed am y driniaeth neu'r gofal gorau.

Pob ymatebydd




Ffigur 27: Siart sgoriau cadarnhaol ar gyfer penderfyniadau a wnaed ar gyfer y driniaeth neu'r gofal gorau (C14+ – C18+)

Siart sgoriau cadarnhaol: Gweithiwr Allweddol

Mae'r cwestiynau hyn yn ymwneud â Gweithiwr Allweddol.

C19: Pob ymatebydd

C20+ - 21+: Ymatebwyr oedd ag enw a manylion cyswllt Gweithiwr Allweddol




Figur 28: Siart sgoriau cadarnhaol ar gyfer Gweithiwr Allweddol (C19 – C21+)

Siart sgoriau cadarnhaol: Nyrs Glinigol Arbenigol

Mae'r cwestiynau hyn yn ymwneud â Nyrsys Clinigol Arbenigol.

C22: Pob ymatebydd

C23+ - 25: Ymatebwyr oedd ag enw a manylion cyswllt Nyrs Glinigol Arbenigol




Figur 29: Siart sgoriau cadarnhaol ar gyfer Nyrsys Clinigol Arbenigol (C22 – C25)

Siart sgoriau cadarnhaol: Cefnogaeth i bobl sydd â chanser

Mae'r cwestiynau hyn yn ymwneud â chefnogaeth i gleifion pan ddechreuodd eu triniaeth cancer gyntaf.

Pob ymatebydd




Ffigur 30: Siart sgoriau cadarnhaol ar gyfer pa gefnogaeth sydd ar gael i gleifion pan fyddant yn dechrau triniaeth (C26 – C29+)

Siart sgoriau cadarnhaol: Llawdriniaethau

Mae'r cwestiynau hyn yn ymwneud ag unrhyw lawdriniaeth y gallai cleifion fod wedi ei chael mewn perthynas â'u triniaeth cancer.

Ymatebwyr a gafodd lawdriniaeth ar gyfer eu cancer




Ffigur 31: Siart sgoriau cadarnhaol ar gyfer llawdriniaethau y gallai claf fod wedi eu cael (C32+ – C34+)


Siart sgoriau cadarnhaol: Gofal ysbyty fel claf mewnol

Mae'r cwestiynau hyn yn ymwneud ag unrhyw arhosiad claf mewnol yn yr ysbyty mewn perthynas â thriniaeth chanser.


Ymatebwyr a gafodd lawdriniaeth neu a arhosodd dros nos ar gyfer eu gofal canser



Ffigur 32: Siart sgoriau cadarnhaol ar gyfer arhosiad claf mewnol yn yr ysbyty (C37 – C41+)



Ffigur 33: Siart sgoriau cadarnhaol ar gyfer arhosiad claf mewnol yn yr ysbyty (C42+ – C46)




Ffigur 34: Siart sgoriau cadarnhaol ar gyfer arhosiad claf mewnol yn yr ysbyty (C47 – C51)

Siart sgoriau cadarnhaol: Apwyntiadau cleifion allanol/achos dydd

Mae'r cwestiynau hyn yn ymwneud ag unrhyw apwyntiad claf allanol neu achos dydd mewn perthynas â thriniaeth cancer.

Ymatebwyr a gafodd apwyntiad claf allanol neu achos dydd




Ffigur 35: Siart sgoriau cadarnhaol ar gyfer apwyntiad claf mewnol neu achos dydd (C54+ – C55+)

Siart sgoriau cadarnhaol: Radiotherapi/cemotherapi

Mae'r cwestiynau hyn yn ymwneud ag unrhyw radiotherapi neu gemotherapi y gallai cleifion fod wedi ei gael.

C58+: Ymatebwyr a gafodd radiotherapi

C61+: Ymatebwyr a gafodd gemotherapi




Figur 36: Siart sgoriau cadarnhaol ar gyfer radiotherapi/cemotherapi (C58+ – C61+)

Siart sgoriau cadarnhaol: Trefnu cefnogaeth gartref

Mae'r cwestiynau hyn yn ymwneud â chefnogaeth gartref yn cael ei threfnu pan ddychwelodd claf adref o'r ysbyty yn dilyn ei ofal am ganser.

Pob ymatebydd




Figur 37: Siart sgoriau cadarnhaol ar gyfer cefnogaeth gartref yn cael ei threfnu ar gyfer claf (C62+ – C66+)


Siart sgoriau cadarnhaol: Eich gofal GIG cyffredinol

Mae'r cwestiynau hyn yn ymwneud â phrofiad cyffredinol cleifion o'r gofal y gwnaethant ei dderbyn gan y GIG.

Pob ymatebydd



Ffigur 38: Siart sgoriau cadarnhaol ar gyfer profiad cyffredinol cleifion o ofal (C67 – C70)



Ffigur 39: Siart sgoriau cadarnhaol ar gyfer profiad cyffredinol cleifion o ofal (C71 – C74+)

Dadansoddiad bwrdd iechyd

Mae'r adran hon yn cymharu canfyddiad ymatebwyr o'u gofal iechyd mewn perthynas â dalgylch y bwrdd iechyd lle maent yn byw. Defnyddiwyd sgoriau cadarnhaol fel offeryn cymharu ac addaswyd y data er mwyn gwneud cymhariaeth yn decach. Mae rhagor o wybodaeth am addasu a safoni data i'w chael yn Adran pedwar: Trosolwg o'r arolwg. I gael golwg gynhwysfawr ar yr holl gwestiynau yn ôl bwrdd iechyd gweler Atodiad un: Dadansoddiad bwrdd iechyd.

Roedd canfyddiadau ar y cyfan yn gadarnhaol iawn gyda'r rhan fwyaf o'r cleifion yn graddio eu profiad yn saith neu fwy allan o ddeg (cyfartaledd byrddau iechyd yw 93%).

Nid oedd llawer o amrywiant mewn sgoriau cadarnhaol ar draws byrddau iechyd, gan awgrymu nad effeithir yn fawr ar brofiad o ofal yng Nghymru gan ym mha dalgylch bwrdd iechyd y mae'r claf yn byw. Fodd bynnag, gwelwyd gwahaniaethau arwyddocaol mewn rhai meysydd.

Mae'r holiadur wedi'i rannu'n llawer o wahanol adrannau, gan wahodd y claf i roi adborth ar wahanol agweddau ar ei ofal. Nid oedd fawr ddim gwahaniaeth mewn rhai meysydd ar draws byrddau iechyd. Er enghraifft, ni welwyd achosion lle canfuwyd gwahaniaethau arwyddocaol rhwng y canlyniadau ar gyfer unrhyw fwrdd iechyd unigol a chyfartaledd y byrddau iechyd yn y naill neu'r llall o'r cwestiynau a sgoriwyd yn ymwneud ag apwyntiadau cleifion allanol neu achos dydd. Yn yr un modd, ychydig o gwestiynau oedd â gwahaniaethau arwyddocaol rhwng byrddau iechyd unigol a chyfartaledd y byrddau iechyd mewn nifer o adrannau eraill. Roedd hyn yn cynnwys tri gwahaniaeth ar draws pum cwestiwn yn yr adran "Cyn eich diagnosis"; tri gwahaniaeth ar draws tri chwestiwn yn ymwneud â "Darganfod bod gennych ganser"; dau wahaniaeth mewn tri chwestiwn ynglŷn â "Llawdriniaeth"; ac un allan o ddau gwestiwn ar "Radiotherapi". Roedd tri gwahaniaeth arwyddocaol rhwng byrddau iechyd a'r cyfartaledd mewn pedwar cwestiwn mewn perthynas â "Nyrsys Clinigol Arbenigol"; roedd y rhain i gyd yn ymwneud ag a oedd gofal claf yn cynnwys mynediad at Nyrs Glinigol Arbenigol.

Fodd bynnag, lle deuir o hyd i'r nifer mwyaf o wahaniaethau arwyddocaol rhwng byrddau iechyd a'r cyfartaledd mae patrwm i'w weld: trigolion Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro sy'n sôn am y profiad mwyaf cadarnhaol, ac yna trigolion Bwrdd Addysgu Powys, trigolion Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan a thrigolion Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf. Mewn cyferbyniad, roedd trigolion Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg fel arfer yn sôn am brofiad oedd yn unol â neu ychydig yn is na chyfartaledd y byrddau iechyd. Yn gyffredinol, trigolion Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda oedd yn sôn am y profiad lleiaf cadarnhaol.

Yr adran sydd â'r gwahaniaethau mwyaf arwyddocaol yw'r adran "Eich Gofal GIG Cyffredinol". Yn yr adran hon mae BIP Caerdydd a'r Fro yn adrodd am brofiadau arwyddocaol fwy cadarnhaol ar bedwar cwestiwn; trafod cynllun gofal, cael trafodaeth ynglŷn â chymryd rhan mewn ymchwil i ganser, derbyn gwybodaeth yn eu dewis iaith a graddio eu gofal yn saith neu fwy allan o ddeg. Mae trigolion BIP Cwm Taf hefyd yn adrodd sgôr cadarnhaol uwch na'r cyfartaledd ar un cwestiwn yn yr adran hon: graddio gweinyddiad cyffredinol gofal.

Mewn cyferbyniad mae trigolion BIP Hywel Dda yn sôn am brofiad arwyddocaol waeth ar chwe chwestiwn yn yr adran gofal cyffredinol hon. Mae hyn yn cynnwys cwestiynau ynglŷn â chael cyfle i drafod anghenion a phryderon er mwyn llunio cynllun gofal; cael trafodaeth ynglŷn â chymryd rhan mewn ymchwil clinigol; adrodd bod gwahanol weithwyr proffesiynol a oedd yn gysylltiedig â thriniaeth a gofal wedi cydweithio'n dda; graddio gweinyddiad cyffredinol gofal; derbyn gwybodaeth yn eu dewis iaith; a chael eu trin fel person cyfan yn hytrach na set o symptomau. Mae trigolion BIP Betsi Cadwaladr yn sôn am brofiad mwy negyddol na'r cyfartaledd ar ddau gwestiwn; graddio gweinyddiad cyffredinol gofal a derbyn gwybodaeth yn eu dewis iaith. Mae mwyafrif y rheiny a ymatebodd yn Gymraeg yn byw yn ardal dalgylch BIP Betsi Cadwaladr neu BIP Hywel Dda.

Y tu allan i'r adran "Cyffredinol" mae'r cwestiynau fel arfer yn fwy penodol, ac felly nid ydynt yn annog ymatebwyr i grynhoi nifer o brofiadau – fel y gofynnir iddynt ei wneud yn y cwestiwn graddio cyffredinol er enghraifft. Felly, gall gwahaniaethau arwyddocaol yn y cwestiynau hyn roi darlun manylach o ble mae gofal ledled Cymru yn amrywio ar sail lle mae pobl yn byw. Mae rhai o'r gwahaniaethau mwyaf trawiadol i'w gweld yn y meysydd hyn:


- Esboniad o sgil-ffeithiau yn yr adran "Penderfynu ar y driniaeth a'r/neu'r gofal gorau ar eich cyfer". Mae cyfran arwyddocaol lai o drigolion BIP Hywel Dda yn dweud eu bod wedi cael gwybod am sgil-ffeithiau triniaeth a'r sgil-ffeithiau posibl yn y dyfodol. Mewn cyferbyniad, dywedodd cyfran arwyddocaol uwch o drigolion BIP Aneurin Bevan fod sgil-ffeithiau wedi eu hesbonio iddynt.
- Cael enw a manylion cyswllt ar gyfer Gweithiwr Allweddol. Roedd trigolion BIP Aneurin Bevan a BIP Cwm Taf yn arwyddocaol fwy tebygol na'r cyfartaledd i ddweud eu bod wedi cael manylion cyswllt Gweithiwr Allweddol. Roedd trigolion BIP Hywel Dda a BIP Betsi Cadwaladr yn arwyddocaol lai tebygol na'r cyfartaledd o ddweud hyn.
- Mynediad at Nyrs Glinigol Arbenigol. Roedd trigolion BIP Caerdydd a'r Fro a BIP Aneurin Bevan yn fwy tebygol na'r cyfartaledd i ddweud bod ganddynt fynediad at Nyrs Glinigol Arbenigol. Roedd trigolion BIP Hywel Dda yn arwyddocaol lai tebygol o ddweud hyn.

- Gwahaniaeth yn yr adran “Cefnogaeth i bobl sydd â chanser”. Roedd trigolion BIP Caerdydd a’r Fro a BIP Cwm Taf yn fwy tebygol na’r cyfartaledd i ddweud eu bod wedi derbyn y swm cywir o wybodaeth am grwpiau hunangymorth, eu bod wedi cael gwybod am gefnogaeth wirfoddol ac elusennol a’u bod wedi cael gwybodaeth gan staff am gymorth ariannol/budd-daliadau y gallent fod â hawl iddynt. Mewn cyferbyniad, roedd trigolion BIP Hywel Dda yn arwyddocaol lai tebygol o sôn am brofiad cadarnhaol ar ddau gwestiwn (derbyn y swm cywir o wybodaeth am grwpiau hunangymorth a thrafod gydag aelod o staff yr effaith y byddai canser yn ei gael ar eu bywyd o ddydd i ddydd) ac roedd trigolion BIP Betsi Cadwaladr yn arwyddocaol lai tebygol o sôn am brofiad mwy cadarnhaol na’r cyfartaledd ar ddau gwestiwn (derbyn y swm cywir o wybodaeth am grwpiau hunangymorth a chael gwybod am gefnogaeth wirfoddol ac elusennol).
- Derbyn gwybodaeth hawdd ei deall am lawdriniaeth. Roedd trigolion BIP Aneurin Bevan yn arwyddocaol fwy tebygol o ddweud hyn, lle roedd trigolion BIP Cwm Taf yn arwyddocaol lai tebygol o ddweud hynny.
- Derbyn gwybodaeth wrth adael ysbyty ar ôl arhosiad fel claf mewnol. Roedd trigolion BIP Abertawe Bro Morgannwg a BIP Betsi Cadwaladr yn arwyddocaol lai tebygol na’r cyfartaledd o deimlo eu bod wedi cael gwybodaeth ysgrifenedig glir ynglŷn â beth ddylent ac na ddylent ei wneud ar ôl gadael yr ysbyty, lle roedd trigolion BIP Aneurin Bevan yn arwyddocaol fwy tebygol o deimlo fel hyn. Yn yr un modd, roedd trigolion BIP Abertawe Bro Morgannwg yn arwyddocaol lai tebygol o deimlo eu bod wedi cael gwybod gyda phwy i gysylltu pe byddent yn bryderus ar ôl gadael yr ysbyty, lle roedd canlyniadau trigolion BIP Caerdydd a’r Fro a BIP Aneurin Bevan yn arwyddocaol uwch na’r cyfartaledd ar gyfer y cwestiwn hwn.
- Meddygon a nyrsys yn siarad o flaen cleifion fel pe baent ddim yno. Roedd trigolion BIP Hywel Dda yn arwyddocaol fwy tebygol o deimlo bod meddygon a nyrsys yn siarad o’u blaenau fel pe baent ddim yno o gymharu â’r cyfartaledd. Roedd trigolion BIP Aneurin Bevan yn arwyddocaol lai tebygol o deimlo fel hyn.
- Meddyg teulu yn cael yr holl wybodaeth sydd ei hangen i ofalu am glaf. Roedd trigolion BIP Hywel Dda a BIP Cwm Taf yn arwyddocaol lai tebygol na’r cyfartaledd o deimlo fel hyn. Roedd trigolion BIP Caerdydd a’r Fro yn arwyddocaol fwy tebygol.

Radiotherapi yng Nghymru

Mae dau gwestiwn yn adran yr holiadur sy'n ymwneud â radiotherapi. Mae un yn gofyn i'r ymatebwyr nodi lle cawsant radiotherapi – os o gwbl – ac mae'r llall yn gofyn iddynt ddweud a oeddent yn teimlo bod staff yr ysbyty wedi gwneud popeth y gallent i reoli sgil-ffeithiau'r radiotherapi hwnnw. O'r tri safle yng Nghymru lle dywedodd cleifion eu bod wedi cael radiotherapi, roedd y rheiny a aeth i Ysbyty Singleton yn arwyddocaol lai tebygol na'r cyfartaledd o ddweud eu bod yn teimlo bod staff wedi gwneud popeth y gallent i reoli eu sgil-ffeithiau.

Siart sgoriau cadarnhaol ar gyfer staff yn rheoli sgil-ffeithiau radiotherapi yn ôl safle ysbyty



Figur 40: C58 – Gwnaeth staff yn bendant bopeth i reoli sgil-ffeithiau radiotherapi yn ôl safle ysbyty

Ymddiriedolaeth GIG Felindre

Fel canolfan trin canser arbenigol, nid oes gan Ymddiriedolaeth GIG Felindre drigolion. Roedd yr Ymddiriedolaeth wedi trin llawer o gleifion a fydd wedi eu priodoli i'r byrddau iechyd yn yr adran flaenorol. Mae'r canfyddiadau yn yr adran hon yn edrych ar gleifion a ryddhawyd yn fwyaf diweddar o Felindre.

Data heb eu haddasu a ddefnyddir yma. I gael rhagor o wybodaeth am addasu a safoni data, gweler rhannau perthnasol Adran pedwar: Trosolwg o'r arolwg.

I gael manylion llawn y dadansoddiad, gweler Atodiad dau: Ymddiriedolaeth GIG Felindre.

Ar y cyfan derbyniodd Ymddiriedolaeth GIG Felindre adborth cadarnhaol iawn:

- Dywedodd bron yr holl gleifion (99%) a oedd wedi cael llawdriniaeth neu wedi cael eu trin fel claf mewnol yn Felindre eu bod “bob amser” wedi cael digon o breifatrwydd wrth gael eu harchwilio neu eu trin.
- Dywedodd y mwyafrif helaeth o'r cleifion (97%) fod eu hopsiynau o ran triniaeth wedi eu hesbonio iddynt cyn i'w triniaeth canser ddechrau.
- Graddiad cyffredinol: ni wnaeth 5% (un o bob ugain claf) raddio eu gofal cyffredinol yn saith neu fwy allan o ddeg.
- Gwybodaeth wrth ryddhau: dywedodd bron yr holl gleifion (95%) y cawsant wybod gyda phwy i gysylltu pe byddent yn bryderus ar ôl gadael yr ysbyty.
- O blith y cleifion a gafodd llawdriniaeth neu a gafodd driniaeth fel claf mewnol, dywedodd y mwyafrif helaeth fod ganddynt hyder ac ymddiriedaeth yn yr holl feddygon (95%) a'r holl nyrsys (93%) oedd yn eu trin.

Fodd bynnag, mae'r sgoriau hefyd yn dangos dau faes lle gallai'r Ymddiriedolaeth geisio gwella.

- Dim ond 20% (un o bob pump) o'r cleifion a ddywedodd eu bod wedi cael cynnig cynllun gofal ysgrifenedig. Dywedodd llai na thri o bob pum claf eu bod wedi cael cynnig y cyfle i drafod eu hanghenion a'u pryderon er mwyn llunio cynllun gofal.
- Cefnogaeth: dywedodd 50% (hanner) y cleifion fod staff ysbyty wedi trafod “yn llwyr” gyda hwy neu wedi rhoi gwybodaeth iddynt ynglŷn â'r effaith y gallai canser ei chael ar eu gweithgareddau o ddydd i ddydd.

Mae nifer y cleifion a fynychodd Felindre ac a lenwodd yr holiadur (1,780) yn caniatáu ar gyfer dadansoddiadau mewnol yn ôl grŵp tiwmor. Mae amlygu lle mae gwahaniaethau arwyddocaol ym mhrofiadau cleifion yn caniatáu i'r Ymddiriedolaeth dargedu meysydd ar gyfer gwella.

Er mwyn gweld dadansoddiad llawn o'r canlyniadau mae adroddiad wedi ei gynhyrchu ar gyfer Felindre. Mae rhai o'r amrywiannau mwyaf trawiadol ar draws grwpiau tiwmor wedi eu rhestru yma:

- Roedd cleifion cancer y prostad ar y cyfan yn sôn am brofiad gofal mwy cadarnhaol na'r cyfartaledd, gyda sgoriau'n arwyddocaol uwch ar wyth cwestiwn yn yr arolwg ac yn is dim ond ar un. Y cwestiwn y gwnaeth y grŵp cleifion hwn sôn am brofiad mwy negyddol yw'r un sy'n gofyn a oedd y claf wedi cael mynediad at NGA.
- Roedd cleifion cancer y fron fel petaent yn ymateb yn dda ar gwestiynau yn ymwneud â chefnogaeth. Roeddent yn arwyddocaol fwy tebygol na'r cyfartaledd o gael enw a manylion cyswllt Gweithiwr Allweddol ac roeddent yn arwyddocaol fwy tebygol na'r cyfartaledd o gael mynediad at NGA - gyda sgôr cadarnhaol o 95% ar y ddau gwestiwn hwn. Roeddent hefyd yn arwyddocaol fwy tebygol na'r cyfartaledd o ddweud eu bod wedi cael y swm cywir o wybodaeth am grwpiau cefnogi/hunangymorth ac yn arwyddocaol fwy tebygol o gael gwybod gyda phwy i gysylltu pe byddent yn bryderus ar ôl gadael yr ysbyty fel claf mewnol.

Dadansoddiad grŵp tiwmor

Mae'r adran hon yn cymharu canfyddiad ymatebwyr o'u gofal canser mewn perthynas â'u grŵp tiwmor a ddiagnoswyd.

Sylwch y defnyddiwyd sgoriau cadarnhaol unwaith eto fel offeryn cymharu.

Data heb eu haddasu a ddefnyddir yma. Golyga hyn, yn wahanol i'r data a ddefnyddir wrth gymharu byrddau iechyd, nad yw'r data wedi eu safoni.

Pan fo nifer yr ymatebion yn llai nag 20 mae'r canlyniadau wedi cael eu cuddio, a dynodir hyn â seren(*).

I weld rhestr lawn o'r canlyniadau, gan gynnwys meintiau sylfaen, dadansoddiadau canrannol a rhifol, gweler Atodiad naw.

Tabl grŵp tiwmor: Cyn eich diagnosis

Mae'r cwestiynau hyn yn ymwneud â beth ddigwyddodd cyn i gleifion ddarganfod bod ganddynt ganser.

C3+ – C5: Pob ymatebydd

C8+ - 10+: Ymatebwyr oedd wedi cael prawf diagnostig

	Cymru Gyfan	Ymennyd d / SNG	Bron	Colorefrol/ Gastrogoluddol Isaf	Gynaecol egol	Haematol egol	Pen a Gwddf	Ysgyfaint	Prostad	Sarcoma	Croen	Gastrogo luddol Uchaf	Wrolegol	Arall
C3+: Cyn diagnosis: Cleifion yr oedd eu meddyg teulu yn cymryd y symptomau'n gwbl o ddifrif	79	69	88	77	79	69	72	74	84	56	85	74	81	72
C4: Cyn diagnosis: Gwelwyd mor fuan ag oedd angen gan feddyg ysbyty	81	69	83	78	83	79	79	88	83	68	82	74	83	75
C5: Cyn diagnosis: Arhosodd iechyd yr un peth/gwelodd wrth aros am yr apwyntiad cyntaf gyda meddyg ysbyty	84	69	94	80	79	71	79	82	93	66	96	70	84	76
C8+: Cyn diagnosis: Beth fyddai'n cael ei wneud yn ystod prawf/profion yn cael ei esbonio'n llwyr	90	96	91	90	86	89	88	92	92	88	85	89	88	87
C9+: Cyn diagnosis: Derbyniwyd gwybodaeth ysgrifenedig am brawf/profion a oedd yn hawdd i'w deall	87	82	86	90	84	80	84	88	91	75	91	92	85	83
C10+: Cyn diagnosis: Canlyniad prawf/profion wedi ei esbonio'n llwyr	82	73	86	85	80	77	82	82	82	74	83	80	81	76

Ffigur 41: Tabl grŵp tiwmor ar gyfer beth ddigwyddodd cyn i gleifion ddarganfod bod ganddynt ganser (C3+ - C10+)

Mae'r ffigurau mewn gwyrdd yn dynodi bod y sgôr yn arwyddocaol well na'r sgôr cyffredinol ar draws pob grŵp tiwmor.

Mae'r ffigurau mewn coch yn dynodi bod y sgôr yn arwyddocaol waeth na'r sgôr cyffredinol ar draws pob grŵp tiwmor.

Tabl grŵp tiwmor: Darganfod bod gennych ganser

Mae'r cwestiynau hyn yn ymwneud â beth ddigwyddodd pan wnaeth cleifion ddarganfod bod ganddynt ganser.

Pob ymatebydd

	Cymru Gyfan	Ymennydd / SNG	Bron	Coloreffrol/ Gastrogoluddol Isaf	Gynaecol egol	Haematol egol	Pen a Gwddf	Ysgyfaint	Prostad	Sarcoma	Croen	Gastrogo luddol Uchaf	Wrolegol	Arall
C11: Darganfod bod gennych ganser: Dywedwyd yn sensitif bod ganddynt ganser	84	75	88	84	80	79	88	85	84	78	91	75	81	81
C12: Darganfod bod gennych ganser: Deallwyd yn llwyr yr esboniad o beth oedd o'i le	77	69	82	81	74	56	79	78	81	76	76	78	82	73
C13+: Darganfod bod gennych ganser: Derbyniwyd gwybodaeth ysgrifenedig hawdd i'w deall am eu math o ganser	66	52	69	62	57	68	62	60	80	42	75	61	67	52

Ffigur 42: Tabl grŵp tiwmor ar gyfer beth ddigwyddodd pan wnaeth cleifion ddarganfod bod ganddynt ganser (C11 - C13+)

Mae'r ffigurau mewn gwyrdd yn dynodi bod y sgôr yn arwyddocaol well na'r sgôr cyffredinol ar draws pob grŵp tiwmor.
Mae'r ffigurau mewn coch yn dynodi bod y sgôr yn arwyddocaol waeth na'r sgôr cyffredinol ar draws pob grŵp tiwmor.

Tabl grŵp tiwmor: Penderfynu ar y driniaeth a'r/neu'r gofal gorau ar eich cyfer

Mae'r cwestiynau hyn yn ymwneud â'r penderfyniadau a wnaed am y driniaeth neu'r gofal gorau.

Pob ymatebydd

	Cymru Gyfan	Ymennyd d / SNG	Bron	Coloreffrol/ Gastroglu ddol Isaf	Gynaecol egol	Haematol egol	Pen a Gwddf	Ysgyfaint	Prostad	Sarcoma	Croen	Gastrogo luddol Uchaf	Wrolegol	Arall
C14+: Cyn triniaeth: Dewisiadau triniaeth wedi eu hesbonio cyn iddi ddechrau	97	100	97	96	98	98	99	96	97	88	99	96	96	96
C15: Cyn triniaeth: Yn bendant wedi cymryd cymaint o ran mewn penderfynu ar ofal a thriniaeth	78	78	80	79	80	74	77	79	80	69	79	78	78	76
C16+: Cyn triniaeth: Yn bendant cafodd sgil-ffeithiau posibl y driniaeth eu hesbonio mewn ffordd ddealladwy	75	86	76	78	80	70	76	75	77	70	74	77	72	73
C17+: Cyn triniaeth: Derbyniwyd gwybodaeth ysgrifenedig hawdd i'w deall am sgil-ffeithiau triniaeth	81	77	86	82	81	75	78	79	85	67	72	87	75	78
C18+: Cyn triniaeth: Hysbyswyd yn bendant am sgil- ffeithiau posibl yn y dyfodol	56	68	58	57	58	45	57	55	66	52	60	56	52	51

Ffigur 43: Tabl grŵp tiwmor ar gyfer penderfyniadau a wnaed am y driniaeth neu'r gofal gorau (C14+ - C18+)

Mae'r ffigurau mewn **gwyrdd** yn dynodi bod y sgôr yn arwyddocaol well na'r sgôr cyffredinol ar draws pob grŵp tiwmor.

Mae'r ffigurau mewn **coch** yn dynodi bod y sgôr yn arwyddocaol waeth na'r sgôr cyffredinol ar draws pob grŵp tiwmor.

Tabl grŵp tiwmor: Gweithiwr Allweddol

Mae'r cwestiynau hyn yn ymwneud â Gweithwyr Allweddol.

C19: Pob ymatebydd

C20+ - 21+: Ymatebwyr oedd ag enw a manylion cyswllt Gweithiwr Allweddol

	Cymru Gyfan	Ymennyd d / SNG	Bron	Coloreffrol/ Gastrogol ddol Isaf	Gynaecol egol	Haematol egol	Pen a Gwddf	Ysgyfaint	Prostad	Sarcoma	Croen	Gastrogo luddol Uchaf	Wrolegol	Arall
C19: Gweithiwr Allweddol: Rhoddwyd enw a manylion cyswllt GA	86	84	94	88	89	78	92	93	85	78	75	92	67	84
C20+: Gweithiwr Allweddol: Fe'i cafwyd yn hawdd i gysylltu â'r GA	74	56	75	74	78	80	69	76	71	74	73	78	68	69
C21+: Gweithiwr Allweddol: Rhoddwyd atebion i gwestiynau naill ai drwy'r amser neu'r rhan fwyaf o'r amser	87	70	88	87	85	86	87	91	89	82	86	87	84	86

Ffigur 44: Tabl grŵp tiwmor ar gyfer Gweithwyr Allweddol (C19 - C21+)

Mae'r ffigurau mewn gwyrdd yn dynodi bod y sgôr yn arwyddocaol well na'r sgôr cyffredinol ar draws pob grŵp tiwmor.
Mae'r ffigurau mewn coch yn dynodi bod y sgôr yn arwyddocaol waeth na'r sgôr cyffredinol ar draws pob grŵp tiwmor.

Tabl grŵp tiwmor: Nyrs Glinigol Arbenigol

Mae'r cwestiynau hyn yn ymwneud â Nyrsys Clinigol Arbenigol

C22: Pob ymatebydd

C23+ - C25: Ymatebwyr oedd ag enw a manylion cyswllt Nyrs Glinigol Arbenigol

	Cymru Gyfan	Ymennydd / SNG	Bron	Coloreffrol/ Gastrogolu ddol Isaf	Gynaecol egol	Haematol egol	Pen a Gwddf	Ysgyfaint	Prostad	Sarcoma	Croen	Gastrogo luddol Uchaf	Wrolegol	Arall
C22: Nyrs Glinigol Arbenigol: Cafwyd mynediad at NGA	81	86	93	84	83	75	86	87	79	71	65	87	57	79
C23+: Nyrs Glinigol Arbenigol: Hawdd i gysylltu â'u NGA	63	*	59	65	68	75	45	55	70	*	*	*	59	64
C24+: Nyrs Glinigol Arbenigol: Rhoddwyd atebion dealladwy i gwestiynau naill ai drwy'r amser neu'r rhan fwyaf o'r amser	91	80	92	92	90	88	90	91	92	82	89	92	90	89
C25: Nyrs Glinigol Arbenigol: Derbyniwyd gwybodaeth gyflawn gan NGA i wneud penderfyniadau gwybodus am driniaeth a gofal	80	86	83	80	82	79	82	79	81	68	78	78	80	73

Ffigur 45: Tabl grŵp tiwmor ar gyfer Nyrsys Clinigol Arbenigol (C22 - C25)

Mae'r ffigurau mewn gwyrdd yn dynodi bod y sgôr yn arwyddocaol well na'r sgôr cyffredinol ar draws pob grŵp tiwmor.
Mae'r ffigurau mewn coch yn dynodi bod y sgôr yn arwyddocaol waeth na'r sgôr cyffredinol ar draws pob grŵp tiwmor.

Tabl grŵp tiwmor: Cefnogaeth i bobl sydd â chanser

Mae'r cwestiynau hyn yn ymwneud â chefnogaeth i gleifion pan fyddant yn dechrau eu triniaeth canser gyntaf.

Pob ymatebydd

	Cymru Gyfan	Ymennyd d / SNG	Bron	Coloreffrol/ Gastrogolu ddol Isaf	Gynaecol egol	Haematol egol	Pen a Gwddf	Ysgyfaint	Prostad	Sarcoma	Croen	Gastrogo luddol Uchaf	Wrolegol	Arall
C26: Cefnogaeth: Derbyniwyd y swm cywir o wybodaeth am grwpiau cefnogi/ hunangymorth	65	69	76	65	68	58	72	65	71	58	50	67	43	60
C27: Cefnogaeth: Fe'u hysbyswyd am gymorth gwirfoddol a chan elusennau	58	66	69	59	62	53	68	73	56	52	36	68	27	58
C28: Cefnogaeth: Trafododd neu darparodd y staff yn llawn wybodaeth ar effaith canser ar weithgareddau dydd-i-ddydd	45	49	51	43	44	43	54	45	47	44	43	49	32	38
C29+: Cefnogaeth: Rhoddwyd gwybodaeth gan staff ar gymorth ariannol/budd-daliadau y gallent fod â hawl iddynt	48	47	53	51	58	39	60	63	40	46	30	56	26	49

Ffigur 46: Tabl grŵp tiwmor ar gyfer pa gefnogaeth sydd ar gael i gleifion pan fyddant yn dechrau triniaeth canser (C26 - C29+)

Mae'r ffigurau mewn gwyrdd yn dynodi bod y sgôr yn arwyddocaol well na'r sgôr cyffredinol ar draws pob grŵp tiwmor.
Mae'r ffigurau mewn coch yn dynodi bod y sgôr yn arwyddocaol waeth na'r sgôr cyffredinol ar draws pob grŵp tiwmor.

Tabl grŵp tiwmor: Llawdriniaethau

Mae'r cwestiynau hyn yn ymwneud ag unrhyw lawdriniaeth y gallai cleifion fod wedi ei chael mewn perthynas â'u triniaeth cancer.

Ymatebwyr a gafodd lawdriniaeth ar gyfer eu cancer

	Cymru Gyfan	Ymennydd / SNG	Bron	Colorefrol/ Gastrologu ddol Isaf	Gynaecol egol	Haematol egol	Pen a Gwddf	Ysgyfaint	Prostad	Sarcoma	Croen	Gastrogo luddol Uchaf	Wrolegol	Arall
C32+: Llawdriniaethau: Esboniodd staff yn llwyr beth fyddai'n cael ei wneud yn ystod y llawdriniaeth	88	86	90	85	86	82	90	87	89	82	88	90	90	86
C33+: Llawdriniaethau: Derbyniwyd gwybodaeth ysgrifenedig hawdd i'w deall am y llawdriniaeth	74	57	78	69	71	67	64	63	88	46	72	73	79	66
C34+: Llawdriniaethau: Derbyniwyd esboniad llawn a dealladwy gan staff ar sut yr aeth y llawdriniaeth rhagddi	80	79	82	78	81	70	84	82	81	68	87	85	76	78

Figur 47: Tabl grŵp tiwmor ar gyfer llawdriniaethau y gallai cleifion fod wedi eu cael (C32+ - C34+)

Mae'r ffigurau mewn gwyrdd yn dynodi bod y sgôr yn arwyddocaol well na'r sgôr cyffredinol ar draws pob grŵp tiwmor.

Mae'r ffigurau mewn coch yn dynodi bod y sgôr yn arwyddocaol waeth na'r sgôr cyffredinol ar draws pob grŵp tiwmor.

Tabl grŵp tiwmor: Gofal ysbyty fel claf mewnol

Mae'r cwestiynau hyn yn ymwneud ag unrhyw arhosiad claf mewnol yn yr ysbyty mewn perthynas â thriniaeth chanser.

Ymatebwyr oedd wedi cael llawdriniaeth neu wedi aros dros nos ar gyfer eu gofal canser

	Cymru Gyfan	Ymennyd d / SNG	Bron	Coloreffrol/ Gastrogolu ddol Isaf	Gynaecol egol	Haematol egol	Pen a Gwddf	Ysgyfaint	Prostad	Sarcoma	Croen	Gastrogo luddol Uchaf	Wrolegol	Arall
C37: Claf mewnol: Triniwyd ag urddas a pharch bob amser tra roedd yn yr ysbyty	89	93	93	86	86	89	87	87	92	84	94	92	88	84
C38: Claf mewnol: Nid oedd meddygon a nyrsys yn siarad o flaen cleifion fel pe baent ddim yno	83	74	91	79	86	78	85	74	87	73	83	84	79	78
C39: Claf mewnol: Nid oedd staff yn gwrth-ddweud ei gilydd	82	74	86	80	82	79	78	78	88	67	85	77	83	74
C40+: Claf mewnol: Roedd yn gallu trafod pryderon/ofnau gymaint ag y dymunai gyda staff	67	72	72	65	69	66	71	62	78	56	71	66	64	56
C41+: Claf mewnol: Deallwyd atebion i gwestiynau a roddwyd gan feddygon neu nyrsys drwy'r amser neu'r rhan fwyaf o'r amser	84	79	89	83	81	82	85	77	87	71	88	85	78	79
C42+: Claf mewnol: Cafodd y teulu ddigon o gyfle yn bendant i siarad â gweithiwr iechyd proffesiynol	66	81	69	64	62	69	67	64	70	70	72	73	57	62
C43: Claf mewnol: Roedd ganddo hyder ac ymddiriedaeth yn yr holl feddygon	89	85	92	89	90	90	90	86	92	82	94	89	89	82

Ffigur 48: Tabl grŵp tiwmor ar gyfer arhosiad claf mewnol yn yr ysbyty (C37 – C43)

Mae'r ffigurau mewn gwyrdd yn dynodi bod y sgôr yn arwyddocaol well na'r sgôr cyffredinol ar draws pob grŵp tiwmor.
Mae'r ffigurau mewn coch yn dynodi bod y sgôr yn arwyddocaol waeth na'r sgôr cyffredinol ar draws pob grŵp tiwmor.

	Cymru Gyfan	Ymennyd d / SNG	Bron	Coloreffrol/ Gastrologu ddol Isaf	Gynaecol egol	Haematol egol	Pen a Gwddf	Ysgyfaint	Prostad	Sarcoma	Croen	Gastrogo luddol Uchaf	Wrolegol	Arall
C44: Claf mewnol: Roedd ganddo hyder ac ymddiriedaeth yn yr holl nyrsys	81	85	85	77	74	79	80	81	88	74	92	79	79	74
C45+: Claf mewnol: Derbyniodd gymorth o fewn 5 munud pan ddefnyddiwyd y botwm galw	89	*	93	87	85	89	85	91	91	89	*	94	86	85
C46: Claf mewnol: Cyfathrebodd meddygon a nyrsys yn effeithiol bob tro	80	81	86	80	78	80	77	77	85	78	88	80	74	75
C47: Claf mewnol: Roedd ganddo ddigon o breifatrwydd bob tro wrth drafod ei gyflwr	85	74	89	83	82	83	84	82	90	84	87	87	85	79
C48: Claf mewnol: Roedd ganddo ddigon o breifatrwydd bob tro wrth gael ei archwilio neu ei drin	95	96	96	95	95	95	92	93	94	93	94	97	95	92
C49+: Claf mewnol: Gwnaeth staff bopeth i reoli poen drwy'r amser	87	80	93	87	81	85	85	83	92	83	93	89	82	84
C50+: Claf mewnol: Derbyniodd wybodaeth ysgrifenedig glir ar beth ddylid neu na ddylid ei wneud wedi gadael yr ysbyty	84	84	91	82	83	79	87	80	89	76	95	79	80	77
C51: Claf mewnol: Dywedwyd wrtho â phwy i gysylltu os bydd yn bryderus wedi gadael yr ysbyty	92	96	96	93	88	95	96	93	94	88	96	89	87	87

Figur 49: Tabl grŵp tiwmor ar gyfer arhosiad claf mewnol yn yr ysbyty (C44 – C51)

Mae'r ffigurau mewn gwyrdd yn dynodi bod y sgôr yn arwyddocaol well na'r sgôr cyffredinol ar draws pob grŵp tiwmor.
Mae'r ffigurau mewn coch yn dynodi bod y sgôr yn arwyddocaol waeth na'r sgôr cyffredinol ar draws pob grŵp tiwmor.

Tabl grŵp tiwmor: Apwyntiadau cleifion allanol/achos dydd

Mae'r cwestiynau hyn yn ymwneud ag unrhyw apwyntiad claf allanol neu achos dydd mewn perthynas â thriniaeth canser.

Ymatebwyr a gafodd apwyntiad claf allanol neu achos dydd

	Cymru Gyfan	Ymennyd d / SNG	Bron	Coloreffrol/ Gastrogolu ddol Isaf	Gynaecol egol	Haematol egol	Pen a Gwddf	Ysgyfaint	Prostad	Sarcoma	Croen	Gastrogo luddol Uchaf	Wrolegol	Arall
C54+: Claf allanol/Achos Dydd: Gwnaeth y staff bopeth yn bendant i reoli poen	86	*	87	87	85	91	91	81	88	75	85	88	81	85
C55+: Claf allanol/Achos Dydd: Derbyniwyd digon o gefnogaeth emosynol yn bendant gan staff	78	70	79	78	80	77	80	76	81	69	83	78	74	75

Figur 50: Tabl grŵp tiwmor ar gyfer apwyntiad claf allanol neu achos dydd (C54+ - C55+)

Mae'r ffigurau mewn **gwyrdd** yn dynodi bod y sgôr yn arwyddocaol well na'r sgôr cyffredinol ar draws pob grŵp tiwmor.

Mae'r ffigurau mewn **coch** yn dynodi bod y sgôr yn arwyddocaol waeth na'r sgôr cyffredinol ar draws pob grŵp tiwmor.

Tabl grŵp tiwmor: Radiotherapi/cemotherapi

Mae'r cwestiynau hyn yn ymwneud ag unrhyw radiotherapi neu gemotherapi y gallai cleifion fod wedi ei gael.

C58+: Ymatebwyr a gafodd radiotherapi

C61+: Ymatebwyr a gafodd gemotherapi

	Cymru Cyfan	Ymennyd d / SNG	Bron	Coloreffrol/ Gastrogolu ddol Isaf	Gynaecol egol	Haematol egol	Pen a Gwddf	Ysgyfaint	Prostad	Sarcoma	Croen	Gastrogo luddol Uchaf	Wrolegol	Arall
C58+: Radiotherapi: Gwnaeth staff yn bendant bopeth i reoli sgil-ffeithiau radiotherapi	83	81	83	89	90	-	85	81	84	77	75	81	81	79
C61+: Cemotherapi: Yn bendant, gwnaeth staff bopeth i reoli sgil-ffeithiau cemotherapi	87	72	87	89	91	89	87	84	82	81	*	90	78	85

Figur 51: Tabl grŵp tiwmor ar gyfer radiotherapi/cemotherapi (C58+ - C61+)

Mae'r ffigurau mewn gwyrdd yn dynodi bod y sgôr yn arwyddocaol well na'r sgôr cyffredinol ar draws pob grŵp tiwmor.

Mae'r ffigurau mewn coch yn dynodi bod y sgôr yn arwyddocaol waeth na'r sgôr cyffredinol ar draws pob grŵp tiwmor.

Tabl grŵp tiwmor: Trefnu cefnogaeth gartref

Mae'r cwestiynau hyn yn ymwneud â chefnogaeth gartref yn cael ei threfnu pan ddychwelodd claf adref o'r ysbyty yn dilyn ei ofal am ganser.

Pob ymatebydd

	Cymru Gyfan	Ymennyd d / SNG	Bron	Colorefrol/ Gastrogolu ddol Isaf	Gynaecol egol	Haematol egol	Pen a Gwddf	Ysgyfaint	Prostad	Sarcoma	Croen	Gastrogo luddol Uchaf	Wrolegol	Arall
C62+: Cefnogaeth gartref: Rhoddwyd digon o wybodaeth yn bendant i deulu i ofalu gartref	61	62	61	64	61	63	72	60	59	57	65	60	56	57
C63: Cefnogaeth gartref: Cynigiwyd cyngor ymarferol yn bendant am ddelio â sgil- effeithiau'r driniaeth	59	58	63	62	58	57	72	56	58	56	54	62	49	52
C64+: Cefnogaeth gartref: Yn bendant, rhoddwyd digon o ofal a chymorth gan y meddyg teulu wedi gadael yr ysbyty	56	38	56	58	59	55	52	60	58	44	68	52	54	50
C65: Cefnogaeth gartref: Roedd gan y meddyg teulu yr holl wybodaeth ofynnol ar gyfer gofal	91	89	94	93	90	90	89	90	92	88	93	88	91	90
C66+: Cefnogaeth gartref: Yn bendant, rhoddwyd digon o ofal a chymorth gan wasanaethau iechyd neu gymdeithasol	59	*	63	70	55	50	62	54	56	52	66	61	48	57

Figur 52: Tabl grŵp tiwmor ar gyfer cefnogaeth gartref yn cael ei threfnu ar gyfer claf (C62+ - C66+)

Mae'r ffigurau mewn gwyrdd yn dynodi bod y sgôr yn arwyddocaol well na'r sgôr cyffredinol ar draws pob grŵp tiwmor.
Mae'r ffigurau mewn coch yn dynodi bod y sgôr yn arwyddocaol waeth na'r sgôr cyffredinol ar draws pob grŵp tiwmor.

Tabl grŵp tiwmor: Eich gofal GIG cyffredinol

Mae'r cwestiynau hyn yn ymwneud â phrofiad cyffredinol cleifion o'r gofal y gwnaethant ei dderbyn gan y GIG.

Pob ymatebydd

	Cymru Gyfan	Ymennydd / SNG	Bron	Coloreffrol/ Gastrologu ddol Isaf	Gynaecol egol	Haematol egol	Pen a Gwddf	Ysgyfaint	Prostad	Sarcoma	Croen	Gastrogo luddol Uchaf	Wrolegol	Arall
C67: Yn gyffredinol: Cynigiwyd y cyfle i drafod anghenion a phryderon i ddatblygu cynllun gofal	48	50	53	51	48	43	69	47	47	40	37	53	34	46
C68: Yn gyffredinol: Cynigiwyd cynllun gofal ysgrifenedig	18	13	24	19	16	16	34	20	14	18	8	15	12	18
C69: Yn gyffredinol: Cafwyd trafodaeth am gymryd rhan mewn ymchwil cancer	23	24	20	24	26	34	23	32	25	16	7	20	9	30
C70: Yn gyffredinol: Gweithiodd gwahanol weithwyr iechyd proffesiynol yn dda gyda'i gilydd bob tro i roi'r gofal gorau posibl	71	61	71	70	69	75	73	71	75	57	74	67	70	67
C71: Yn gyffredinol: Graddiwyd gweinyddu'r gofal fel da neu dda iawn	90	88	93	89	91	91	91	89	89	84	89	86	85	88
C72: Yn gyffredinol: Derbyniwyd gwybodaeth yn eu dewis iaith	96	97	96	96	94	96	98	95	96	92	98	97	96	97
C73: Yn gyffredinol: Nid oedd yn teimlo fel "set o symptomau cancer"	81	82	82	82	81	83	86	76	84	78	91	78	82	76
C74+: Yn gyffredinol: Graddiwyd y profiad o ofal yn 7/10 neu fwy	93	88	95	92	95	94	95	93	95	83	94	90	90	91

Figur 53: Tabl grŵp tiwmor ar gyfer profiad cyffredinol o ofal (C67+ - C74+)

Mae'r ffigurau mewn gwyrdd yn dynodi bod y sgôr yn arwyddocaol well na'r sgôr cyffredinol ar draws pob grŵp tiwmor.

Mae'r ffigurau mewn coch yn dynodi bod y sgôr yn arwyddocaol waeth na'r sgôr cyffredinol ar draws pob grŵp tiwmor.

Adran wyth:

Cyfleoedd i wella



Canolbwyntio'r gwelliant

Bwriad rhaglen APCCC yw ysgogi gwelliannau i wasanaethau cancer ar lefel leol a chenedlaethol. Mae'r wybodaeth yn yr adran hon yn dangos meysydd lle mae'r ymatebwyr yn dweud bod gwasanaethau cancer yng Nghymru yn arbennig o dda a lle maent yn teimlo y gallai fod lle i wella.

◦ Sgoriau cadarnhaol wedi eu graddio

Mae hyn yn ystyried profiad cleifion ar draws y llwybr gofal er mwyn penderfynu ar y canlyniadau cenedlaethol gorau a gwaethaf, gan ddangos lle mae cleifion yn sôn am brofiad mwy cadarnhaol neu lai cadarnhaol.

◦ Cymariaethau hanesyddol

Mae'r arolwg hwn wedi mynd drwy broses ailgynllunio eang ers ei gyflwyno ddiwethaf yn 2013, felly mae dadansoddiad hanesyddol yn gyfyngedig. Fodd bynnag, mae rhai pynciau lle gellir gwneud cymariaethau uniongyrchol.

◦ Themâu yn sylwadau'r ymatebwyr


Roedd yr holiadur yn cynnwys tri chwestiwn testun rhydd lle gallai ymatebwyr ddarparu data ansoddol ar bynciau sy'n bwysig iddynt hwy. Yma rydym yn edrych ar themâu mynych er mwyn dirnad blaenoriaethau'r ymatebwyr o ran triniaeth.

I gael rhagor o wybodaeth neu gymorth i ddeall eich canlyniadau, cysylltwch â Thîm Adborth Cleifion Picker yn: PatientFeedbackTeam@PickerEurope.ac.uk.

Sgoriau cadarnhaol wedi eu graddio


Mae'r adran hon yn dangos y cwestiynau y rhoddodd ymatebwyr yr ymatebion mwyaf a lleiaf cadarnhaol iddynt. Gallai canolbwyntio ar feysydd gyda sgoriau cadarnhaol is wella profiad ar gyfer cyfran fawr o'ch cleifion. I gael rhestr lawn o'r sgoriau cadarnhaol wedi eu graddio, gweler Atodiad chwech. Sylwch mai **data heb eu haddasu** yw'r rhain.

Deg sgôr mwyaf cadarnhaol



Figur 54: Deg sgôr mwyaf cadarnhaol

Deg sgôr lleiaf cadarnhaol



Figur 55: Deg sgôr lleiaf cadarnhaol

Cymariaethau hanesyddol

Ni ellir cymharu perfformiad ar draws gwahanol arolygon oni bai y gofynnir yr un cwestiynau yn union, oherwydd bydd unrhyw newid i destun y cwestiwn neu'r dewisiadau ymateb yn dylanwadu ar sut y mae ymatebwyr yn ei ateb. Diben cymharu cwestiynau dros amser yw gweld a fu unrhyw newid mewn perfformiad dros y cyfnod hwnnw. Fodd bynnag, bydd cymharu sgoriau cwestiynau sydd wedi'u haddasu nid yn unig yn cymharu'r newid mewn perfformiad ar ddwy adeg wahanol ond hefyd effaith y newid hwn, gan ei gwneud hi'n amhosibl mesur perfformiad yn fanwl gywir.

Mae hyn yn berthnasol nid yn unig i eiriad y cwestiwn ond hefyd i'r carfanau sy'n ei ateb. Er enghraifft, os oedd cwestiwn wedi cael ei ateb yn flaenorol gan bawb sy'n ymateb i holiadur, ond ei fod nawr yn dilyn cwestiwn llwybro, mae'r grŵp sy'n ateb y cwestiwn wedi newid ac felly ni ellir cymharu'r canlyniadau.


Dim ond deg o'r cwestiynau a gadwyd o arolwg 2013 sydd heb newidiadau o'r math yma, ac felly'n rhai y gellir eu cymharu.

Fodd bynnag, mae'n rhaid bod yn ofalus o hyd wrth drin unrhyw gasgliadau y deuir iddynt o'r cymariaethau. Er mai'r un cwestiynau â rhai 2013 ydynt, maent yn ymddangos mewn holiadur sydd wedi'i newid yn fawr. Mae'n anodd mesur yr effaith y bydd hyn yn ei chael ar ymatebwyr ond mae'n debygol y bydd yn dylanwadu ar sut y caiff y cwestiynau eu hateb.

■ Sgôr cadarnhaol 2015

✕ Sgôr cadarnhaol 2013

Siart sgoriau cadarnhaol ar gyfer cymharu hanesyddol: C4, C5, C11, C12, C13+




Ffigur 56: Siart sgoriau cadarnhaol ar gyfer cymhariaeth hanesyddol (C4, C5, C11, C12, C13+)

■ Sgôr cadarnhaol 2015

✗ Sgôr cadarnhaol 2013

Siart sgoriau cadarnhaol ar gyfer cymharu hanesyddol: C15, C16+, C18+, C29+, C73



Figur 57: Siart sgoriau cadarnhaol ar gyfer cymhariaeth hanesyddol (C15, C16+, C18+, C29+, C73)

Themâu yn sylwadau'r ymatebwyr

Mae cwestiynau penagored yr arolwg yn rhoi cyfle i ymatebwyr ymhelaethu ar agweddau ar eu profiad o ofal cancer yng Nghymru. Mae eu sylwadau testun rhydd yn ffynhonnell ddata gyfoethog a all ategu a chynnig mewnwelediad pellach i ganlyniadau meintiol yr arolwg.

Caniaatodd APCCC 2016 i gleifion ystyried pob agwedd ar eu gofal cancer, o'r cyfnod cyn diagnosis i driniaeth ac ôl-ofal. Gofynnodd yr adran testun rhydd dri chwestiwn: "A oedd unrhyw beth yn arbennig o dda am eich gofal?"; "A oedd unrhyw beth y gellid ei wella?"; ac "Unrhyw sylwadau eraill?". Nid oedd y cwestiynau hyn wedi'u cysylltu'n uniongyrchol ag unrhyw ran benodol o'r llwybr gofal cancer a gallai ymatebwyr ddewis yn annibynnol a oeddent am ganolbwyntio ar elfen benodol neu ddarparu mewnwelediad ar y broses gyffredinol.


Mae'r canlyniadau a adroddir isod yn rhoi dadansoddiad lefel uchel sy'n amlygu'r prif themâu ar draws sylwadau'r holl ymatebwyr. I gael mewnwelediad lleoledig manylach, gweler adroddiadau unigol y byrddau iechyd a'r ymddiriedolaeth.

Mae'r holl ddyfyniadau yn yr adran hon wedi eu cyflwyno air am air.


Gweler Atodiad saith am fanylion y dull methodolegol a ddefnyddir wrth roi sylwadau ymatebwyr mewn themâu.

Demograffeg yr ymatebwyr

Ymatebodd 68% o'r ymatebwyr (4,588 o bobl) i o leiaf un o'r cwestiynau testun rhydd. Rhoddodd canran ychydig yn uwch o fenywod (53%) ymateb testun rhydd o gymharu â dynion (47%). Darparwyd y mwyafrif o'r sylwadau gan garfan hŷn, gyda 51% ohonynt dros 70 oed.



Ffigur 58: Rhaniad rhyw testun rhydd



Ffigur 59: Rhaniad oedran testun rhydd

Themâu allweddol

Darparodd 4,588 o bobl 8,893 o sylwadau a oedd yn cynnwys 16,549 o ddatganiadau unigol. Roedd mwyafrif y sylwadau (10,025, 61%) yn gadarnhaol. Roedd y sylwadau hyn, er yn aml yn ganmoliaethus iawn, yn tueddu i fod yn fyr ac yn gyffredinol yn eu canmoliaeth i wasanaethau cancer ledled Cymru.

Roedd ychydig dros un o bob tri (6,324, neu 38%) o'r sylwadau yn negyddol, gan nodi anfodlonrwydd gyda rhyw elfen o driniaeth neu ofal, ac roedd y sylwadau hyn ar y cyfan yn fwy penodol yn eu beirniadaeth. Roeddent yn tueddu i fynegi anfodlonrwydd gyda digwyddiad penodol yn ymwneud â gofal neu weithdrefn. Ychydig iawn oedd yn feirniadol o'u profiad cyfan. Dewisodd 115 o bobl (1%) gynnig awgrymiadau ar gyfer gwella, a gellir gweld y rhain yn adroddiadau unigol y byrddau iechyd ac ymddiriedolaeth. Roedd 85 sylw (1%) yn niwtral.

Cynhwysir enghreifftiau o sylwadau'r ymatebwyr gyda'r drafodaeth o'r themâu: ailadroddir y rhain air am air er mwyn adlewyrchu orau lais yr ymatebwyr unigol.

Themâu cadarnhaol

Amlygodd dadansoddiad o'r sylwadau cadarnhaol a wnaed gan gleifion ynglŷn â'u gofal a thriniaeth bedair prif thema:

1. Ansawdd gofal a thriniaeth gan staff
2. Sut y cafodd gwasanaethau eu trefnu a'u cydgysylltu
3. Profiadau gofal yn ymwneud ag elfennau penodol o driniaeth
4. Mynegi cydnabyddiaeth a diolch

1. Ansawdd gofal a thriniaeth gan staff

Roedd mwyafrif y sylwadau cadarnhaol yn ymwneud â phrofiad cyffredinol cleifion ac yn canmol y gofal a'r driniaeth a ddarparwyd gan staff. Yn benodol, amlygodd y sylwadau safon gyffredinol y gofal a phroffesiynoldeb ac ymrwymiad staff; ceir trafodaeth bellach ar y sylwadau yn y themâu hyn isod.

"Gwnaeth holl staff yr ysbyty fy nhrin ag empathi, fel petawn i'n aelod o'u teulu nhw. Allwn i ddim fod wedi dymuno gwell triniaeth. Y teimlad ges i oedd nad oedd dim yn ormod o drafferth iddyn nhw." – Menyw, 52 oed

"Roedd staff y GIG yn eithriadol, ni allaf ganmol digon arnynt." – Menyw, 63 oed

Profiad cyffredinol

Roedd sylwadau'n adlewyrchu teimlad cleifion bod eu profiad o ofal ysbyty wedi bodloni, ac yn aml wedi rhagori ar, eu disgwyliadau. Roeddent yn adlewyrchu ymdeimlad cyffredinol bod y system yn gweithio'n dda. Yn aml roeddent yn canmol yn frwd ansawdd y driniaeth a'r gofal a dderbyniwyd ganddynt ac yn dangos hyder eu bod wedi bod mewn dwylo diogel.

"Roeddwn i'n teimlo bod yr holl ofal a dderbyniais yn wych ac yn deyrnged i'r system gofal iechyd." – Dyn, 59 oed

"Mae'r holl weithwyr gofal iechyd proffesiynol a welais wedi bod yn ardderchog a chefais fy mhlesio gan lefel yr ôl-ofal a ddarperir." – Dyn, 54 oed

"Ni allai [enw wedi'i ddileu], ei staff, y myfyriwr, y fferylllydd yn ysbyty [enw wedi'i ddileu] wedi bod yn fwy gwybodus a pharod eu cymorth. Amyneddgar a chysurlon bob amser. Mae [enw wedi'i ddileu] wedi parhau i ffonio'n rheolaidd – gwerthfawrogir hyn yn fawr." – Dyn, 78 oed

“Roeddwn i’n teimlo bod y driniaeth a’r staff yn [enw wedi’i ddileu] yn rhagorol. Roedd popeth yn gadarnhaol ac yn galonogol iawn.” – Menyw, 68 oed

Proffesiynoldeb ac ymrwymiad staff

Roedd sylwadau yn aml yn cyfeirio at y tosturi a’r gofal a ddangoswyd tuag at gleifion a’u teuluoedd, a sut yr oeddent yn teimlo bod y staff wedi “mynd yr ail filltir”. Roedd cydnabyddiaeth bod staff yn aml dan bwysau sylweddol ond serch hynny roeddent wedi ymrwymo i ddarparu’r gofal gorau posibl.

“Roedd pob person y gwnes ddod ar ei draws, o’r porthorion a gweithwyr y dderbynfa i’r nyrsys a’r meddygon, yn arbennig o garedig a sensitif a gwnaed i mi deimlo y gallwn ofyn cwestiynau ar unrhyw adeg. Ni allaf weld bai o gwbl ar y gofal a gefais.” – Menyw, 46 oed

“Roedd staff yn adran gofal y fron [enw wedi’i ddileu] a’r adran radiotherapi yn ardderchog er eu bod dan bwysau oherwydd nifer y cleifion.” – Menyw, 68 oed

“Ni allaf weld unrhyw fai ar sut rydw i wedi cael fy nhrin gan holl staff yr ysbyty, o’r meddygon ymgynghorol i’r glanhawyr, ers i mi gael diagnosis cancer.” – Dyn, 83

“Mae’r staff wedi bod yn rhagorol, yn ddi-fai – parod eu cymorth, tosturiol a gofalgar. Diolch.” – Dyn, 55 oed

“Mae’r holl ofal a dderbyniais gan yr holl staff yn [enw wedi’i ddileu] wedi bod yn wirionedd ragorol, sy’n eich helpu chi i deimlo’n ddiogel a’ch bod yn cael y driniaeth orau bosibl. Yn sicr mae pawb yn [enw wedi’i ddileu] yn mynd yr ail filltir ar ran eu cleifion.” – Menyw, 55 oed

Pwysleisiodd llawer o’r ymatebwyr y lefel uchel o garedigrwydd ac empathi y gwnaethant ei brofi. Mae hyn dangos pa mor bwysig yw bod staff sy’n cefnogi cleifion â chanser yn dosturiol. Yn aml canmolwyd aelodau staff allweddol am chwarae rôl hollbwysig mewn sicrhau bod cleifion yn teimlo y gofalwyd amdanynt fel unigolion.

“O’r diagnosis gwreiddiol yn [enw wedi’i ddileu] roedd y gofal yn gwbl wych. Nid oedd unrhyw oedi ac roedd y staff ar bob lefel yn gyfeillgar a thosturiol.” – Dyn, 74 oed

“Roedd y sylw a roddwyd gan y staff nyrsio yn ystod cemotherapi a radiotherapi yn rhagorol pryd bynnag y byddai angen i mi ddefnyddio’r galwr cemotherapi. Ymdriniwyd â’m pryderon gyda chydymdeimlad a rhoddwyd cyngor. Roedd y nyrs oncoleg yn rhagorol gan ddangos empathi ac yn barod gydag atebion i unrhyw un o fy mhryderon niferus.” – Menyw, 76 oed

“Mae’r gofal a dderbyniais, ac yr wyf yn dal i’w dderbyn, wedi bod o’r radd flaenaf ym mhob agwedd, mae’r broses triniaeth yn ddi-fai. Cefais fy nhrin gyda pharch, caredigrwydd ac yn fwyaf oll dangoswyd y gofal mwyaf tuag ataf gan yr holl staff meddygol - meddygon ymgynghorol, staff nyrsio a fy

ngweithiwr allweddol Macmillan, ac ni allaf ganmol digon arnynt.” – Dyn, 71 oed

“Roedd fy nhriniaeth yn rhyfeddol o dda. Cefais brawf mamograffeg, profion gwaed, uwchsgan, biopsi i gyd o fewn ychydig oriau yn bron brawf Cymru [enw wedi'i ddileu]. Roedd hi'n oer iawn wedi'r llawfeddygaeth ac ymatebodd y staff nyrso ar unwaith gyda blancedi ychwanegol, diodydd poeth a thost gyda menyn. Gwnaeth yr holl staff i mi deimlo'n arbennig a gwnaethant ymddwyn yn gwbl briodol tuag ataf. Da iawn wir.” – Menyw, 74 oed

2. Trefniadaeth gwasanaethau

Cyflymder ac effeithlonrwydd proses

Dywedodd llawer o'r ymatebwyr, cyn gynted ag y cafodd eu cancer ei ddiagnosisio, fod y broses driniaeth gyffredinol yn gyflym ac yn teimlo'n effeithlon.

“Y cyflymder y digwyddodd pethau o ddiagnosis yn cael ei gadarnhau i lawdriniaeth i dynnu'r cancer.” – Dyn, 74 oed

“Roedd y cyflymder a'r proffesiynoldeb a brofais yn rhagorol. Cefais wybod popeth ar bob cam a chefais hefyd roi fy mewnbwn fy hun.” – Menyw, 64 oed

“Ar bob adeg cefais fy nhrin yn brydlon ac yn effeithlon a gyda pharch ac urddas llwyr.” – Dyn, 63 oed

“Cefais fy nhrin yn gyflym. Dywedodd pob gweithiwr proffesiynol oedd yn rhan o'r broses wrthyf beth oedd y cam nesaf yn fy nhriniaeth. Dywedwyd wrthyf am bob canlyniad wrth iddynt ddigwydd. Gwnaethant arbed fy mywyd.” – Menyw, 54 oed

Roedd gofal prydlon ac effeithlon yn galonddid i lawer o'r ymatebwyr. Roedd cael diagnosis a thriniaeth yn gyflym yn rhoi hyder iddynt y byddai'r canlyniadau gorau i'r driniaeth yn cael eu cyflawni.

“Cafodd cancer y bledren ei drin yn gyflym a chafodd ei ddilyn i fyny bob 6 mis, nawr yn flynyddol. Mae'n rhoi tawelwch meddwl i rywun.” – Menyw, 80 oed

“Cymerodd tua mis o adeg y diagnosis i gael llawdriniaeth. Rydw i'n teimlo mor lwcus.” – Menyw, 63 oed

“Mae triniaeth brydlon, ofalgar yn gwneud i mi deimlo'n hyderus yn y gofal, y driniaeth a'r sesiynau dilynol rydw i'n eu cael.” – Menyw, 69 oed

“Roedd y cyfnod o'r driniaeth gyntaf i'r olaf yn eithaf byr a gwnaeth hyn lawer i leihau'r straen a'r pryder.” – Menyw, 69 oed

“Rhoddodd cyflymder a phroffesiynoldeb y modd y cefais fy nhrin lawer o hyder i mi fy mod yn y dwylo cywir i ddelio â’m cancer.” – Dyn, 62 oed

“O’r tro cyntaf i mi weld fy meddyg i’r llawdriniaeth a’r gofal yn yr ysbyty, cefais fy nhrin yn dda iawn a chydag urddas. Roedd y broses o ddarganfod i’r llawdriniaeth yn gyflym iawn a helpodd hyn i dawelu fy mhryderon gwreiddiol.” – Menyw, 59 oed

Gofal ‘wedi’i gydgyssylltu’

Dywedodd yr ymatebwyr a wnaeth sylwadau am hyn fod triniaeth yn ymddangos yn ‘gysylltiedig’ ac ‘wedi’i chydgyssylltu’. Roedd cleifion a fynychodd nifer o wahanol wasanaethau, ysbytai ac adrannau ar gyfer gwahanol elfennau o ddiagnosis a thriniaeth yn gwerthfawrogi’r cyfathrebu a’r cydgyssylltu clir a chyflym rhyngddynt.

“Dydw i erioed wedi gweld gweithle mwy proffesiynol ... Mae nhw’n gweithio mor galed ac maent mor wybodus. Mae’r tîm yn rhyfeddol. Rydw i’n teimlo fy mod mewn dwylo da.” – Menyw, 55 oed

“Roedd y llwybr o’r meddyg teulu i driniaeth yn rhagorol, ac yn gyflym iawn. Roedd staff ym meddygfa’r meddyg teulu, y tîm radioleg ac wroleg i gyd yn ardderchog.” – Menyw, 57 oed

“Wedi’i gydlynu’n dda ac yn bersonol.” – Dyn, 72 oed

“Ar y cyfan cefais gyfres hir o wahanol brofion (mewn 3 ysbyty) o fewn cyfnod cymharol fyr, a doedd dim rhaid i mi aros yn hir cyn y llawdriniaeth.” – Dyn, 73 oed

“Yn [enw wedi’i ddileu] roeddwn i’n teimlo bod y tîm wedi’i gydgyssylltu’n llwyr - roedd pawb y byddwn yn siarad â nhw yn hapus i drafod unrhyw fater roeddwn yn ei godi. Roeddwn i’n teimlo’n ddynol, nid yn set o symptomau.” – Menyw, 61 oed

3. Profiadau gofal yn ymwneud â digwyddiadau penodol o driniaeth

Pwysleisiwyd dro ar ôl tro y lefelau uchel o ofal cyffredinol yn ystod gweithdrefnau penodol (yn arbennig o ran cemotherapi, radiotherapi a llawdriniaethau). Gall y triniaethau hyn fod yn arbennig o drawmatig i gleifion, ond roedd ymatebwyr yn aml yn canmol y gofal a ddarparwyd a’r sylw ac roedd gan staff. Canmolwyd hefyd yr ôl-ofal parthed yr agweddau gofal penodol hyn, yn arbennig mewn ysbytai.

“Roedd y gofal cyffredinol a gefais yn ystod triniaeth yn dda, wedi’i drefnu’n dda ac yn effeithlon.” – Menyw, 53 oed

“Mae’r llawfeddygaeth ac ail-luniad fy mron, a wnaed yn [enw wedi’i ddileu], yn rhagorol. Gwnaeth y llawfeddyg lawer iawn i leihau’r effaith, ac rwy’n hynod ddiolchgar am hynny.” – Menyw, 59 oed

“Oedd, trwy gael cemotherapi croen pob 3 mis darganfuwyd y tiwmor yn fy morddwyd. Trwy gael sganiau CT daethpwyd o hyd i nod lymff canseraidd hefyd, ac rydw i nawr yn derbyn triniaeth ar ei gyfer... Heb y gweithdrefnau hyn mae’n debyg na fyddwn i yma heddiw.” - Menyw, dim gwybodaeth oedran

“Fe es i am un llawdriniaeth a chefais ddwy. Mae’n rhaid bod pawb wedi gwneud gwaith da. Rydw i yma i adrodd yr hanes.” – Menyw, 68 oed

“Roedd fy llawfeddyg yn ardderchog. Arbedodd fy mywyd drwy dorri’r canser allan yn ogystal â rhan o’m hysgyfaint. Nid oedd angen unrhyw therapi arall. Aeth fy meddyg ymgynghorol [enw wedi’i ddileu] yn [enw wedi’i ddileu] y tu hwnt i’r gofynion arferol er mwyn gwneud yn siŵr fy mod yn cael y gofal gorau posibl.” – Dyn, 63 oed

“Roedd gen i melanoma ... ond roeddwn i fod i [deithio’n rhyngwladol] yn fuan wedi hynny. Roedd y gofal oedd yn gysylltiedig â hyn yn wych ac yn gefnogol iawn. Cafodd y gweithdrefnau dilynol yn syth wedyn (trin clwyf) eu gwneud gan yr ysbyty (nid gwasanaethau lleol) a rhoddwyd gwrthfotigau i mi er mwyn gwneud yn siŵr nad oeddwn i’n cael haint. Roedd diddordeb gwirioneddol ynof i fel person a gwnaethant yn siŵr fy mod yn mynd ar fy ngwyliau – roeddwn i’n ddiolchgar dros ben.” – Menyw, 67 oed

“Mae’n rhaid canmol [enw wedi’i ddileu] a’r tîm yn [enw wedi’i ddileu] yn fawr iawn am eu harbenigedd a’u gofal pan gefais fy llawdriniaeth ar gyfer tynnu’r oesoffagws.” – Dyn, 62 oed

4. Cydnabyddiaeth a diolch

Gwnaeth nifer fawr o gleifion sylw am safon uchel y gofal y gwnaethant ei dderbyn er gwaethaf y pwysau ar staff. Roeddent yn teimlo bod y niferoedd staff yn isel a’u llwyth gwaith yn drwm, a chanmolwyd safon eu perfformiad er gwaethaf yr heriau hyn. Yn benodol, manteisiodd llawer o’r cleifion ar y cyfle i gyfleu eu diolch a phwysleisiodd llawer yr achubwyd eu bywyd o ganlyniad i safon uchel y gwasanaeth a’r driniaeth yr oeddent wedi ei dderbyn.

“Mae caredigrwydd, gofal ac arbenigedd y llawfeddygon, meddygon a nyrsys a phawb sy’n gweithio ar y wardiau o’r radd flaenaf yn yr ysbyty lle cefais fy nwy llawdriniaeth canser, gwnaethant achub fy mywyd.” – Menyw, 50 oed

“Hoffwn ddweud diolch yn fawr iawn, ar adeg anodd i mi. Roeddwn i’n ffodus i gwrdd â phobl arbennig.” – Menyw, 44 oed

“Roedd ymroddiad y tîm o nyrsys a meddygon a oedd yn edrych ar fy ôl yn anhygoel. Gwnaethant yn siŵr fy mod yn gwella, ac ni allaf ddiolch digon iddynt.” – Menyw, 78 oed

“Cefais driniaeth ragorol ym mhob ysbyty a fynychais, yn arbennig [enw wedi'i ddileu], nid oes geiriau i fynegi fy ngwerthfawrogiad o'r staff yno.” – Dyn, 66 oed

“Diolch o waelod calon i bawb y gwnes i gwrdd â nhw ar hyd y daith a wnaeth fy nhrin bob amser â gofal tyner a chariadus. Roedd yr ysbyty fel gwesty 5 seren fel yr oedd y gofal, mae'n rhywbeth y byddaf yn ei gofio am byth.” – Menyw, 55 oed

Themâu negyddol

Dywedodd lleiafrif o'r cleifion (360, neu 5%) eu bod yn anfodlon ar eu profiad cyffredinol ac ni wnaethant roi unrhyw adborth cadarnhaol yn yr adran testun rhydd. Roedd un cwestiwn yn gofyn yn benodol a oedd unrhyw beth y gellid ei wella ac ar y cyfan roedd ychydig dros un rhan o dair o'r sylwadau yn nodi anfodlonrwydd gydag agwedd ar ofal. Roedd sylwadau negyddol cleifion yn dueddol i ganolbwyntio ar agweddau penodol yn eu siwrnai canser, ac yn canolbwyntio'n bennaf ar y meysydd canlynol:

1. Anhawster i gael mynediad at ofal sylfaenol.
2. Yr amser a gymerwyd i atgyfeirio at wasanaethau arbenigol ac ar gyfer diagnosis.
3. Gwybodaeth annigonol neu amhriodol.
4. Diffyg cefnogaeth gartref.

"Apwyntiadau dilynol yn wael iawn, cael eu canslo'n gyson a dywedwyd wrthyf y byddwn yn cael 3 /12 apwyntiad dilynol, dim ond wedi cael fy ngweld dwywaith mewn blwyddyn. Angen gwella llawer ar hyn." – Menyw, 65 oed

"Mae angen gwneud mwy i esbonio effeithiau hirdymor radiotherapi - difrod i nerfau'r coesau er enghraifft!" – Menyw, 74 oed

1. Mynediad at ofal sylfaenol

Mynediad at ofal oedd y broblem a fynegwyd amlaf yn yr adran testun rhydd. Un mater a godwyd yn aml oedd anawsterau i gael apwyntiad meddyg teulu. Roedd sylwadau eraill yn canolbwyntio ar yr amser yr oedd hi'n ei gymryd o'r adeg pan sylwodd yr ymatebydd gyntaf ar symptomau a mynd i weld y meddyg teulu hyd nes iddo ef neu hi gael diagnosis. Pryder arall ar gyfer rhai, yn arbennig y rheiny sy'n byw mewn ardaloedd gwledig, oedd pellter i'r ysbyty.

"Byw mewn ardal wledig iawn, roedd pellteroedd mawr i deithio i'r ysbyty ar gyfer llawfeddygaeth a radiotherapi." – Dyn, 53 oed

"Rydw i'n llawer llai bodlon... gyda'r pellteroedd sylweddol y mae'n rhaid i gleifion yn yr ardal wledig hon [lleoliad] eu teithio ar gyfer apwyntiadau a thriniaeth." – Dyn, 82 oed

Trefnu apwyntiad meddyg teulu

Dywedwyd bod systemau apwyntiadau practisau meddygon teulu ac argaeledd apwyntiadau yn rhwystr mawr i rai gael mynediad at feddyg teulu. Mewn rhai achosion gwnaeth hyn beri oedi difrifol tan y cafodd diagnosis ei wneud. Weithiau

disgrifiodd y cleifion sut y gwnaethant ddewis triniaeth breifat, oherwydd yr anhawster i gael apwyntiad. Mewn rhai achosion, arweiniodd yr oedi at ganser yn lledu a chanlyniadau difrifol iawn.

“Gallai fy meddyg teulu fod wedi canfod hyn yn gynt. Roeddwn i wedi bod i’w weld 3 gwaith cyn cael fy atgyfeirio i glinig y fron ar gyfer biopsi.” – Menyw, 54 oed

“Cymerodd fy meddyg teulu gwreiddiol ormod o amser i’m hatgyfeirio oherwydd fy oedran - roeddwn i’n gwybod fy mod yn sâl ac yn haeru hynny ond bu’n rhaid i mi dalu’n breifat i weld arbenigwr... Ar y cyfan mae’r gofal a dderbyniais wedi bod yn dda iawn.” – Menyw, 38 oed

“Cefais anhawster mawr i gael apwyntiad gyda meddyg teulu. Pan gefais yr arwydd cyntaf bod rhywbeth o’i le ffoniais feddygfa’r meddyg teulu nifer o weithiau a dywedodd y derbynnydd wrthyf fod yr apwyntiadau i gyd wedi’u llenwi ac i ffonio am 8.30 y bore canlynol. Rhoddais y gorau iddi. Yna cefais symptom arall bod rhywbeth o’i le. Ceisiais eto gael apwyntiad a chael gwybod unwaith yn rhagor eu bod i gyd wedi’u llenwi. Yn y diwedd cefais apwyntiad gyda nyrs asthma 3 mis yn ddiweddarach a llwyddodd hi i gael apwyntiad i mi gyda’r meddyg teulu. Roedd hi bron yn rhy hwyr i mi oherwydd cefais wybod fod y tiwmor yn ceisio gwasgu drwy gyhyr. Mae angen newid systemau apwyntiadau.” – Menyw, 70 oed

“Nid oedd unrhyw gefnogaeth gan y meddyg teulu. Doeddwn i ddim yn gallu cael apwyntiad pan ddarganfyddais lwmp i ddechrau felly fe es i’n breifat.” – Menyw, 55 oed

“Pan ddarganfyddais broblem gyntaf fe gymerodd hi dair wythnos i gael apwyntiad gyda meddyg benywaidd. Rydw i’n dal i orfod aros am amser hir i gael apwyntiadau gyda’r meddyg teulu.” - Menyw, 46 oed

Symptomau’n cael eu cymryd o ddifrif

Dywedodd rhai ymatebwyr, pan wnaethant lwyddo i weld meddyg teulu neu nyrs mewn gofal sylfaenol, ei bod wedi cymryd amser hir cyn iddynt gydnabod bod eu symptomau mor ddifrifol ag oeddent a bod angen eu hymchwilio ymhellach neu gael eu hatgyfeirio. Roedd cleifion yn teimlo bod hyn yn gyfrifol am ganlyniadau difrifol, gan gynnwys eu cyflwr yn gwaethygu a/neu ganser yn lledu.

“Mae’r cysylltiad rydw i wedi ei gael gyda fy mhractis meddyg teulu wedi bod yn wael. Mae’n anodd trefnu apwyntiadau, ac roedd diffyg diddordeb pan dybiais gyntaf fod rhywbeth o’i le.” – Dyn, 72 oed

“Pan es i weld y meddygon yn wreiddiol ynglŷn â’m hysgyfaint ... doedden nhw ddim yn gallu fy ngweld am 3 wythnos felly gwnaethant awgrymu fy mod yn gweld y nyrs yn lle hynny. Gwrandawodd y nyrs ar fy mrest ac eglurais y

symptomau iddi ... dywedodd ... wrthyf am ddod nôl os nad oedd y peswch yn gwella. Roedd fel petai wedi gwella am ychydig fisoedd felly es i ddim yn ôl tan i'r peswch ddychwelyd... Cymerodd fy meddyg teulu fy symptomau o ddifrif ar unwaith a'm hanfon am brawf pelydr-X ond erbyn i'r diagnosis gael ei gwblhau ... roedd y cancer wedi lledu i fy ysgyfaint chwith felly nid oeddent y gallu gwneud llawdriniaeth. Pe bai'r nyrs wedi fy nghymryd i o ddifrif yn y lle cyntaf rwy'n teimlo y gellid bod wedi fy arbed. Dydw i erioed wedi ysmegu ond credaf pe bawn yn ysmygwr y byddent wedi rhoi sylw mwy difrifol i mi.” – Menyw, 43 oed

“Dylwn fod wedi cael atgyfeiriad ar unwaith [gan feddyg teulu] yn hytrach na chael fy rhoi ar restr aros wyth mis o hyd. Dylai'r meddyg teulu fod wedi gweld fy symptomau ac ystyried fy oedran a beth oedd yn digwydd. Yn lle hynny, gwaethygodd fy nghyflwr ac fe es i weld fy meddyg teulu deirgwaith. Y trydydd tro gofynnais i gael fy ngweld yn gynt yn yr ysbyty gan fy mod yn gwybod, oherwydd y boen ac ati, bod rhywbeth difrifol o'i le.” – Menyw, 64 oed

2. Amser a gymerwyd i atgyfeirio at wasanaethau arbenigol ac ar gyfer diagnosis

Mynegodd llawer o'r cleifion a wnaeth sylwadau bryderon ynglŷn â faint o amser aeth heibio cyn diagnosis. Awgrymodd ymatebwyr y bu oedi mewn derbyn yr apwyntiad ysbyty cyntaf; oherwydd oedi mewn atgyfeirio a hefyd amseroedd aros unwaith y gwnaed cais am apwyntiad gyda gwasanaethau arbenigol. Achosodd yr aros hir hwn lawer o bryder a phoen meddwl. Dywedodd rhai y gallai gymryd peth amser cyn y byddai canlyniadau profion cychwynnol yn cael eu cyfathrebu.

“Fe gymerodd yn llawer rhy hir i mi gael fy ngweld ar gyfer sganiau, biopsis cychwynnol ac ati, yn arbennig gan fod gen i hanes blaenorol o ganser. Dydw i ddim yn meddwl y gwerthfawrogir yr effaith y mae hyn yn ei chael ar eich lles emosiynol.” – Menyw, 63 oed

“Roedd amseroedd aros ar gyfer ymgynghoriad neu driniaeth yn dreth ar yr emosiynau.” – Dyn, 75 oed

“Er gwaethaf atgyfeiriad llwybr carlam gan fy meddyg teulu i glinig y fron roedd yn rhaid i mi aros 6 wythnos am apwyntiad. Rwy'n teimlo bod hyn yn rhy hir ac roedd yr aros yn peri straen. Yn dilyn diagnosis pendant o ganser y fron dwyochrol, roedd hi'n 7 wythnos arall cyn y gallwn gael llawdriniaeth. Roedd yn rhaid i mi newid meddyg ymgynghorol er mwyn cael llawdriniaeth mor gyflym â hyn.” – Menyw, 61 oed

“Ddylwn i fod wedi dechrau ar fy nhriniaeth o fewn 62 diwrnod ond roedd hi ymhell dros 100 diwrnod, gan hyd yn oed gadw mewn cof oedi derbyniol megis aros am sgan MRI ac ati. Roedd yn rhaid i mi ysgrifennu at fy AS ac eraill neu efallai y byddwn wedi gorfod aros hyd yn oed yn hwy! Dim yn dda o gwbl. Ychwanegodd hyn yn fawr iawn at fy mhryderon a'r straen yr oeddwn yn ei deimlo.” – Dyn, 75 oed

“Roedd yr amser o’r apwyntiad cyntaf gyda’r meddyg teulu tan y llawfeddygaeth wedi’r diagnosis yn hir iawn - 5 mis - ac mae’n bosibl na fyddwn yn dal i gael cemotherapi (drud ac aneffeithiol hyd yma) heb yr oedi hwn. Mae’n bosibl y byddai’r llawfeddygaeth wedi bod yn effeithiol ac na fyddai’r canser wedi lledu ymhellach yn fy nghorff pe bai’r diagnosis a’r llawfeddygaeth wedi bod yn gyflymach a mwy effeithiol.” – Menyw, 60 oed

“Mae pob apwyntiad ac aros am ganlyniadau sganiau ac ati yn cymryd wythnosau, mae’n ddigon gwael gorfod wynebu’r straen o fod â chanser.” – Dyn, 53 oed

Pellter i’r ysbyty

Yn yr un modd, gwnaeth rhai cleifion sylwadau yn nodi y gallai’r pellter i’r ysbyty fod yn rhy bell, yn arbennig pan oeddent yn cael triniaethau dyddiol. Fodd bynnag, unwaith eto, dylid nodi bod y sylwadau hyn yn bennaf leoledig i gleifion sy’n byw o fewn dalgylch bwrdd iechyd cymharol wledig. Awgrymodd rhai y gellid gwella cysylltiadau trafnidiaeth.

“Trueni bod y radiotherapi yn [enw wedi’i ddileu]. Byddai’n wych pe bai gan [enw wedi’i ddileu] un peiriant yn hytrach na bod 4 yn [enw wedi’i ddileu].” – Menyw, 58 oed

3. Gwybodaeth

Pwysleisiodd y cleifion bwysigrwydd cael digon o wybodaeth ynglŷn â’u diagnosis, gofal a thriniaeth ac roeddent yn teimlo bod angen gwelliannau. Roedd gwybodaeth ar adeg diagnosis ynglŷn â’r clefyd a’r prognosis yn bwysig a hefyd gwybodaeth am weithdrefnau a thriniaeth. Dywedwyd hefyd bod gwybodaeth am brosesau’r ysbyty a’r gofal dilynol weithiau’n brin. Cwynodd rhai cleifion nad oeddent yn teimlo eu bod wedi eu cynnwys digon mewn penderfyniadau ynglŷn â’u gofal. Awgrymodd eraill eu bod efallai wedi derbyn gwybodaeth oedd yn gwrth-ddweud ei hun neu hyd yn oed yn anghywir ar adegau.

Gwybodaeth am ddiagnosis a phrognosis

Dangosodd sylwadau testun rhydd fod rhai cleifion yn teimlo nad oedd ganddynt ddigon o wybodaeth ynglŷn â beth oedd eu diagnosis canser yn ei olygu o ran y driniaeth roedd ei hangen arnynt a’u hiechyd, nawr ac yn y dyfodol.

“Byddai rhywun yn dweud un peth a rhywun arall yn dweud rhywbeth arall. Ar un pwynt gwnaethant fy nychryn a dweud efallai ei fod yn fy ngwddf. Doedden nhw ddim yn gallu darllen y nodiadau, gan mai problem thyroid sydd gen i.” – Menyw, 54 oed

“Mwy o wybodaeth ynglŷn â phrognosis a disgwyliad oes.” - Dyn, 58 oed

“Oherwydd natur fy niagnosis doedd gen i/does gen i ddim mynediad at y meddyg canser/tiwmor arbenigol. Yn aml mae’n rhaid i fy meddyg teulu gael y wybodaeth gan rywun arall ac rydw i’n ei chael hi’n drydydd llaw. Pan fydd gen i gwestiynau nid oes unrhyw ffordd i mi allu cael yr atebion oherwydd does gen i ddim person go iawn sydd â chyfrifoldeb gofal amdanaf i cyn belled ag y gwn i... nid oes gen i syniad hyd heddiw a yw’r llawdriniaeth wedi tynnu’r tiwmor cyfan na sut y bydd yn cael ei fonitro yn y dyfodol.” – Menyw, 36 oed

“Cefais wybod fy mod yn dioddef o ganser yr esgyrn. Ers hynny dydw i ddim wedi cael unrhyw wybodaeth am sut y bydd hyn yn effeithio ar fy nyfodol. Ar beth fydd e’n effeithio, fy nyfodol neu fy nisgwyliad oes?” – Menyw, 72 oed

“Cysondeb terminoleg e.e. cefais wybod yn gyntaf fod gen i goden fawr ac wedyn galwyd ef yn diwmor. I mi mae ystyr gwahanol i’r ddau air, felly cefais fy synnu i gael diagnosis bod gennyf ganser yn fwy na thebyg.” – Menyw, 65 oed

Roedd rhai cleifion eisiau mwy o wybodaeth ysgrifenedig, tra bod rhai eisiau gwybodaeth oedd wedi’i theilwra’n well i’w sefyllfa hwy eu hunain. Byddai rhai ymatebwyr wedi hoffi cael llenyddiaeth a oedd yn haws ei deall ac roedd eraill eisiau gwybodaeth oedd yn rhoi mwy o fanylion. Byddai’n well gan rai fod wedi cael gwybodaeth am effeithiau emosiynol a seicolegol bod â chanser.

“Ni ddywedwyd wrthyf pa fath o ganser oedd gen i nes i mi weld fy Oncolegydd a chefais i ddim gwybodaeth ysgrifenedig am y math hwn o ganser. Doeddwn i ddim hyd yn oed yn gwybod bod mwy nac un math o ganser y fron i’w gael. Roedd yn rhaid i mi edrych ar-lein am wybodaeth ynglŷn â’r math o ganser oedd gen i.” – Menyw, 42 oed

“Roedd peth o’r llenyddiaeth a roddwyd i mi yn rhy syml fel pe bai wedi cael ei ysgrifennu ar gyfer twpsyn ac roedd peth ohono’n rhy gymhleth.” – Menyw, 75 oed

“Yn yr apwyntiad cyntaf cefais daflenni, llyfrynau ac ati gyda gwybodaeth am feysydd yn amrywio o lwmpectomi i godi dwy fron. Gwnaeth hyn fy nychryn ac roeddwn i’n teimlo ei fod yn amhriodol gan nad oeddwn i’n gallu cymharu fy lwmp bach iawn gradd 1 i, a oedd yn tyfu’n araf, gyda fy merch oedd wedi marw ar ôl cael codi dwy fron.” – Menyw, 71 oed

“Mwy o ddeunydd darllen, mwy o gyngor ynglŷn â sut y gall hyn effeithio’n emosiynol arnoch chi. Byddai llyfryn ar wahanol gamau a mathau o felanoma wedi bod yn ddefnyddiol ac wedi tawelu fy meddwl.” – Menyw, 43 oed

Gwybodaeth am ôl-ofal a darpariaeth ddilynol

Roedd mynediad at wybodaeth fel petai'n broblem benodol parthed ôl-ofal a darpariaeth ddilynol. Byddai pobl wedi hoffi cael mwy o wybodaeth ynglŷn â sut y gallent ddisgwyl teimlo ar ôl triniaeth neu lawdriniaethau, beth sy'n 'arferol' a phryd mae angen ceisio cyngor neu ofal pellach.

"Mae angen rhoi mwy o wybodaeth i gleifion pan fyddant yn gadael yr ysbyty. Cyn eich llawdriniaeth rhoddir gormod o wybodaeth i chi (er fy mod yn deall pam - oherwydd dibenion yswiriant). Fodd bynnag, pan fyddwch yn gadael yr ysbyty dylech gael canllaw bras ynglŷn â beth i'w ddisgwyl (e.e. pryd y bydd hi'n debygol y bydd eich poen yn lleihau/gorffen). Oni bai eich bod yn gofyn ni roddir gwybodaeth i chi." – Menyw, 62 oed

"Gweinyddu ar ôl gadael yr ysbyty. Gofynnais am lythyr gyda manylion fy niagnosis a thriniaeth. Cafodd ei addo ar 2 achlysur ond cymerodd 4 mis i gyrraedd." – Menyw, 59 oed

"Gwybodaeth ynglŷn ag ôl-ofal oedd ei angen yn dilyn y llawdriniaeth. Doeddwn i ddim yn gwybod a oeddwn i'n gwneud y pethau iawn ac a oedd y boen a'r anghysur yr oeddwn i'n ei deimlo yn rhywbeth arferol. Yn y diwedd es i weld y meddyg teulu a gwnaeth hynny dawelu fy meddwl." - Menyw, 61 oed

"Yn y llenyddiaeth a gefais ar ôl y llawdriniaeth nid oedd unrhyw sôn am y posibilrwydd o gael poen ôl-lawdriniaethol oherwydd llid y corff gan nwy. Pe byddwn wedi sylweddoli pa mor ddifrifol y gallai'r poen hwn fod, byddwn wedi dechrau cymryd poen laddwyr yn gynt. Efallai y byddai'n ddefnyddiol i grybwyll hyn yn y llenyddiaeth." - Dyn, 73 oed

"Byddwn wedi hoffi cael taflen wybodaeth cleifion gyda chyngor ar adferiad yn dilyn llawfeddygaeth canser y coluddyn a beth i'w ddisgwyl." – Menyw, 75 oed

"Gwybodaeth oedd yn gwrthdaro ynglŷn â beth ddylwn i fod yn ei fwyta. Dywedodd un person un peth, dywedodd un arall rywbeth gwahanol." – Menyw, 34 oed

4. Cymorth gartref

Pan ddychwelodd cleifion i'w cartref ar ôl cyfnodau o ofal, nid oedd eu hanghenion o ran cefnogaeth bob amser wedi'u diwallu. Roedd gwahanol agweddau ar yr anghenion hyn: ôl-ofal gan nyrsys ardal, cefnogaeth ar gyfer eu hiechyd meddwl, Cymorth Canser Macmillan, a gwybodaeth am y gefnogaeth ariannol sydd ar gael.

Roedd ymdeimlad o unigedd fel petai'n treiddio trwy'r sylwadau ynglŷn ag anfodlonrwydd gyda chefnogaeth gartref ar draws y dirwedd genedlaethol. Fodd bynnag, mae'n ymddangos bod pocedi ar draws y wlad lle mae cleifion yn adrodd am

gefnogaeth gartref o safon uchel. Roedd cleifion drwyddi draw yn canmol y gefnogaeth a'r gofal y gwnaethant dderbyn gan sefydliadau cancer sector gwirfoddol.

Dywedodd llawer o gleifion fod oedi rhy hir cyn unrhyw apwyntiadau dilynol, gyda rhai'n nodi y gallai hyn adael pobl yn teimlo wedi'u hynysu ac yn unig.

Ôl-ofal

Roedd cleifion oedd wedi dychwelyd adref weithiau'n teimlo nad oedd ganddynt ddigon o wybodaeth na chefnogaeth.

“Roedd gwybodaeth wedi'r llawdriniaeth yn wael. Dim gwybodaeth wedi'i darparu er mwyn cefnogi (yn emosiynol a meddyliol) e.e. ni ddarparodd [enw wedi'i ddileu] weithiwr allweddol na NGA enwebedig.” – Menyw, 57 oed

“Gadewais [enw wedi'i ddileu] heb gynllun gofal, gadawyd popeth yn llwyr i fy merch ofalu am fy anghenion ac i gael cyfleusterau wedi eu gosod yn ei thŷ hi h.y. cawod a thŷ bach.” – Dyn, 93 oed

Nyrsys cymunedol/ardal

Roedd ymatebion yn dangos bod pobl yn teimlo nad oeddent yn cael cefnogaeth gan nyrsys cymunedol. Mewn rhai achosion, roedd argaeledd staff yn broblem. Mewn rhai achosion, pan oedd nyrsys ardal yn ymweld â hwy yn eu cartrefi, roedd sylwadau'n awgrymu nad oedd ganddynt ddigon o sgiliau. Roedd hyn yn golygu bod cleifion weithiau'n gorfod gwneud y gweithdrefnau eu hunain, rhai yr oeddent yn disgwyl iddynt gael eu gwneud gan staff clinigol.

“Roedd fy Nyrs Ardal yn drychinebus yn ystod triniaeth. Roedd 3 neu 4 achlysur pan na alwodd.” - Menyw, 51 oed

“Mae nyrsys ardal angen ymarfer rheolaidd ar ofal llinellau PICC gan nad oeddent fel pe baent yn gyfarwydd â nhw.” – Dyn, 77 oed

“Roedd yr ôl-ofal gyda'r nyrsys ardal yn wan. Daethant allan ddwywaith a dim mwy ac rydw i'n byw ar fy mhen fy hun ac roedd yn rhaid i mi newid y gorchuddion a'r bagiau draenio fy hun.” – Menyw, 61 oed

“Gallai nyrsys ardal gael eu dyrannu ar sail profiad. Roeddwn i'n rhoi Clexane fy hun ond roeddwn angen ateb i gwestiwn gan nyrs ardal ynglŷn â gweinyddu meddyginiaethau a doedd hi ddim yn gwybod. Gadawodd hi i mi barhau â'r weithdrefn gan ei bod hi'n ymddangos fy mod yn gymwys a synhwyrol.” – Menyw, 63 oed

“Roedd yn rhaid i mi symud llinell PICC. Ar yr ymweliad cyntaf doedd y nyrs ardal ddim yn gwybod beth oedd hi'n ei wneud o ran fflysio/newid gorchuddion. Gwnaethant wrthod gorffen y llinell ar wythnos cemotharapi - a

wnaeth i mi deimlo'n bryderus iawn ac roeddwn bob amser yn teimlo dan straen yn ystod y 3 diwrnod cyn fy nghemotherapi. Rhoesant wybodaeth anghywir i mi. Pan wnaeth yr oncolegydd leihau'r cryfder roedd y nyrsys yn barod iawn eu barn wrth ddweud wrthyf fy mod angen mwy o gemotherapi. Pan orffennodd fy nhriniaeth roedden nhw'n dweud yn gyson wrthyf i dynnu'r llinell, a daeth hi i'r pwynt lle ffoniodd un ohonynt y diwrnod cynt a gofyn pam nad oeddwn i wedi cael ei thynnu. Roeddwn i'n teimlo fy mod yn cael fy mwlio yn fy nghartref fy hun. Credaf y dylai rhai nyrsys ar y tîm gael mwy o wybodaeth ynglŷn â chanser er mwyn delio â chleifion sy'n mynd trwy hyn." – Menyw, 48 oed

Cefnogaeth emosiynol a seicolegol

Cyfeiriodd nifer o sylwadau at yr angen am gefnogaeth seicolegol ac emosiynol nad oedd yn cael ei darparu yn dilyn triniaeth canser. Roedd y cleifion eu hunain yn teimlo bod angen cymorth arnynt i ymdopi ag effeithiau emosiynol eu triniaeth a goblygiadau eu prognosis ar gyfer eu dyfodol, o'u rhan hwy eu hunain ac aelodau eu teulu, yn arbennig pan fo ganddynt ddibynyddion.

"Yr ôl-ofal e.e. iechyd meddwl. Mae canser yn drysu cyflwr eich meddwl. Pan ddaeth triniaeth i ben roeddwn fel petawn ar goll ac rydw i'n dal felly." – Dyn, 72 oed

"Fel mam sengl i [wedi'i ddileu] byddai'n dda gen i pe byddai rhywun y gallwn siarad â nhw ynglŷn â marw ac ati a beth fyddai'n digwydd ar y diwedd a dyma sy'n codi'r mwyaf o ofn arna'i! Ddim yn gwybod." – Menyw, 49 oed

"Rydw i'n teimlo mai ochr emosiynol canser yw'r anoddaf i ymdrin â hi. Nid yn unig fel claf ond ar gyfer teulu agos h.y. gwŷr, plant ifanc a rhieni. Efallai bod rhywbeth y gellid ei wneud i fynd i'r afael â hyn." – Menyw, 41 oed

"Er y darparwyd ar gyfer fy anghenion corfforol, gan fy mod yn un sy'n dioddef gyda phryder ac iselder rydw i'n teimlo bod fy nghanser wedi cael y prif sylw - fel y dylai - ond anwybyddwyd fy nghyflwr meddyliol." – Menyw, 58 oed

Cymorth ariannol

Dywedodd llawer na chawsant ddigon o wybodaeth am ddarpariaeth/cymorth ariannol. Pan soniwyd am hyn, roedd weithiau mewn perthynas â phenderfyniadau ynglŷn â chyflogaeth a'r pwysigrwydd y byddai'r math hon o wybodaeth yn ei chwarae mewn penderfyniad o'r fath.

"Cefnogaeth ar gyfer pobl sy'n byw ar eu pen eu hunain. Mwy o gefnogaeth ariannol." – Menyw, 57 oed

“Roeddwn i’n teimlo bod peth o’r wybodaeth wedi cael ei rhoi amser maith wedi i mi ddychwelyd i’r gwaith e.e. dywedodd [enw wedi’i dileu] fod cymorth posibl ar gael gyda gofidiau ariannol, ond roedd hi’n rhy hwyr erbyn hynny. Dychwelais i’r gwaith oherwydd gofidiau ariannol ac rwy’n gwybod y byddai’n well gan fy nyrs gofal petawn wedi aros yn hwy.” – Menyw, 53 oed

Adran naw:

Atodiadau




Atodiad un: Dadansoddiad o'r byrddau iechyd

Mae'r adran hon yn cymharu canfyddiad ymatebwyr o'u gofal cancer mewn perthynas â'r dalgylch bwrdd iechyd lle maent yn byw. Sylwch fod sgoriau cadarnhaol unwaith eto wedi eu defnyddio fel offeryn cymharu.

Data wedi eu safoni sydd yn yr adran hon. Golyga hyn eu bod wedi cael eu haddasu er mwyn gwneud cymariaethau rhwng byrddau iechyd mor deg â phosibl.

Mae'r graffiau yn yr adran hon yn dangos y sgôr wedi ei addasu ar gyfer pob un o'r saith bwrdd iechyd o gymharu â sgôr cyfartalog y byrddau iechyd.

I gael rhagor o wybodaeth am safoni neu'r cyfartaledd byrddau iechyd, gweler rhannau perthnasol Adran pedwar: Trosolwg o'r arolwg.




Dadansoddiad bwrdd iechyd: Cyn eich diagnosis

Mae'r cwestiynau hyn yn ymwneud â beth ddigwyddodd cyn i gleifion ddarganfod bod ganddynt ganser.

C3+: Cyn diagnosis: Cleifion yr oedd eu meddyg teulu yn cymryd y symptomau'n gwbl o ddifrif


Pob ymatebydd



- Sgôr cadarnhaol byrddau iechyd
- Cyfartaledd byrddau iechyd


C4: Cyn diagnosis: Gwelwyd mor fuan ag oedd angen

Pob ymatebydd



C5: Cyn diagnosis: arhosodd iechyd yr un peth/gwellodd wrth aros am yr apwyntiad cyntaf gyda meddyg ysbyty


Pob ymatebydd



- Sgôr cadarnhaol byrddau iechyd
- Cyfartaledd byrddau iechyd


C8+: Cyn diagnosis: Beth fyddai'n cael ei wneud yn ystod prawf/profion yn cael ei esbonio'n llwyr

Ymatebwyr a gafodd brawf diagnostig



C9+: Cyn diagnosis: Derbyniwyd gwybodaeth ysgrifenedig am brawf/profion a oedd yn hawdd i'w deall

Ymatebwyr a gafodd brawf diagnostig




■ Sgôr cadarnhaol byrddau iechyd

— Cyfartaledd byrddau iechyd

C10+: Cyn diagnosis: Canlyniad prawf/profion wedi ei esbonio'n llwyr

Ymatebwyr a gafodd brawf diagnostig




Dadansoddiad o'r byrddau iechyd: Darganfod bod gennych ganaser

Mae'r cwestiynau hyn yn ymwneud â beth ddigwyddodd pan wnaeth cleifion ddarganfod bod ganddynt ganaser.

C11: Darganfod bod gennych ganaser: dywedwyd yn sensitif bod ganddynt ganaser


Pob ymatebydd



- Sgôr cadarnhaol byrddau iechyd
- Cyfartaledd byrddau iechyd


C12: Darganfod bod gennych ganser: Deallwyd yn llwyr yr esboniad o beth oedd o'i le

Pob ymatebydd



C13+: Darganfod bod gennych ganser: Derbyniwyd gwybodaeth ysgrifenedig hawdd i'w deall am eu math o ganser

Pob ymatebydd



■ Sgôr cadarnhaol byrddau iechyd


— Cyfartaledd byrddau iechyd

Dadansoddiad o'r byrddau iechyd: Penderfynu ar y driniaeth a/neu'r gofal gorau ar eich cyfer

Mae'r cwestiynau hyn yn ymwneud â'r penderfyniadau a wnaed am y driniaeth neu'r gofal gorau.


C14+: Cyn triniaeth: Dewisiadau triniaeth wedi eu hesbonio cyn iddi ddechrau

Pob ymatebydd



C15: Cyn triniaeth: Yn bendant wedi cymryd cymaint o ran mewn penderfynu ar ofal a thriniaeth

Pob ymatebydd




■ Sgôr cadarnhaol byrddau iechyd

— Cyfartaledd byrddau iechyd


C16+: Cyn triniaeth: Yn bendant cafodd sgil-ffeithiau posibl y driniaeth eu hesbonio mewn ffordd ddealladwy

Pob ymatebydd



C17+: Cyn triniaeth: Derbyniwyd gwybodaeth ysgrifenedig hawdd i'w deall am sgil-ffeithiau triniaeth

Pob ymatebydd




■ Sgôr cadarnhaol byrddau iechyd

— Cyfartaledd byrddau iechyd

C18+: Cyn triniaeth: Hysbyswyd yn bendant am sgil-ffeithiau posibl yn y dyfodol

Pob ymatebydd




Dadansoddiad o'r byrddau iechyd: Gweithiwr Allweddol

Mae'r cwestiynau hyn yn ymwneud â Gweithwyr Allweddol.

C19: Gweithiwr Allweddol: Rhoddwyd enw a manylion cyswllt GA

Pob ymatebydd




■ Sgôr cadarnhaol byrddau iechyd

— Cyfartaledd byrddau iechyd


C20+: Gweithiwr Allweddol: Fe'i cafwyd yn hawdd i gysylltu â'r GA

Ymatebwyd oedd ag enw a manylion cyswllt Gweithiwr Allweddol



C21+: Gweithiwr Allweddol: Rhoddwyd atebion i gwestiynau naill ai drwy'r amser neu'r rhan fwyaf o'r amser

Ymatebwyd oedd ag enw a manylion cyswllt Gweithiwr Allweddol




- Sgôr cadarnhaol byrddau iechyd
- Cyfartaledd byrddau iechyd

Dadansoddiad o'r byrddau iechyd: Nyrs Glinigol Arbenigol

Mae'r cwestiynau hyn yn ymwneud â Nyrsys Clinigol Arbenigol.


C22: Nyrs Glinigol Arbenigol: Cafwyd mynediad at NGA

Pob ymatebydd



C23+: Nyrs Glinigol Arbenigol: Hawdd i gysylltu â'u NGA


Ymatebwyr oedd ag enw a manylion cyswllt Nyrs Glinigol Arbenigol



- Sgôr cadarnhaol byrddau iechyd
- Cyfartaledd byrddau iechyd


C24+: Nyrs Glinigol Arbenigol: Rhoddwyd atebion dealladwy i gwestiynau naill ai drwy'r amser neu'r rhan fwyaf o'r amser

Ymatebwyr oedd ag enw a manylion cyswllt Nyrs Glinigol Arbenigol



C25: Nyrs Glinigol Arbenigol: Derbyniwyd gwybodaeth gyflawn gan NGA i wneud penderfyniadau gwybodus am driniaeth a gofal

Ymatebwyr oedd ag enw a manylion cyswllt Nyrs Glinigol Arbenigol



■ Sgôr cadarnhaol byrddau iechyd


— Cyfartaledd byrddau iechyd

Dadansoddiad o'r byrddau iechyd: Cefnogaeth i bobl sydd â chanser

Mae'r cwestiynau hyn yn ymwneud â chefnogaeth i gleifion pan ddechreuodd eu triniaeth cancer gyntaf.


C26: Cefnogaeth: Derbyniwyd y swm cywir o wybodaeth am grwpiau cefnogi/hunangymorth

Pob ymatebydd



C27: Cefnogaeth: Fe'u hysbyswyd am gymorth gwirfoddol a chan elusennau


Pob ymatebydd



- Sgôr cadarnhaol byrddau iechyd
- Cyfartaledd byrddau iechyd


C28: Cefnogaeth: Trafododd neu darparodd y staff yn llawn wybodaeth ar effaith cancer ar weithgareddau dydd-i-ddydd

Pob ymatebydd



C29+: Cefnogaeth: Rhoddwyd gwybodaeth gan staff ar gymorth ariannol/budd-daliadau y gallent fod â hawl iddynt

Pob ymatebydd



■ Sgôr cadarnhaol byrddau iechyd


— Cyfartaledd byrddau iechyd

Dadansoddiad o'r byrddau iechyd: Llawdriniaethau

Mae'r cwestiynau hyn yn ymwneud ag unrhyw lawdriniaeth y gallai claf fod wedi ei chael mewn perthynas â chanser.


C32+: Llawdriniaethau: Esboniodd staff yn llwyr beth fyddai'n cael ei wneud yn ystod y llawdriniaeth

Ymatebwyr oedd wedi cael llawdriniaeth ar gyfer eu canser



C33+: Llawdriniaethau: Derbyniwyd gwybodaeth ysgrifenedig hawdd i'w deall am y llawdriniaeth

Ymatebwyr oedd wedi cael llawdriniaeth ar gyfer eu canser




■ Sgôr cadarnhaol byrddau iechyd

— Cyfartaledd byrddau iechyd

C34+: Llawdriniaethau: Derbyniwyd esboniad llawn a dealladwy gan staff ar sut yr aeth y llawdriniaeth rhagddi

Ymatebwyr oedd wedi cael llawdriniaeth ar gyfer eu cancer




Dadansoddiad o'r byrddau iechyd: Gofal ysbyty fel claf mewnol

Mae'r cwestiynau hyn yn ymwneud ag unrhyw arhosiad claf mewnol yn yr ysbyty mewn perthynas â thriniaeth chanser.

C37: Claf mewnol: Triniwyd ag urddas a pharch bob amser tra roedd yn yr ysbyty

Ymatebwyr oedd wedi cael llawdriniaeth neu wedi aros dros nos ar gyfer eu gofal canser




■ Sgôr cadarnhaol byrddau iechyd

— Cyfartaledd byrddau iechyd


C38: Claf mewnlol: Nid oedd meddygon a nyrsys yn siarad o flaen cleifion fel pe baent ddim yno

Ymatebwyr oedd wedi cael llawdriniaeth neu wedi aros dros nos ar gyfer eu gofal canser



C39: Claf mewnlol: Nid oedd staff yn gwrth-ddweud ei gilydd


Ymatebwyr oedd wedi cael llawdriniaeth neu wedi aros dros nos ar gyfer eu gofal canser



- Sgôr cadarnhaol byrddau iechyd
- Cyfartaledd byrddau iechyd


C40+: Claf mewnlol: Roedd yn gallu trafod pryderon/ofnau gymaint ag y dymunai gyda staff

Ymatebwyr oedd wedi cael llawdriniaeth neu wedi aros dros nos ar gyfer eu gofal cancer



C41+: Claf mewnlol: Deallwyd atebion i gwestiynau a roddwyd gan feddygon neu nyrswys drwy'r amser neu'r rhan fwyaf o'r amser

Ymatebwyr oedd wedi cael llawdriniaeth neu wedi aros dros nos ar gyfer eu gofal cancer




■ Sgôr cadarnhaol byrddau iechyd

— Cyfartaledd byrddau iechyd


C42+: Claf mewnlol: Cafodd y teulu ddigon o gyfle yn bendant i siarad â gweithiwr iechyd proffesiynol

Ymatebwyr oedd wedi cael llawdriniaeth neu wedi aros dros nos ar gyfer eu gofal cancer



C43: Claf mewnlol: Roedd ganddo hyder ac ymddiriedaeth yn yr holl feddygon


Ymatebwyr oedd wedi cael llawdriniaeth neu wedi aros dros nos ar gyfer eu gofal cancer



- Sgôr cadarnhaol byrddau iechyd
- Cyfartaledd byrddau iechyd


C44: Claf mewnol: Roedd ganddo hyder ac ymddiriedaeth yn yr holl nyrsys

Ymatebwyr oedd wedi cael llawdriniaeth neu wedi aros dros nos ar gyfer eu gofal cancer



C45+: Claf Mewnol: derbyniwyd cymorth o fewn 5 munud pan ddefnyddiwyd y botwm galw

Ymatebwyr oedd wedi cael llawdriniaeth neu wedi aros dros nos ar gyfer eu gofal cancer




■ Sgôr cadarnhaol byrddau iechyd

— Cyfartaledd byrddau iechyd


C46: Claf mewnol: Cyfathrebodd meddygon a nyrsys yn effeithiol bob tro

Ymatebwyr oedd wedi cael llawdriniaeth neu wedi aros dros nos ar gyfer eu gofal cancer



C47: Claf mewnol: Roedd ganddo ddigon o breifatrwydd bob tro wrth drafod ei gyflwr

Ymatebwyr oedd wedi cael llawdriniaeth neu wedi aros dros nos ar gyfer eu gofal cancer



■ Sgôr cadarnhaol byrddau iechyd

— Cyfartaledd byrddau iechyd


C48: Claf mewnlol: Roedd ganddo ddigon o breifatrwydd bob tro wrth gael ei archwilio neu ei drin

Ymatebwyr oedd wedi cael llawdriniaeth neu wedi aros dros nos ar gyfer eu gofal cancer



C49+: Claf mewnlol: Gwnaeth staff bopeth i reoli poen drwy'r amser


Ymatebwyr oedd wedi cael llawdriniaeth neu wedi aros dros nos ar gyfer eu gofal cancer



- Sgôr cadarnhaol byrddau iechyd
- Cyfartaledd byrddau iechyd


C50+: Claf mewnlol: Derbyniodd wybodaeth ysgrifenedig glir ar beth ddylid neu na ddylid ei wneud wedi gadael yr ysbyty

Ymatebwyr oedd wedi cael llawdriniaeth neu wedi aros dros nos ar gyfer eu gofal cancer



C51: Claf mewnlol: Dywedwyd wrtho â phwy i gysylltu os bydd yn bryderus wedi gadael yr ysbyty

Ymatebwyr oedd wedi cael llawdriniaeth neu wedi aros dros nos ar gyfer eu gofal cancer



■ Sgôr cadarnhaol byrddau iechyd


— Cyfartaledd byrddau iechyd

Dadansoddiad o'r byrddau iechyd: Apwyntiadau cleifion allanol/achos dydd

Mae'r cwestiynau hyn yn ymwneud ag unrhyw apwyntiad claf allanol neu achos dydd mewn perthynas â thriniaeth cancer.


C54+: Claf allanol/Achos Dydd: Gwnaeth y staff bopeth yn bendant i reoli poen

Ymatebwyr a gafodd apwyntiad claf allanol neu achos dydd



C55+: Claf allanol/Achos Dydd: Derbyniwyd digon o gefnogaeth emosiynol yn bendant gan staff

Ymatebwyr a gafodd apwyntiad claf allanol neu achos dydd



■ Sgôr cadarnhaol byrddau iechyd


— Cyfartaledd byrddau iechyd

Dadansoddiad o'r byrddau iechyd: Radiotherapi/cemotherapi

Mae'r cwestiynau hyn yn ymwneud ag unrhyw radiotherapi neu gemotherapi y gallai cleifion fod wedi ei gael.


C58+: Radiotherapi: Gwnaeth staff yn bendant bopeth i reoli sgil-ffeithiau radiotherapi

Ymatebwyr a gafodd radiotherapi



C61+: Cemotherapi: Yn bendant, gwnaeth staff bopeth i reoli sgil-ffeithiau cemotherapi

Ymatebwyr a gafodd gemotherapi



■ Sgôr cadarnhaol byrddau iechyd


— Cyfartaledd byrddau iechyd

Dadansoddiad o'r byrddau iechyd: Trefnu cefnogaeth gartref

Mae'r cwestiynau hyn yn ymwneud â chefnogaeth gartref yn cael ei threfnu pan ddychwelodd claf adref o'r ysbyty yn dilyn ei ofal am ganser.


C62+: Cefnogaeth gartref: Rhoddwyd digon o wybodaeth yn bendant i deulu i ofalu gartref

Pob ymatebydd



C63: Cefnogaeth gartref: Cynigiwyd cyngor ymarferol yn bendant am ddelio â sgil-ffeithiau'r driniaeth


Pob ymatebydd



- Sgôr cadarnhaol byrddau iechyd
- Cyfartaledd byrddau iechyd


C64+: Cefnogaeth gartref: Yn bendant, rhoddwyd digon o ofal a chymorth gan y meddyg teulu wedi gadael yr ysbyty

Pob ymatebydd



C65: Cefnogaeth gartref: Roedd gan y meddyg teulu yr holl wybodaeth ofynnol ar gyfer gofal


Pob ymatebydd



- Sgôr cadarnhaol byrddau iechyd
- Cyfartaledd byrddau iechyd

C66+: Cefnogaeth gartref: Yn bendant, rhoddwyd digon o ofal a chymorth gan wasanaethau iechyd neu gymdeithasol

Pob ymatebydd




Dadansoddiad o'r byrddau iechyd: Eich gofal GIG cyffredinol

Mae'r cwestiynau hyn yn ymwneud â phrofiad cyffredinol cleifion o'r gofal y gwnaethant ei dderbyn gan y GIG.

C67: Yn gyffredinol: Cynigiwyd y cyfle i drafod anghenion a phryderon i ddatblygu cynllun gofal


Pob ymatebydd



- Sgôr cadarnhaol byrddau iechyd
- Cyfartaledd byrddau iechyd


C68: Yn gyffredinol: Cynigiwyd cynllun gofal ysgrifenedig

Pob ymatebydd



C69: Yn gyffredinol: Cafwyd trafodaeth am gymryd rhan mewn ymchwil cancer

Pob ymatebydd




■ Sgôr cadarnhaol byrddau iechyd

— Cyfartaledd byrddau iechyd


